# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH ARBENNIG (CYLLIDEB)** | | **EXTRAORDINARY EXECUTIVE (BUDGET)** |
| **DYDD IAU 29 CHWEFROR 2024 9.00 o'r gloch** | | **THURSDAY 29 FEBRUARY 2024 9.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3, 2023/24** (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**4 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3, 2023/24** (Tudalennau 21 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3, 2023/24** (Tudalennau 39 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2024/25** (Tudalennau 51 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 STRATEGAETH GYFALAF 2024 - 2029** (Tudalennau 77 - 114)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 CYLLIDEB CYFALAF 2024/25** (Tudalennau 115 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9 GWELLA DIBYNADWYEDD A GWYTNWCH AR DRAWS AFON MENAI** (Tudalennau 125 - 152)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Eonomaidd.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 CHWEFROR 2024** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2023/24** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) /SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BETHAN HUGHES-OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau

**1.** Ar 9 Mawrth 2023, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2023/24 gyda gwariant net y gwasanaethau o £174.569m, i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol, yn ogystal â £3.780m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £2.893m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.943m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 5.00% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

**2.** Fel y llynedd, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys unrhyw ofynion ar y gwasanaethau i wneud arbedion.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 31 Rhagfyr 2023. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan hefyd yn cael ei grynhoi. Gan fod yr adroddiad hwn yn crynhoi'r sefyllfa hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, mae'r rhan fwyaf o'r costau'n dod yn gostau gwirioneddol yn hytrach na'n rhai a ragwelir, a gellir adrodd ar y sefyllfa derfynol gyda lefel uwch o sicrwydd, o'i gymharu â chwarteri blaenorol. Yn ogystal â hyn, gall cyfnod y gaeaf achosi cynnydd annisgwyl mewn costau oherwydd salwch cleientiaid yn rhoi mwy o alw ar wasanaethau, salwch staff yn cynyddu costau cyflog a digwyddiadau yn ymwneud â'r tywydd yn cynyddu costau ar gyfer y gwasanaeth Priffyrdd. Gan fod y rhan fwyaf o'r gaeaf wedi mynd heibio, mae'n ychwanegu at y cynnydd yn sicrwydd sefyllfa diwedd y flwyddyn a ragwelir, fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fydd digwyddiadau annisgwyl yn digwydd a all barhau i newid y sefyllfa derfynol.

**3.** Derbyniwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer staff NJC gan 2 o'r 3 Undeb ar 2 Tachwedd 2023, gyda'r dyfarniad cyflog yn cael ei ôl-ddyddio i Ebrill 2023. Mae'r costau ychwanegol hyn wedi'u cynnwys yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol a gan nad yw'r dyfarniad cyflog yn wahanol i'r swm a gynigiwyd gan y Cyflogwyr ym mis Mawrth 2023, bydd y cynnydd ar gyfer chwyddiant a gynhwyswyd yng nghyllidebau Gwasanaethau ar gyfer 2023/24, ynghyd â'r swm o £2m sy'n cael ei ddal mewn cyllideb wrth gefn, yn ddigon i dalu'r gost ychwanegol o £1.806m.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2023/24, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £0.842m. Mae hyn yn 0.49% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2023/24.

**5.** Argymhellir:

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2023/24;

**(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH a D.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | | |
| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os ydynt yn berthnasol):** | | |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E –Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | Prif Weithredwr /Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2024, ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae'r sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi adolygu'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2024. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

## F - Atodiadau:

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2023/24
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2023/24
- Atodiad C – Crynodeb o Gyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2023/24
- Atodiad CH – Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2023/24
- Atodiad D – Gwybodaeth ynglŷn â monitro Ymgynghorwyr 2023/24

## Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Cyllideb Refeniw 2023/24 (fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2023 ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2023).

**ATODIAD A**

## MONITRO CYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £19.637m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £6.716m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro wedi'i harchwilio ar gyfer 2022/23 at falans cyffredinol o £14.039m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol o £12.278m ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sef 2021/22. Cyfrannodd y tanwariant o £1.284m at hyn, ynghyd â symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd galw amdanynt mwyach.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | (14.039) | Cronfa wrth gefn gyffredinol wedi'i harchwilio ar 31 Mawrth 2023. |
| Gosod Cyllideb 2023/24 cytunwyd Mawrth 2023 | 3.780 | |
| Ad-daliad Trethi Busnes Oriel Ynys Môn | (1.201) | Mae'r Cyngor wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn Gwerth Trethadwy Oriel Ynys Môn, yn dyddio'n ôl i 2010. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi derbyn ad-daliad am y rhan fwyaf o drethi busnes a dalwyd ers 2010. |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **(11.460)** | |

Yr alldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2023/24, yn ôl yr amcangyfrif, yw tanwariant o £0.842m. Os yw'r rhagolwg hwn yn gywir, byddai Balans Cyffredinol y Cyngor yn cynyddu i £12.302m erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn cymharu ag isafswm o £8.73m, sef 5% o gyllideb refeniw net 2023/24.

Gosodwyd cyllideb 2023/24 cyn cytuno ar ddyfarniad cyflog staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2023/24. Wrth osod y gyllideb, roedd swm wrth gefn o £2m wedi'i gynnwys yn y gyllideb i dalu am y costau ychwanegol posibl yn y swm a ganiatawyd yn y gyllideb ddrafft a chynnig tâl y Cyflogwr. Yn ogystal â hyn, crëwyd cronfa wrth gefn clustnodedig o £3.177m i ddarparu cyllid ychwanegol i dalu costau unrhyw ddyfarniad cyflog a fyddai'n uwch na'r hyn a osodwyd yn y gyllideb, gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn hon hefyd ar gyfer unrhyw gynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant uchel. Roedd y £2m a gafodd ei gynnwys o fewn y cyllidebau wrth gefn yn ddigon i gyllidor codiad cyflog ychwanegol. Cyfanswm y gost ychwanegol oedd yn uwch na'r codiad cyflog na chafodd ei gynnwys o fewn y gyllideb adrannol oedd £1.806m.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth a'r alldro a ragwelir ar gyfer pob gwasanaeth, wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £0.336m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2024. Mae tanwariant o £0.1612m yn cael ei amcangyfrif ar gyfer Cyllid Corfforaethol. Yn ogystal â hyn, rhagwelir y bydd incwm o gasglu'r Dreth Gyngor safonol £0.378m yn llai na'r gyllideb, tra bydd incwm Premiwm y Dreth Gyngor £0.272m yn well na'r gyllideb. Cyfanswm y refeniw presennol a ragwelir ar gyfer 2023/24 yw tanwariant o £0.842m, ac mae hyn yn cyfateb i 0.49% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiannau sylweddol (tua £100k neu fwy):-

**Tabl 1**

| | **(Tan) / Gorwariant £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (326) | (5.85) |
| Oedolion | 188 | 0.53 |
| Gwasanaethau Plant | 1,000 | 7.61 |
| Gwastraff | (301) | (2.97) |
| Priffyrdd | (196) | (2.47) |
| Datblygu Economaidd | (154) | (4.63) |
| TGCh | (393) | (8.98) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (111) | (3.95) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiynau a dyledion drwg | 400 | |
| Arall (cyfanswm y gwahaniaethau gwerth llai na £100k) | (443) | |
| **Cyfanswm yr Amrywiant - gor/(tan)wariant (heb gynnwys cyllido)** | **(336)** | **(0.21)** |

## 3. Esboniad am yr Amrywiannau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Erbyn hyn, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £6.716m, o gymharu â £7.827m ar 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, cafodd grantiau eu derbyn gan ysgolion yn y blynyddoedd ariannol blaenorol i ddelio ag effaith y pandemig. Dros y flwyddyn ariannol hon, rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn gostwng yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Mae ysgolion wedi amcangyfrif y bydd £2.82m o falansau yn cael eu defnyddio i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2023/24. Mae rhagolygon y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn awgrymu y bydd balansau yn lleihau ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac mae disgwyl y bydd nifer o ysgolion yn gosod cyllideb ddiffyg.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £382k (34.87%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 3. Rhagwelir tanwariant o £326k (5.85%) ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n ychydig yn fwy na'r tanwariant o £289k a adroddwyd yn chwarter 2. Mae llawer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan alw.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd sy'n tan a gorwario o fewn y Gwasanaeth. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol o
gymharu â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2 yn cael eu rhestru isod:-

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysus) – rhagwelir tanwariant o £121k. Mae hyn ychydig yn fwy na'r swm o £85k a nodwyd yn y chwarter blaenorol. Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd, rhaid i gontractau gael eu haddasu i fodloni gofynion newydd disgyblion, gyda rhai contractau yn dod i ben a chontractau newydd yn dechrau. Y sefyllfa ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yw gostyngiad net mewn costau.

- Prydau Ysgol – rhagwelir gorwariant o £83k. Mae hyn yn newid sylweddol ers y gorwariant o £2k yn y chwarter blaenorol. Mae 3 maes allweddol sy'n cyfrannu at y cynnydd hwn:-

  a. Yn dilyn cyflwyno'r Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Ysgol Gynradd, mae'r nifer sy'n derbyn cinio wedi cynyddu'n sylweddol. Gwelwyd cynnydd o 69% ym mis Medi ond, erbyn mis Rhagfyr, roedd y cynnydd o 73% yn y nifer sy'n derbyn cinio.

b. Roedd dwy ysgol uwchradd ar gau yn rhannol tra bod gwaith parhaus i ddelio ag argyfwng yr RAAC. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Cyngor yn gwneud taliadau Prydau Ysgol am Ddim i rieni i blant nad oeddent yn mynychu'r ysgol, a oedd yn gost ychwanegol i'r Awdurdod.

c. Mae'r Awdurdod yn parhau i dalu cost ychwanegol prydau ysgol uwchradd. Yn flaenorol, talwyd costau'r contract gan y rhieni. Fodd bynnag, mae pris y contract wedi codi i £2.88 y pryd bwyd ac mae rhieni'n parhau i dalu £2.60 y pryd. O ganlyniad, mae'r Awdurdod yn gorfod talu cymhorthdal o £0.28 am bob pryd ysgol uwchradd, sy'n gost pellach i'r Awdurdod.

- Rhagwelir y bydd tanwariant o £208k gan Strategaeth ADY Môn a Gwynedd, mae hwn yn newid sylweddol o'r hyn a adroddwyd yn flaenorol drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn sefyllfa gytbwys. Mae cytundeb bellach ar waith rhwng Cyngor Môn a Gwynedd ynglŷn â'r costau wrth symud ymlaen ac, felly, mae'n bosib rhagweld yn fwy cywir y gwariant yn erbyn ein cyllideb. Bydd £208k yn cael ei ail-ddosbarthu i'r ysgolion trwy'r fformiwla.

- Rhagwelir tanwariant o £30k gan Anghenion Dysgu Ychwanegol (deddfwriaeth newydd) yn chwarter 3, o'i gymharu â thanwariant o £6k yn chwarter 2. Mae'r cynnydd hwn mewn tanwariant o ganlyniad i ohirio gwneud apwyntiad i swydd wag o fewn yr adain. Mae'r swydd bellach wedi'i recriwtio ac nid oes disgwyl i'r tanwariant hwn newid yn y chwarter olaf.

- Rhagwelir newid yn narpariaeth y Blynyddoedd Cynnar o danwariant o £66k yn chwarter 2 i ragolwg o danwariant o £112k yn chwarter 3. Mae hyn o ganlyniad i'r Cynllun Cyfeirio, sydd bellach yn dod o dan y ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Yn dilyn newidiadau i ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar, mae ad-daliad o gyllideb ranbarthol y cynllun cyfeirio bellach wedi'i dderbyn.

#### 3.1.4 Diwylliant

**3.1.4.1** Roedd tanwariant o £115k (10.25%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £17k (1.18%), mae hyn fel yr adroddwyd yn chwarter 2. Swyddi gwag yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac ailstrwythuro staffio o fewn y Gwasanaeth Archifau yw'r prif resymau dros y tanwariant ac mae'r tanwariant hwn wedi cynyddu ychydig rhwng yr 2il a'r 3ydd chwarter.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £887k (3.56%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £188k (0.53%) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn £798k yn well nag a adroddwyd yn chwarter 2, lle'r oedd gorwariant o £986k.

**3.2.2** Mae'r elfennau yn amrywiant yr alldro yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod, a cheir esboniad am yr amrywiannau:-

**Tabl 2**

**Dadansoddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer Gwasanaethau Oedolion ar Ddiwedd y Flwyddyn 2023/24**

| Gwasanaeth | Dadansoddiad o Incwm / Gwariant | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswyl | Nyrsio | Gofal Cartref | Gofal Dydd | Llety â Chymorth | Staffio | Arall | Grantiau a Ddefnyddiwyd | CYFANSWM |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yr Henoed | 281 | (7) | 204 | 0 | 0 | 201 | (23) | (187) | **469** |
| Anableddau Corfforol | 423 | (21) | 275 | 0 | 0 | 70 | 5 | (332) | **420** |
| Anableddau Dysgu | 237 | 0 | (106) | 125 | 613 | 2 | (71) | (494) | **306** |
| Iechyd Meddwl | 450 | 0 | 50 | 0 | 162 | (85) | 7 | (332) | **252** |
| Uned Ddarparu – Rheoli a Staffio | 352 | 0 | (696) | (158) | (43) | (486) | (83) | (17) | **(1,042)** |
| Uned Ddarparu - Incwm | (206) | 0 | 0 | 82 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(124)** |
| **CYFANSWM** | **1,537** | **(28)** | **(273)** | **49** | **732** | **(298)** | **(168)** | **(1,362)** | **189** |

**3.2.3** Rheolaeth a chymorth: mae'r tanwariant yma wedi cynyddu o £134k yn chwarter 2 i £202k yn chwarter 3. Mae hyn yn ganlyniad i dderbyn incwm grant ychwanegol a bod costau'r tîm trawsnewid cyflenwi yn is o £50k na'r hyn a ragwelwyd. Mae'r elfen hon mewn perthynas â'r tîm cydweithio rhanbarthol.

**3.2.4** Anableddau Corfforol: mae'r gorwariant yma wedi cynyddu £120k, o orwariant o £300k yn chwarter 2 i orwariant o £420k. Mae hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan alw ac mae'n ymateb i achosion sydd wedi codi. O fewn y gwaith rheoli gofal a'r asesiadau, bu cynnydd mewn costau staffio £47k a'r defnydd o staff asiantaeth £20k. Mae'r elfen gofal cartref hefyd wedi gweld cynnydd o £45k mewn costau a ragwelwyd oherwydd cynnydd yn y galw ac argaeledd darparwyr allanol i ddarparu'r lefel ofynnol o ofal.

**3.2.5** Anableddau Dysgu: mae'r gorwariant yma wedi gostwng o orwariant o £396k yn chwarter 2 i £306k yn chwarter 3. Eto, mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw, ac mae costau lleoliadau annibynnol yn is ynghyd â gofal cartref ac mae gostyngiad bach mewn taliadau uniongyrchol yn cyfrannu at y gostyngiad a ragwelwyd yn y chwarter blaenorol.

**3.2.6** Uned Darparu: mae'r cynnydd mewn tanwariant o fewn yr adain hon wedi codi'n sylweddol, o danwariant o £299k yn chwarter 2 i danwariant o £1,060k yn chwarter 3. Mae hyn yn gynnydd o £761k o un cyfnod adrodd i'r nesaf. Mae £422k o'r symudiad yn ymwneud ag Incwm Preswyl ac incwm taliadau gohiriedig. Mae'r adain Cyllid Cleientiaid wedi dal i fyny ag ôl-groniad o asesiadau ariannol, mae'r incwm hwn yn ymwneud yn bennaf â 2023-24. Yn ogystal â hyn, mae £306k o'r symudiad yn ymwneud â gostyngiad mewn costau staffio a chostau staff asiantaeth. Yn ystod chwarter 2, ailstrwythurwyd y Tîm Ail-alluogi a disgwyliwyd y byddai'r swyddi gwag wedi'u llenwi ond, o ystyried yr anawsterau recriwtio presennol, nid yw'r holl swyddi wedi'u llenwi. At hynny, mae staff gofal preswyl sy'n dychwelyd ar ôl absenoldeb salwch hirdymor wedi arwain at ostyngiad yn y defnydd o staff wrth gefn a gweithwyr asiantaeth.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Mae gorwariant o £996k (8.38%) yn y gwasanaeth, o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y trydydd chwarter. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gorwariant o £1,000k (7.61%) ar ddiwedd y flwyddyn, mae hyn ychydig yn llai na'r gorwariant o £1,075k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 2. Er bod man wahaniaethau yn y rhagolygon ar draws y Gwasanaeth, mae pedwar maes newid allweddol o un cyfnod adrodd i'r nesaf, i'w gweld isod.:-

**3.3.2** Plant sy'n Derbyn Gofal: Mae'r gorwariant a ragwelwyd wedi gostwng o £1,308k yn chwarter 2, i £1,214 yn chwarter 3. Mae'r gyllideb hon yn dibynnu'n fawr ar y galw am y gwasanaeth ac mae'r newid yn y gorwariant a ragwelir yn dilyn newidiadau gyda lleoliadau a newidiadau cyfatebol i'r costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau.

**3.3.3** Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol: Y tanwariant a ragwelir yn chwarter 3 yw £329k, sydd ychydig yn wahanol i'r tanwariant o £297k a adroddwyd yn chwarter 2. Mae'r gwahaniaeth hwn yn ymwneud â newidiadau mewn rhagolygon staffio.

**3.3.4** Rhagwelir y bydd cyllideb Plant ag Anableddau yn gorwario £12k, sy'n welliant o £39k o'r cyfnod adrodd blaenorol, lle rhagwelwyd gorwariant o £51k. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chleientiaid Taliadau Uniongyrchol.

**3.3.5** Rhagwelir gorwariant o £64k yn y gwasanaeth "Plant a Theuluoedd Eraill", sy'n gynnydd o £53k mewn gorwariant o'r cyfnod adrodd blaenorol. Mae hyn yn ganlyniad i gynnydd mewn costau therapi a chostau sy'n gysylltiedig ag ymatebion i gwynion a godwyd.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Rhagwelir tanwariant o £85k (5.25%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro, ac mae hyn yn wahaniaeth o £21k o gymharu â thanwariant o £64k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae'r gwelliant pennaf yn y rhagolwg i'w weld yn y cyllidebau Gweinyddu Tai. Rhagwelwyd tanwariant o £12k ar Weinyddu Tai yn ystod chwarter 2, ond rhagwelir yn chwarter 3 y bydd tanwariant o £30k. Mae hyn oherwydd nad yw swyddi gwag wedi cael eu llenwi. Roedd cyllidebau Adnewyddu Tai Sector Preifat yn rhagweld tanwariant o £24k yn chwarter 2, fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i lenwi'r swydd wag, felly, ein rhagolwg diwygiedig ar gyfer chwarter 3 yw tanwariant o £34k. Roedd ein rhagolwg ar gyfer Atal Digartrefedd a Digartrefedd Cyffredinol yn chwarter 2 yn dangos tanwariant o £31k, fodd bynnag, rydym wedi gallu priodoli £12k yn erbyn cyllid grant, ein rhagolwg diwygiedig ar gyfer y maes hwn ar gyfer chwarter 3 yw tanwariant o £43k. Rydym yn parhau i ragweld cyllideb gytbwys ar gyfer Risg Gorfforaethol digartrefedd.

**3.4.2** Mae nifer y bobl ddigartref sy'n troi at y Cyngor am gymorth yn parhau i fod yn sylweddol uwch nag yn y gorffennol, a hynny am nifer o resymau. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm tebyg a welwyd ledled Cymru wrth i Gynghorau ddelio gyda ffoaduriaid, mwy o fewnfudo, effaith yr argyfwng costau byw a phrinder llety rhent yn y sector preifat. Fodd bynnag, mae'r costau ychwanegol yn cael eu talu ar hyn o bryd o gyllid grant Llywodraeth Cymru, a cynnydd yn lefel adennill Budd-dal Tai yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hyn, ynghyd â'r Cyngor yn dod o hyd i ddewisiadau amgen i leoli cleientiaid mewn llety Gwely a Brecwast, wedi cadw'r gwariant o fewn y cyllid sydd ar gael ac wedi cyfrannu at y gyllideb gytbwys a ragwelir ar gyfer y flwyddyn.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £165k (6.38%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £154k (4.63%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.2** Disgwylir tanwariant o £63k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, sydd ychydig yn wahanol i'r gorwariant o £31k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd gohirio'r cam o ddechrau'r broses recriwtio ar gyfer sawl swydd wag.

**3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £85k yn yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd targedau ar gyfer cofrestru badau dŵr personol wedi cael eu cyflawni'n llawn yn dilyn tymor yr haf, ond dim ond 60% o'r lansiadau a gyflawnwyd hyd yma. Mae casglu ffioedd angori yn well nag yr oedd y llynedd ac mae ar y trywydd iawn i ddychwelyd i'r lefel a welwyd cyn covid. Mae'r gyllideb wardeiniaid traeth tymhorol a'r gyllideb staff yn tanwario ac mae swydd harbwr feistr Porthaethwy yn wag, ac mae'r daeth y swydd Uwch Swyddog Morwrol yn parhau'n wag.

**3.5.1.4** Ar hyn o bryd, mae'r adain Hamdden yn rhagweld tanwariant o £56k ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â gorwariant o £43k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Mae targedau incwm debyd uniongyrchol wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig ac mae'n perfformio'n well na'r targedau incwm ar gyfer rhan gyntaf y flwyddyn ariannol. Mae swyddi gwag sy'n cyfrannu at y newid yn y sefyllfa ariannol.

#### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Hyd at ddiwedd y cyfnod, mae tanwariant o £700k (27.71%) yn y gwasanaeth hwn o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir tanwariant o £111k (3.952%) ar alldro.

**3.5.2.2** Yr alldro a ragwelir ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yw gorwariant o £1k, mae hyn ychydig yn wahanol i'r tanwariant o £63k a ragwelwyd yn adroddiad chwarter 2. Y gwahaniaeth yw bod newid yn lefel y galw mewn Rheoliadau Adeiladu yn sylweddol is yn y trydydd chwarter o'i gymharu â rhan gyntaf y flwyddyn ariannol, sydd wedi arwain at leihau'r tanwariant a ragwelir i £22k. Mae'r gorwariant a ragwelir o fewn Rheoli Cynllunio bellach yn £19k o'i gymharu â £42k yn y chwarter blaenorol, mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn lefel y ceisiadau cynllunio sy'n cael eu derbyn. Gyda chostau yn y dyfodol mewn perthynas â gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cynllun Datblygu Lleol, cynigir bod y tanwariant cynyddol yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodedig ar gyfer costau a ddisgwylir yn 2024/25.

**3.5.2.3** Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi gweld cynnydd bychan yn y tanwariant a ragwelir, o £96k yn chwarter 2 i £112k yn chwarter 3. Mae nifer o ffactorau wedi cynyddu'r tanwariant a ragwelir, ond mae'r prif faterion yn ymwneud ag Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Mae Safonau Masnach wedi gweld cynnydd mewn costau teithio o gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd yr achos atafaelu diweddar a'r erlyniad dilynol yn dilyn digwyddiad ym Mhorthladd Caergybi. Mae’r tanwariant a ragwelwyd yn Iechyd yr Amgylchedd wedi cynyddu o £25k i £53k, wrth i swydd ddod yn wag. Mae'r swydd hon bellach wedi'i llenwi.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd tanwariant o £1,268k (16.19%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Rhagwelir tanwariant o £196k (2.47%) ar ddiwedd y flwyddyn, sef £10k yn llai na’r tanwariant a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1 (£345k). Mân addasiadau ledled yr adran sydd i gyfrif am y gwahaniaeth yn y rhagolwg, ynghyd a gwaith ychwanegol yn cael ei gyllido o’r incwm Gwaith Stryd dros ben a gafodd ei ragweld yn flaenorol.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £285k (3.97%) yn y Gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £301k (2.97%) ar alldro. Mae hyn yn newid sylweddol o gymharu â’r swm o £200k a ragwelwyd yn chwarter 2.

**3.6.2.2** Mae dau faes penodol lle mae rhagolygon y gyllideb wedi newid, ac maent o fewn yr Incwm Ailgylchu, lle mae'r tanwariant a ragwelir wedi cynyddu o £70k i £100k ac Ailgylchu lle mae'r gorwariant a ragwelir wedi gostwng o £214k i £140k o ganlyniad i or-gyflawni targedau incwm. Gwelwyd cynnydd cyffredinol mewn costau, yn enwedig y defnydd o danwydd yn ogystal â chynwysyddion. Wrth edrych ar y rhagolwg, gallai rhai meysydd allweddol effeithio ar y sefyllfa derfynol, ac maent yn cynnwys y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru’n gosod dirwy am fethu â chyflawni targedau ailgylchu ar gyfer 2021-22 a 2022-23. Gallai pris deunydd ailgylchu sy’n cael ei werthu ostwng, ac ni roddwyd ffigwr eto ar fater cyflogaeth sydd wedi cael ei setlo.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Mae tanwariant o £155k (12.17%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir y bydd tanwariant o £67k (3.23%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn newid sylweddol o un cyfnod adrodd i’r nesaf, gan y rhagwelwyd gorwariant o £59k yn chwarter 2. Esbonnir yr amrywiannau isod.

**3.6.3.2** Mae cynnydd o £74k yn y tanwariant a ragwelir yn y gwasanaeth glanhau oherwydd gohirio'r cam o hysbysebu swydd wag. Er bod y broses o ailstrwythuro'r adran bron yn gyflawn, mae peth gwaith i'w wneud eto, ac, er bod rhai swyddi wedi'u llenwi'n llwyddiannus, mae rhai swyddi'n parhau i fod yn wag o fewn y gwasanaeth. Roedd y gyllideb ymgynghorwyr a'r gyllideb arolygon yn rhagweld gorwariant o £150k yn chwarter 2, fodd bynnag nid yw'r gwaith wedi mynd rhagddo yn ôl y disgwyl, felly, nid yw'r gost fel y rhagwelwyd. Mae'r gyllideb ymgynghori yn chwarter 3 yn gyllideb gytbwys. Mae'r cyllidebau trwsio a chynnal a chadw bellach yn dangos gorwariant o £119k, o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd, sef cyllideb gytbwys yn chwarter 2. Mae hyn yn deillio o waith angenrheidiol nad oedd modd ei osgoi ar y Pencadlys a'r gwariant disgwyliedig ar fân-ddaliadau yn dilyn stormydd diweddar. Mae adolygiad o anfonebau incwm rhent wedi arwain at orfod canslo anfonebau a godwyd, sydd wedi golygu y bydd gorwariant o £61k ar y cyllidebau incwm rhent. Rhagwelir y bydd gorwariant ar gyllideb cyflogau cyfalafol oherwydd nad yw'r tîm yn gallu neilltuo eu hamser i brosiectau oherwydd amodau'r grant.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd tanwariant o £106k yn y Gwasanaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod, ond dylai'r sefyllfa wella yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol a disgwylir tanwariant o £458k yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £3k (0.26%) yn y swyddogaeth AD yn ystod y cyfnod, o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir gorwariant o £12k (0.72%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn £1k yn llai na'r gorwariant o £13k a ragwelwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Pan osodir cyllidebau staffio, mae disgwyl y bydd nifer fechan o staff ym mhob gwasanaeth yn gadael ac y bydd swyddi yn wag yn ystod y broses recriwtio, felly, nid yw'r gyllideb staffio yn cyllido 100% o'r costau. Mewn gwasanaethau llai, lle mae trosiant staff yn isel, gall hyn arwain at orwariant ar gyllidebau staffio a dyna'r disgwyl ar gyfer y swyddogaeth AD, er y gall y sefyllfa newid yn ystod gweddill y flwyddyn os yw staff yn gadael eu swyddi presennol. Bydd y gorwariant o £26k a ragwelir yn cael ei wrthbwyso gan danwariant o £11k a ragwelir ar hyfforddiant canolog.

**3.7.1.2** Roedd tanwariant o £60k (1.73%) yn yr adain TGCh o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Godd bynnaf, rhagwelir tanwariant o £393k (8.98%) ar alldro, ac mae hyn yn gynnydd o £110k yn y tanwariant ers y cyfnod adrodd diwethaf. Anawsterau parhaus wrth geisio llenwi swyddi gweigion a phroses ailstrwythuro sy'n mynd rhagddi yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb am TGCh mewn ysgolion i'r gwasanaeth sydd i gyfrif am hyn. Gallai oedi pellach gynyddu'r tanwariant ymhellach wrth i'r flwyddyn ddod i ben.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £49k (5.65%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod, a disgwylir tanwariant o £77k (6.27%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn fwy na'r rhagolwg o £58k a nodwyd yn yr adroddiad ar ddiwedd chwarter 2. Swydd wag sydd heb ei llenwi yw'r rheswm am hyn a swydd wag newydd.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Ar ddiwedd y cyfnod, mae gorwariant o £120k (3.75%) yn y swyddogaeth Adnoddau o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Serch hynny, y rhagolwg ar gyfer alldro yw tanwariant o £90k (2.29%), ac mae hyn ychydig yn fwy na'r swm o £26k a nodwyd ar ddiwedd chwarter 2.

**3.8.2** Mae mwyafrif y costau yn y Gwasanaeth yn gysylltiedig â staff, ac mae rhai swyddi gweigion (Archwilio Mewnol, y Dreth Gyngor a Budd-daliadau) yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth er mwyn sicrhau parhad yn y gwasanaeth ac i ddelio gyda gwaith sydd wedi pentyrru o ganlyniad i gynnydd yn y llwyth gwaith (grantiau costau byw, taliadau prydau ysgol am ddim). Swyddi gwag yn yr adain Archwilio Mewnol yw'r rheswm fod y rhagolwg wedi newid o chwarter 2 i chwarter 3, ond mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol oherwydd bod costau bancio wedi cynyddu. Mae disgwyl tanwariant o £51k yn yr Adain Gaffael oherwydd mentrau prynu, h.y. cyllidebau prynu canolog ac ad-daliadau ar gardiau caffael, ac mae llai o alw am wariant ar rai eitemau o dan gyllidebau caffael canolog gan fod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, deunydd ysgrifennu a dodrefn).

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant yn y swyddogaeth o £28k (1.91%) ar gyfer y cyfnod o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir tanwariant o £65k (3.14%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r tanwariant o £52k a nodwyd yn adroddiad chwarter 2. Swyddi gweigion parhaus aa newidiadau staffio sydd i gyfrif am y cynnydd hwn mewn tanwariant.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd tanwariant o £419k (15.66%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir tanwariant o £559k (21.41%) ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn ychydig yn uwch na'r swm o £557k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2 .

**3.10.2** Mae Cefnogaeth a Threuliau Aelodau yn rhagweld gorwariant o £5k, roedd y swm hwn yn £7k yn chwarter 2.

**3.10.3** Mae'r gyllideb ar gyfer cyfraniadau pensiwn eilaidd y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei dal o dan y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd yn y lle cyntaf, ac yna'n cael ei rhyddhau i gyllidebau Gwasanaeth wrth i'r cyfraniadau gael eu talu. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd costau cyfraniadau eilaidd y cyflogwr £729k yn is na'r gyllideb.

**3.10.4** Rhagwelir gorwariant o £38k ar Gwnsela Staff, ar sail ffigyrau presennol. Mae'r gyllideb yn cael ei harwain gan y galw, felly, bydd y ffigwr yn amrywio yn dibynnu ar yr angen. Yn ogystal â hyn, mae disgwyl gorwariant o £38k ar Ffioedd Archwilio a £72k ar ffioedd Crwner.

**3.11 Rheoli Corfforaethol**

**3.11.1** Roedd gorwariant o £10k (1.99%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £5k (1.91%) ar alldro. Mae hyn yn unol â'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 1, a'r rheswm am hyn yw nad ydi 100% o gostau staff yn cael eu cynnwys yn y gyllideb (fel y mae paragraff 3.7.1.1 uchod yn ei esbonio).

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Mae disgwyl tanwariant o £119k ar Gyllid Corfforaethol, yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd cyfanswm y cyllidebau hyn yn £4,479k. Bydd mwyafrif y cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn, ac mae'n dangos bod £2,337k wedi cael ei drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd. O'r swm hwn roedd swm o £1,806 yn ymwneud â'r gyllideb ychwanegol sy'n ofynnol yn dilyn y setliad cyflog ym mis Tachwedd 2023.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys tair elfen: y swm a roddir o'r neilltu ar gyfer ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf – DRI), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc a buddsoddiadau eraill y Cyngor. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf, ac yn arbennig yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu bod angen i'r Cyngor fenthyca llai ac mae hynny, yn ei dro, yn golygu bod costau DRI a llogau yn is. Bu i'r Cyngor elwa ar y cynnydd yn y cyfraddau llog, ac mae buddsoddiadau'n cynhyrchu symiau sylweddol o incwm llog ac mae cyfanswm y llog a dderbynnir yn uwch na'r gyllideb o £1m. O ganlyniad, rhagwelir tanwariant o £382k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

**4.4** Roedd cyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn nifer yr achosion a chynnydd yn y Dreth Gyngor. Yn gyffredinol, mae nifer y ceisiadau yn cynyddu ar ddiwedd yr haf wrth i waith tymhorol ddod i ben, ond yn Hydref 2023 doedd dim cynnydd sylweddol yn y llwyth achosion. Yn seiliedig ar y lefel bresennol o ddyfarniadau a roddwyd, mae'n bosibl y gwelir tanwariant ar y gyllideb hon, ond mae'r sefyllfa'n newid wrth i'r argyfwng costau byw barhau a gallai'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra dros y misoedd nesaf hefyd gynyddu nifer y bobl sy'n derbyn cymorth drwy'r cynllun hwn. Rhagwelir tanwariant o £200k yn chwarter 3.

**5. Casglu'r Dreth Gyngor**

**5.1** Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2022. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd a fu a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Oherwydd y dirwasgiad sydd ar ddod, a gan fod costau byw yn cynyddu, bydd angen monitro'r gyllideb hon yn ofalus yn y dyfodol. Mae disgwyl i incwm y Dreth Gyngor graidd fod £378k yn is na'r gyllideb.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi wedi gostwng oherwydd bod eiddo wedi trosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes ond, er bod eiddo wedi cael eu trosglwyddo, mae niferoedd cyffredinol ail gartrefi wedi aros yn weddol gyson ac, oherwydd hynny, rhagwelir gwarged o £272k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. Arbedion Cyllidebol 2023/24**

**6.1** Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw Arbedion Cyllidebol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

**7. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr**

**7.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £1,206k ar staff Asiantaeth. Roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol, yn bennaf, o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £818k yn ymwneud â chyflenwi staff ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £227k ar asiantau safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad CH.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £602k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2023, a chyllidwyd £434k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad D yn cynnwys y crynodeb llawn o wariant fesul gwasanaeth, a manylion ychwanegol am y gwariant..

**8. Casgliad**

**8.1** Bu gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y trydydd chwarter, a bellach rhagwelir y bydd tanwariant o £0.842m. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi a bydd y costau a amcangyfrifir yn dod yn gostau gwirioneddol, mae'r rhagolygon yn dod yn fwy cywir ac nid yw newid yn y sefyllfa a adroddir rhwng yr ail chwarter a'r trydydd chwarter yn annisgwyl. Fodd bynnag, mae'r symudiad yn 2023/24 wedi bod yn fwy sylweddol nag mewn blynyddoedd blaenorol.

**8.2** Ar ddiwedd yr ail chwarter, gofynnwyd i Wasanaethau geisio arafu gwariant a gohirio llenwi swyddi gwag. Mae'r cais hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda mwyafrif y gwasanaethau yn dangos gwell sefyllfa o'i gymharu â chwarter 2. Mae anawsterau recriwtio, nodi incwm ychwanegol a'r ffaith na fu unrhyw ddigwyddiad o bwys yn rhan gyntaf y gaeaf hefyd wedi cyfrannu at y newid.

**8.3** Er bod y rhagolygon yn galonogol ac, os cânt eu cyflawni, mae'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol, dylid nodi bod pwysau ariannol sylfaenol o hyd y mae angen mynd i'r afael â nhw yng nghyllideb 2024/25. Mae'r sefyllfa a ragwelir yn well gan fod arbedion untro yn sgil swyddi gwag staff, na fydd efallai'n digwydd eto yn 2024/25, a grantiau ychwanegol, sy'n annhebygol o gael eu derbyn eto ar yr un lefel yn 2024/25.

**8.4** Mae'r galw am wasanaethau bob amser yn risg barhaus a gall cynnydd yn y galw am wasanaethau (Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant, Digartrefedd a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) newid yr alldroa ariannol yn gyflym. Bydd y sefyllfa ariannol bresennol a ragwelir yn caniatáu i'r Cyngor dalu'r costau, pe bai'r galw yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y chwarter olaf.

**8.5** Mae'r sefyllfa ariannol well a ragwelir yn caniatáu i'r Cyngor ailystyried rhai o'r rhagdybiaethau a wnaed wrth bennu'r gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2024/25 a gall arwain at newid yn y gyllideb arfaethedig derfynol a fydd yn cael ei hystyried gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2024.

**ATODIAD B**

## Alldro refeniw a Ragwelir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024 – Chwarter 3

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date | 2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch3 Amrywiad Q3 Variance | 2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed Spend | Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) | 2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 56,906 | 40,864 | 40,864 | 0 | 0.00% | 56,906 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 5,575 | (1,097) | (1,479) | (382) | 34.87% | 5,249 | (326) | -5.85% | (289) |
| Diwylliant *Culture* | 1,438 | 1,119 | 1,004 | (115) | -10.25% | 1,421 | (17) | -1.18% | (18) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 35,789 | 24,894 | 25,781 | 887 | 3.56% | 35,977 | 188 | 0.53% | 986 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 13,135 | 11,888 | 12,884 | 996 | 8.38% | 14,135 | 1,000 | 7.61% | 1,072 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,618 | 1,756 | 1,824 | 68 | 3.90% | 1,533 | (85) | -5.25% | (64) |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** ***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 7,933 | 7,829 | 6,561 | (1,268) | -16.19% | 7,737 | (196) | -2.47% | (206) |
| Eiddo *Property* | 2,076 | 1,272 | 1,117 | (155) | -12.17% | 2,009 | (67) | -3.23% | 59 |
| Gwastraff *Waste* | 10,141 | 7,178 | 6,893 | (285) | -3.97% | 9,840 | (301) | -2.97% | (200) |
| | | | | | | | | | |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2023/24 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date** | **2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed spend** | **2023/24 Ch3 Amrywiad Q3 Variance** | **2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed Spend** | **Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024** | **Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under)** | **2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** ***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd *Economic Development* | 3,325 | 2,583 | 2,418 | (165) | -6.38% | 3,171 | (154) | -4.63% | (59) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection* | 2,807 | 2,526 | 1,826 | (700) | -27.71% | 2,696 | (111) | -3.95% | (159) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** ***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol *Human Resources* | 1,678 | 1,311 | 1,314 | 3 | 0.26% | 1,690 | 12 | 0.72% | 13 |
| TGCh *ICT* | 4,377 | 3,481 | 3,421 | (60) | -1.73% | 3,984 | (393) | -8.98% | (283) |
| Trawsnewid Corfforaethol *Corporate Transformation* | 1,229 | 869 | 820 | (49) | -5.65% | 1,152 | (77) | -6.27% | (58) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** ***Resources*** | 3,932 | 3,209 | 3,329 | 120 | 3.75% | 3,842 | (90) | -2.29% | (26) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** ***Council Business*** | 2,068 | 1,477 | 1,449 | (28) | -1.91% | 2,003 | (65) | -3.14% | (52) |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** ***Corporate & Democratic costs*** | 2,611 | 2,674 | 2,255 | (419) | -15.66% | 2,552 | (59) | -2.26% | (557) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** ***Corporate Management*** | 802 | 607 | 617 | 10 | 1.60% | 807 | 5 | 0.62% | 15 |
| - | | | | | | | | | |
| Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau *Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs/impairment allowances on services income* | | | | | | 400 | 400 | 0.00% | 400 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwasanaethau Total Service Budgets** | 157,437 | 114,438 | 112,898 | (1,540) | -1.35% | 157,101 | (336) | -0.21% | 574 |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2023/24 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date** | **2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed spend** | **2023/24 Ch3 Amrywiad Q3 Variance** | **2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed Spend** | **Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024** | **Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under)** | **2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| Ardollau *Levies* | 4,495 | 4,419 | 4,419 | 0 | -0.01% | 4,495 | 0 | 0.00% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 105 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 105 | 0 | 0.00% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 4,329 | 2,220 | 1,785 | (435) | 0.00% | 3,947 | (382) | -8.83% | (89) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 2,142 | 2,142 | 777 | (1,365) | -63.71% | 911 | (1,231) | -57.47% | (12) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General *Reserves* | (3,780) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2,579) | 1,201 | 0.00% | 0 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 6,861 | 1,111 | 8,317 | 7,206 | 648.58% | 6,661 | (200) | -2.92% | 0 |
| Na ellir ei reoli *Uncontrollable* | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** ***Total Corporate Finance*** | 13,352 | 9,893 | 15,299 | 5,406 | 54.65% | 12,739 | (612) | -4.59% | (101) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2023/24** ***Total 2023/24*** | **170,789** | **124,331** | **128,197** | **3,866** | **3.11%** | **169,841** | **(948)** | **-0.56%** | **473** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido** ***Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig *NDR* | (22,823) | (17,556) | (17,556) | 0 | 0.00% | (22,823) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor *Council Tax* | (44,231) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (43,853) | 378 | -0.85% | 216 |
| Premiwm y Dreth Gyngor *Council Tax Premium* | (2,893) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (3,165) | (272) | 9.40% | (325) |
| Grant Cynnal Refeniw *Revenue Support Grant* | (100,842) | (77,571) | (77,571) | 0 | 0.00% | (100,842) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2023/24** ***Total Funding 2023/24*** | **(170,789)** | **(95,127)** | **(95,127)** | **0** | **0** | **(170,683)** | **106** | **0** | **(109)** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date | 2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch3 Amrywiad Q3 Variance | 2023/24 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q3 Actual & Committed Spend | Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) | 2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn including impact of funding*** | **0** | **29,204** | **33,070** | **3,866** | **13.24%** | **(842)** | **(842)** | **-0.49%** | **364** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro Cyllidebau Wrth Gefn 2023/24**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau i Gwasanaethau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagweledig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 400,737 | - 149,991 | 250,746 | 118,900 | 131,846 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 100,000 | -,61,780 | 38,220 | 18,130 | 20,090 | 18,130 |
| Chwyddiant cyflog | 2,000,000 | 1,805,968 | 194,032 | 194,032 | - | - |
| Cynllun Cymorth i Brynu Tai | 1,501,907 | - | 1,501,907 | 1,501,907 | - | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economiadd | 86,250 | - | 86,250 | 74,070 | -12,180 | -12,180 |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | -319,190 | 20,810 | 20,810 | - | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | 50,000 | - | - |
| Gwerth Ardrethol Oriel Ynys Môn | - | - | - | 1,219,853 | - | -1,219,853 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Cyffredinol ac Eraill** | **4,478,894** | **-2,336,929** | **2,141,965** | **2,661,230** | **164,116** | **-1,250,163** |

## Costau Asiantaeth Hydref - Rhagfyr 2023

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 5,257 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Absenoldeb mamolaeth deiliad swydd. Daeth yr asiantaeth i ben ar 12 Mai, 2023 |
| | -630 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Gorfodi Tai |
| | **4,627** | | | |
| Ysgolion | 34,258 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Athrawon llawn mewn maes arbenigol |
| | **34,258** | | | |
| Gwastraff | 181,051 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen dros dymor byr |
| | 45,760 | Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol | | Tasgau penodol ar y safle |
| | **226,812** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 250,040 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I llenwi swyddi gwag |
| | **250,040** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 567,742 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I llenwi swyddi gwag |
| | **567,742** | | | |
| Adnoddau | 29,155 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Gwaith cymhorthdal |
| | 34,943 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | 57,980 | Cronfa Wrth Gefn Clustnodedig | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | **122,078** | | | |
| **Cyfanswm** | **1,205,557** | | | |

**ATODIAD D**

## Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr Ch3 2023/24

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Chrtr 1 £** | **Chrtr 2 £** | **Chrtr 3 £** | **Cyfanswm 2023/24 £** |
| Addysg Canolog | 4,525 | 8,714 | 9,025 | **22,264** |
| Diwylliant | 0 | 0 | 17,500 | **17,500** |
| Economaidd ac Adfywio | 101,463 | 176,417 | 482,417 | **760,297** |
| Eiddo | 0 | 0 | 7,537 | **7,537** |
| Priffyrdd | 4,727 | 22,227 | 42,402 | **69,356** |
| Ysgolion | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwastraff | 6,236 | 8,885 | 6,279 | **21,400** |
| CRT | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Tai | 0 | 0 | 2,900 | **2,900** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 5,365 | 2,466 | 6,973 | **14,804** |
| Busnes y Cyngor | 14,995 | 18,696 | 6,620 | **40,310** |
| Adnoddau | 9,970 | 0 | 38,426 | **48,396** |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **237,405** | **620,079** | **1,004,764** |
| Arianwyd gan: | | | | |
| Cyllideb Craidd | 44,046 | 103,980 | 181,943 | **329,969** |
| Grant | 5,227 | 73,435 | 376,828 | **455,490** |
| Cyfraniad Allanol | 82,524 | 55,473 | 57,218 | **195,215** |
| Cronfeydd Wrth Gefn / Darpariaethau | 15,484 | 4,517 | 4,090 | **24,091** |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **237,405** | **620,079** | **1,004,764** |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 CHWEFROR 2024** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2023/24** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **JEMMA ROBINSON**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn chwarter 3.
- Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £9.396m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £62.095m ar gyfer 2023/24.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Gosod y gyllideb gyfalaf flynyddol.

## DD – Gyda phwy yr ymgynghorwyd? Beth oedd eu sylwadau?

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)** | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151(gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac ystyriwyd ei sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu'r Cyngor gyflawni'r amcanion hirdymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy::** | Mae cyllid ar gyfer y prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru yn arbennig. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2023/24 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i ysgolion i'r anabl, y grant cyfleusterau i'r anabl. Nid oes unrhyw effaith ar agenda'r iaith Gymraeg. |

## F – Atodiadau:

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3 2023/24
Atodiad B – Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn
Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb

## FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

- Cyllideb Gyfalaf 2023/24, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar
- 9 Mawrth 2023;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf, Chwarter 1 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 26 Medi 2023; ac
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf, Chwarter 2 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Tachwedd 2023.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £24.405m ar gyfer 2023/24, a rhaglen gyfalaf o £13.557m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £13.477m gael ei ddwyn ymlaen o 2022/23, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £33.532m, a £17.907m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses o osod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £9.396m. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd wedi cymeradwyo swm ychwanegol o £1.26m ar gyfer cynllun o dan y CRT. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 i £62.095m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidir gan: | Cyllideb wreiddiol 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad fel a gymeradwywyd yn yr alldro Ch4 2022/23 | Cynnydd yn y CRT a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym Mehefin 2023 £'000 | Cynlluniau ychwanegol / addasiadau ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 22,367 | 2,909 | | 12,025 | **37,301** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,077 | 3,294 | | 2,129 | **8,500** |
| Benthyca Digefnogaeth | 2,797 | 38 | | (2,797) | **38** |
| Cyfraniad Refeniw | 9,221 | 3,936 | 1,260 | (2,782) | **11,635** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 443 | | (500) | **443** |
| Cronfeydd wrth gefn | | 2,780 | | 1,321 | **4,101** |
| Benthyciad | | 77 | | | **77** |
| **CYFANSWM** | **37,962** | **13,477** | **1,260** | **9,396** | **62,095** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod y gyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2023/24

**2.1** Mae'r tabl isod yn nodi gwariant cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2023, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2023 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd % | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,877 | 820 | 840 | 0 | 840 | 102 | 45 |
| Tai - CRT | 19,988 | 14,710 | 13,362 | 0 | 13,362 | 91 | 67 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,556 | 6,322 | 7,647 | 509 | 8,156 | 129 | 65 |
| Economaidd ac Adfywio | 14,405 | 5,298 | 5,050 | 317 | 5,367 | 101 | 37 |
| Priffyrdd | 8,404 | 3,370 | 3,028 | 380 | 3,408 | 101 | 41 |
| Rheoli Gwastraff | 366 | 66 | 58 | 6 | 64 | 97 | 17 |
| Eiddo | 3,861 | 449 | 429 | 0 | 429 | 96 | 11 |
| Trawsnewid | 391 | 251 | 147 | 110 | 257 | 102 | 66 |
| Gwasanaethau Oedolion | 247 | 225 | 229 | 0 | 229 | 102 | 93 |
| **Cyfanswm** | **62,095** | **31,511** | **30,790** | **1,322** | **32,112** | **102** | **52** |

| **Cyllidir gan:** | |
|---|---|
| Grant Cyfalaf | 37,301 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 |
| Bentyca â Chefnogaeth | 8,500 |
| Benthyca Digefnogaeth | 38 |
| Cyfraniad Refeniw | 11,635 |
| Cronfeydd wrth gefn | 4,101 |
| Benthyciad | 77 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **62,095** |

**2.2** Hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, gwariwyd 112% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol, fodd bynnag dim ond 45% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 3 wedi ei gwario, ond nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario yn ystod y chwarter nesaf, neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Lloriau Canolfan Hamdden Caergybi, Grant Gwres Carbon Isel mewn gwahanol leoliadau a llifoleuadau Ysgol Uwchradd Bodedern. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2023/24, ac mae diweddariad arnynt wedi'i gynnwys yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 91% o'r gyllideb a broffiliwyd a 67% o'r gyllideb flynyddol. I gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, cyfeiriwch at adroddiad monitro cyllideb chwarter 3 y CRT, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024.

## 3. <u>CYLLIDO</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Ceir diweddariad byr ar y cynlluniau isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy -** Mae adeilad newydd Ysgol Corn Hir wedi'i gwblhau. Uned Cyfnod Sylfaen Newydd yn Ysgol y Graig - mae gwaith ar uwch strwythur yr adeilad cyfan, sef y Ffrâm Bren gyda Phanelau Strwythurol wedi'u Hinsiwleiddio, wedi'i gwblhau. Mae gwaith gosod bordiau plastro a'r gwaith plastro tu mewn i'r adeilad wedi'i gwblhau, ynghyd â gosod ffenestri. Mae'r gwaith o osod y gorchudd to bron iawn wedi'i gwblhau. Mae gwaith ar y meysydd parcio wedi dechrau mynd rhagddo'n dda ac mae gwaith draenio'n parhau. Mae cam cyntaf y gwaith gosod (*first fix*) gan wasanaethau adeiladu bron â chael ei gwblhau. Addaswyd cyllideb a chyllid prosiect Band B Ysgol y Graig i adlewyrchu'r matrics diweddaraf, a rhagwelir tanwariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Oedi ar y safle yn gynharach yn y prosiect sydd i gyfrif am hyn.

- **Uned Gofal Plant y Fali** - Mae £0.85m o gyllid grant wedi'i sicrhau. Mae gwaith wedi dechrau ar y safle i baratoi'r is-strwythur. Bydd yr uned gofal plant newydd yn cyrraedd y safle ddiwedd mis Chwefror 2024.

- **Prosiect Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II y Fenter Treflun Treftadaeth (THI)) -** Dechreuodd y prosiect ar Stryd Stanley ar gyfer pedwar eiddo cyn y Nadolig, ac mae'r gwaith cychwynnol a'r gwaith arolygu wedi'i gwblhau. Cyhoeddwyd yr holl dendrau dylunio sy'n weddill sy'n ymwneud â blaenau siopau a phrosiectau blaenoriaeth yn chwarter 3, gydag un wedi'i benodi ym mis Rhagfyr a'r gweddill ym mis Ionawr. Bydd hyn yn hwyluso gwaith dylunio terfynol ar gyfer tendro, gan adeiladu ar waith arolygu a dylunio blaenorol. Bydd hyn yn lleihau'r oedi a'r dyfynbrisiau uwch a brofwyd trwy'r defnydd a gynlluniwyd yn flaenorol o gontractwr fframwaith.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi –** Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i gyflawni nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Mae'r cynnydd ar brosiectau sy'n cael eu cyllido ar y cyd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn cynnwys:-

  - Gwarchod ein Treftadaeth – Mae'r gwaith ar Ffynnon y Wrach, Tŵr Ellin a'r Wylfan uwchben Ynys Lawd wedi'i gwblhau. Mae gwaith ar Ynys Peibio a'r amddiffynfa rhyfel yn Nhrearddur wedi'i gwblhau yn ddiweddar hefyd. Mae'r gwaith ar y Fagnelfa ym Mhenrhos wedi cychwyn, er bod ychydig o oedi oherwydd y tywydd. Bydd gwaith ar amddiffynfa rhyfel Cofeb Skinner yn dilyn ar ôl cwblhau gwaith ar y Fagnelfa. Dylai'r holl waith fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2024.

- **Porth Twristiaid –** Canolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd: mae'r gwaith wedi'i gwblhau ac agorwyd y Ganolfan Ymwelwyr ym mis Mehefin 2023. Cyflwynwyd a thalwyd hawliadau terfynol, ond gallent fod yn destun Archwiliadau Ewropeaidd pellach yn y dyfodol.

- **Ffyniant Bro** - Yn ystod chwarter 3 dechreuodd y gwaith ar Ganolfan Ucheldre ar y safle ac mae'n mynd rhagddo'n dda. Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn wedi mynd allan i dendr am y gwaith i adeilad HSBC, a'r dyddiad cau yw 16 Ionawr. Maent hefyd wedi bod yn paratoi dogfennau tendro ar gyfer Central Buildings. Mae contractwyr wedi'u penodi ar gyfer adnewyddu 9 Stryd Stanley a bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ionawr. Mae Cyngor Tref Caergybi wedi penodi contractwyr ar gyfer ailddatblygu Llochesi Traeth Newry ond maent wedi gorfod mynd allan i dendr am yr eildro ar gyfer yr estyniad i Ganolfan Chwarae'r Empire gan fod prisiau tendro'n llawer uwch na'r gyllideb. Mae gwaith archaeolegol ym Mynwent Eglwys Sant Cybi wedi'i gwblhau heb unrhyw broblemau. Mae disgwyl i'r gwaith ar Eglwys y Bedd ddechrau ddiwedd mis Mawrth, ond mae'r prosiect 6 mis ei hôl hi. Mae Timau Dylunio wedi'u penodi ar gyfer gwaith y Parth Cyhoeddus a rhai Blaenau Siopau. Bydd gwariant chwarter tri yn cael ei hawlio ym mis Ionawr ac mae disgwyl i'r taliad grant nesaf gan Lywodraeth y DU hefyd gael ei dalu ym mis Ionawr. Mae pryderon parhaus am gostau cynyddol ac oedi cyn dechrau'r prosiectau. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Swyddogion Llywodraeth y DU ynghylch estyniad o 6 mis, i gwblhau'r rhaglen ym mis Medi 2025. Bydd cais ffurfiol ar gyfer hyn yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2024.

- **Strydoedd Saffach –** Nod y cyllid, a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref trwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yw gostwng troseddau cymdogaeth a lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi. Mae'r gwasanaeth Priffyrdd wedi derbyn cyllid i wella goleuadau stryd, darparu camerâu cylch cyfyng ychwanegol ar gyfer Cyngor Tref Caergybi a gwella'r Bont Geltaidd. Cwblhawyd yr holl waith, a daeth y cyllid i ben ym mis Medi 2023, er bod ymrwymiad parhaus i ddarparu cyllid cyfatebol tan fis Mawrth 2024.

- **Prosiect Cam 2 Penrhos –** Nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae'r gwaith ar yr unedau bellach wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r gwaith o farchnata'r unedau hyn ddechrau'n fuan, yn amodol ar dderbyn eu hasesiadau EPC. Mae'r prosiect wedi'i gau'n ffurfiol gyda'r cyllidwyr.

- **Prosiect Cam 3 Penrhos** – Sicrhawyd yn wreiddiol gwerth £3.1m o gyllid o'r ERDF, a dyfarnwyd swm ychwanegol o £0.399m. Nod y cynllun hwn oedd adeiladu chwe uned fusnes newydd ychwanegol ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae'r gwaith ar y safle bellach wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r gwaith o farchnata'r unedau hyn ddechrau'n fuan, yn amodol ar dderbyn eu hasesiadau EPC. Mae'r prosiect wedi ei gau'n ffurfiol gyda'r cyllidwyr.

- **Prosiect Porth Llangefni -** Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal o Langefni lle bydd saith o blotiau'n cael eu datblygu yn y pen draw.

  - **Unedau Porth (ERDF)** – Mae'r holl unedau bellach wedi cael eu gosod.

  - **Cyd-fenter y Porth –** Nod Cyd-fenter y Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Bydd gwaith marchnata'r plotiau sydd ar gael i'w gwerthu yn cychwyn ar y cyd â'r gwasanaethau eiddo.

- **Gwaith Grant ar Raddfa Fach –** Cymeradwywyd 7 cynllun adeiladu ar gyfer 2023/24. Cafodd un cynllun ei dynnu'n ôl (Capel Moriah, Gwalchmai) yn ddiweddarach oherwydd cymhlethdod y gwaith ac am ei fod yn costio gormod. Mae gwaith adeiladu ar y cynlluniau sy'n weddill yn mynd rhagddo.

- **Llanfairpwll, Porthaethwy (Achos Busnes Llawn) -** Mae Achos Busnes Llawn Porthaethwy yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae gwaith wedi'i ohirio ar achos busnes Llanfairpwll oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau.

- **Strwythur Mill Lane –** Mae'r system sensor ddiwygiedig bellach wedi'i rhoi ar waith a bydd yn cael ei monitro yn ystod y gaeaf. Mae arbenigwyr wedi ymweld â'r safle hefyd i asesu'r system sensor.

- **Teithio Llesol -** Sicrhawyd grant gwerth £2.253m gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a llesiant, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella mynediad i deithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cynhaliwyd ymarfer ail-broffilio'r Rhaglen Teithio Llesol, ac mae'r swm newydd a ddyrannwyd o'r grant yn cyfateb i £2.130m. Disgwylir am gymeradwyaeth gan LlC / Trafnidiaeth Cymru. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd llythyr cynnig cyllid diwygiedig yn cael ei gyflwyno.

- Mae £0.500m ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, ac mae'n cynnwys gwaith datblygu ymlaen llaw, gwaith ar raddfa fach a gweithgareddau monitro ac arfarnu.

  - **Gwaith datblygu ymlaen llaw**
    - Benllech (dau lwybr ger yr A5025 a gwelliannau i'r Sgwâr (A5025)) - chwarter 3 - cwblhawyd yr adroddiad ymgynghoriad, adolygir y cynllun a gwneir newidiadau i'r dyluniad i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd yn ogystal ag ymgynghori pellach gyda'r Gwasanaethau Brys (yn enwedig Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru).
    - Porthaethwy - Ffordd Pentraeth a'r A5025 i gyfleuster Parcio a Rhannu Llanfairpwll – chwarter 3 – cynllun wedi'i ohirio ar ddiwedd chwarter 2 – ail-broffilio / amrywio. Ni fydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu ymhellach yn 2023/24 oherwydd rhesymau a nodwyd yn flaenorol. Fe'i tynnwyd oddi ar y rhaglen.
    - Gaerwen (a Llanddaniel) – Chwarter 3 – penodwyd Ymgynghorydd a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf (defnyddiwyd Cytundeb Fframwaith (NMWTRA) fel llwybr caffael).
    - Y Fali - Chwarter 3 – penodwyd Ymgynghorydd a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf (defnyddiwyd Cytundeb Fframwaith Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) fel llwybr caffael).
    - Ysgol Uwchradd Amlwch a'r Ganolfan Hamdden i Borth Amlwch (yn cynnwys cyswllt i gyflogaeth) - Chwarter 3 - dechreuwyd y rhan Dylunio Manwl ar gyfer mwyafrif y llwybrau a pharatowyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac ati. Cynhelir Ymgynghoriad Cyhoeddus yn chwarter 3/4.

  - **Gwaith ar Raddfa Bach (Pecyn Craidd)**
    - Roedd gweithgareddau chwarter 3 yn cynnwys cwblhau'r gwaith dylunio manwl i'r pecyn methiannau difrifol yn Amlwch a'r Fali.

  - **Datblygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol a Gweithgareddau Monitro ac Arfarnu**
    - Mae gweithgareddau chwarter 3 yn cynnwys cynnal proses gaffael ar gyfer gweithgareddau Archwilio ac archebu adnoddau cyfri defnyddwyr.

- £0.250m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Malltraeth - Niwbwrch (A4080) - yn ystod chwarter 3, ail-broffiliwyd ar gyfer gwariant uwch ar y prosiect i £0.324m. Mân waith yn Niwbwrch wedi'i gwblhau, dyluniadau wedi'u cwblhau ar gyfer y groesfan ffurfiol ar yr A4080 a Mynediad y Cob a chais Trwydded Gewithgaredd Risg Llifodydd (FRAP) wedi'i gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru. O ran yr asesiad ehangach o'r coridor cyfan o Bont Marcwis i Niwbwrch, penodwyd Ymgynghorwyr i ymgymryd â gwaith datblygu cyn cynllun Cam 3 WelTAG ar y llwybr sy'n cynnwys Cam 3E ar y llwybr di-ddosbarth o Bont Marcwis i Falltraeth, Cam 3C ar y rhan o Faes Parcio Pen Cob i Niwbwrch ac asesiadau / archwilio pellach ar gyfer llwybr ar wahân o Bont Marcwis i'r A4080 ar hyd glan yr afon.

- £0.158m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Llanfairpwll – yn ystod chwarter 3, ail-broffiliwyd ar gyfer gwariant uwch ar y prosiect i £0.225m. Cwblhawyd y dyluniadau ar y mân waith ar hyd yr A5 a'r Gors, penodwyd contractwr am y tymor ac mae'r gwaith i fod i ddechrau ym mis Ionawr. O ran y llwybr o Lôn Graig i Lôn Refail, mae angen asesiad ar ochr arall y ffordd gerbydau, gydag opsiynau yn cael eu hasesu gan ymgynghorwyr yn dilyn gwaith arolygu pellach.

- £1.345m mewn perthynas â'r Prif Gynllun Teithio Llesol Caergybi – Bae Trearddur (Metro Gogledd Cymru) - yn ystod chwarter 3, ail-broffiliwyd ar gyfer gwariant is ar y prosiect i £1.034m. Penodwyd Prif Gontractwr ar y cynllun yn dilyn proses dendro lwyddiannus a pharhawyd â'r gwaith datblygu cyn y cynllun ar gyfer camau dilynol posibl y prosiect.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2022/23) –** Mae’r holl weithgareddau’n gysylltiedig â chyllid 2022/23 wedi cael eu cwblhau. Mae’r Cyngor wedi sicrhau cyllid grant o gronfa ULEV LlC ar gyfer 2023/24 er mwyn cwblhau’r gwaith (yn unol â’r isod).

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2023/24)** - Mae £0.377m wedi cael ei ddyfarnu tuag at gwblhau gweithgareddau a ddyfarnwyd yn 2022/23 a chyfleusterau gwefru ym mhentref Benllech, Canolfan Hamdden Amlwch a phentref y Fali. Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu estyniad amser ar gyfer adeiladu'r Hwb EV ym Mhlas Arthur tan ddiwedd Awst 2024 ar sail y penodir contractwr erbyn 30 Ebrill 2024 fan bellaf (mae'r cynnydd yn chwarter 3 ar y cynllun penodol hwn yn cynnwys sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer hwb EV ym Mhlas Arthur a dechrau'r cyfnod dylunio manwl). Mae gwaith arall y gwnaed cynnydd arno yn chwarter 3 yn cynnwys parhau i asesu dogfennau caffael a thendro, gydag ymgynghorwyr allanol yn darparu cyngor arbenigol oherwydd cymhlethdodau'r contract hirdymor, a chynllunio ar gyfer y gwaith galluogi yn Amlwch a'r Fali, yn ogystal â chyflwyno dyfynbrisiau ar gyfer cysylltiadau y Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) mewn nifer o safleoedd gwahanol (oherwydd problemau ar safle Benllech). Y bwriad ar hyn o bryd yw defnyddio'r gyllideb gyfan yn ystod 2023/24 (gydag estyniad amser i gwblhau hwb EV Plas Arthur erbyn diwedd mis Awst 2024).

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol – gwella isadeiledd –** Cwblhawyd yr ymweliad derbyn safle ym mis Awst 2023 ac mae’r taliad cyfalaf olaf wedi’i dalu. Mae’r prosiect wedi’i gwblhau.

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol –** Hawliwyd y cyllid grant a oedd yn weddill ar ddiwedd chwarter 1, yn unol ag amodau’r grant, a bydd gweithgareddau pellach yn gysylltiedig â’r cynllun hwn yn ystod chwarter 2 a 3 yn cael eu cyllido gan y gwasanaeth. Mae’r holl weithgareddau’n gysylltiedig â’r cynllun hwn wedi’u cwblhau.

- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor) –** Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Tachwedd 2023, cynhaliwyd arolygon tir wedi hynny a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2024.

- **Grant Gwres Carbon Isel (10 lleoliad) –** Sicrhawyd £2.421m, gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer 90% o'r costau a'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill o'r cyllidebau cyfalaf presennol. Mae gwaith arolygu a chyfarfodydd cyn dechrau yn parhau, a bydd y gwaith adeiladu’n dechrau ar y safle mewn rhai lleoliadau yn chwarter 4, gyda’r cyllid grant yn cael ei hawlio’n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Llifoleuadau Plas Arthur** - Cwblhawyd y prosiect yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd 2023. Roedd hyn yn cynnwys disodli dwy golofn a gosod goleuadau LED newydd ym mhob un o'r 8 colofn. Cyllidwyd y prosiect drwy Sefydliad Pêl-droed Cymru a chyllid cyfalaf Hamdden.

- **Ysgol Uwchradd Bodedern – cae 3G** – Cwblhawyd y prosiect ganol mis Tachwedd 2023, gyda'r ddau gae yn cael eu defnyddio gan yr ysgol. Mae mân newidiadau a fydd yn cael eu cwblhau yn y Gwanwyn pan fydd y tywydd yn well, megis paentio'r llinellau a'r llenwi i mewn â thywod.

- **Ysgol Uwchradd Bodedern - Llifoleuadau -** Sicrhawyd £0.100m o gyllid grant drwy Chwaraeon Cymru i godi llifoleuadau ar gyfer y caeau chwaraeon 2G a 3G newydd. Mae disgwyl y bydd cyfanswm y prosiect yn £0.123m, gyda'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y gweddill. Bydd y gwaith yn dechrau ar y prosiect yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 5 Chwefror 2024, ac mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn canol mis Mawrth. Gallai hyn gael ei ohirio oherwydd y tywydd.

- **Llawr Newydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi** – Sicrhawyd grant gwerth £0.100m gan Chwaraeon Cymru i osod llawr newydd yn y brif neuadd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Amcangyfrifir y daw cyfanswm costau’r prosiect i £0.140m, gyda'r Cyngor yn darparu £0.040m o gyllid cyfatebol. Cadarnhawyd mai dyddiad dechrau'r prosiect fydd 18 Mawrth 2024. Mae hyn yn hwyrach na'r disgwyl, fodd bynnag, mae hyn yn addas i'r gwasanaeth hamdden gan ei fod yn cyd-fynd â gwyliau'r Pasg sydd, yn draddodiadol, yn gyfnod tawel ar gyfer defnyddio'r neuadd a bydd yn caniatáu i rai o'r clybiau sy'n defnyddio'r cyfleuster ddefnyddio cyfleusterau allanol eraill. Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod o 3 wythnos, y cytunwyd arno gyda Chwaraeon Cymru.

- **Porth Arfordirol Môn** - Dechreuodd y contractwr weithio ym Moelfre a Thraeth Bychan ym mis Tachwedd 2023, ac ym Miwmares a Rhosneigr ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r gwaith ym mhob un o'r 4 safle yn mynd rhagddo ac, ar hyn o bryd, anelir at ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2024.

- **Grant Ysgolion Bro (2022/23) -** Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith bellach wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith sydd heb ei wneud yn ymwneud ag Ysgol Syr Thomas Jones. Bellach cafwyd caniatâd cynllunio a bydd yn cael ei wneud yn ystod mis Mawrth 2024. Felly, disgwylir i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

- **Grant Ysgolion Bro (2023/24)** - Dyfarnwyd £0.200m yn 2023/24 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion y tu allan i'r oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ac agor ysgolion yn ddiogel y tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn i'r gymuned allu defnyddio'r cyfleusterau presennol. Mae'r swm a ddyfarnwyd yn ymwneud â thair ysgol benodol. Disgwylir y bydd swm bach o'r grant yn cael ei wario o fewn chwarter 4, a disgwylir i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn yn 2024/25. Mae hyn wedi'i gyfleu i Lywodraeth Cymru ac mae'r gwariant wedi'i ailbroffilio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a'i gymeradwyo. Y swm diwygiedig ar gyfer 2023/24 yw £0.030m.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2022/23) -** Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith o dan y cynllun hwn dros gyfnod gwyliau Haf 2023. Dyrannwyd swm ar gyfer gwaith yn Ysgol Uwchradd Caergybi, sydd bellach ddim yn bosibl ei wneud yn yr amserlen wreiddiol ac, felly, disgwylir tanwariant o £0.215m ar y gyllideb i'w ad-dalu i Lywodraeth Cymru.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2023/24)** - Mae £0.478m wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i wneud y gorau o amgylcheddau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, i wella hygyrchedd, hyrwyddo arfer cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Mae'r tîm ADY wedi nodi'r gwaith ac, oherwydd nad yw'r gwaith yn gallu cael ei wneud yn unol â thelerau ac amodau'r grant, disgwylir tanwariant o £0.139m ar y gyllideb i'w ad-dalu i Lywodraeth Cymru.

- Mae cyllid gofal cymdeithasol wedi cael ei ddyfarnu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-

  - **Y Gronfa Gofal Integredig (ICF) –** Hawliwyd £0.694m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gyllid wedi'i ddadleoli, gyda'r prosiectau'n llithro i'w cwblhau yn 2023/24. Mae'r arian sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y 4 prosiect isod:-

    - Cartrefi Clyd arbenigol;
    - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys;
    - Buddsoddiad Cyfeillgar i'r Anabl;
    - Anableddau Dysgu: Galluogi Mynediad.

  Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yma, a chaiff ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at y cynlluniau gwario uchod sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb y CRT.

  - **Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso – (IRCF) -** Dyfarnwyd £0.244m o gyllid cyfalaf drwy'r IRCF i gyllido:-

    - HWB Llesiant Amlwch (£0.128m) – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd rhywfaint o'r cyllid hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn ardal lesiant a gweithfan achlysurol i staff yr awdurdod lleol a'r trydydd sector er mwyn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr. Gwariwyd £104k yn 2022/23 a gwariwyd y gweddill (£25k) yn ystod 2023/24 i gwblhau'r prosiect. Roedd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023.

    - Cartrefi Gofal Dementia Gyfeillgar (£0.115m) - Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i greu trydedd uned ddiogel yng nghartref gofal Garreglwyd i gynnig mwy o gymorth dementia arbenigol yn lleol. Dechreuodd y prosiect ym mis Mehefin 2023 ac mae bellach wedi'i gwblhau.

- **Y Gronfa Tai â Gofal (CTG)** – Dyfarnwyd cyllid cyfalaf gwerth £1.1m o'r CTG ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i gefnogi'r prosiect Cartrefi Clyd a chyllido'r gwaith o adnewyddu dau gartref a buddsoddi, o bosibl, mewn uned seibiant dros nos ar un safle. Hawliwyd £0.445m yn 2022/23, a bydd y swm o £0.655m sy'n weddill ar gael yn 2023/24. Mae un eiddo wedi cael ei adnewyddu'n llawn ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr ail eiddo, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y trydydd eiddo'n golygu adeiladu uned bwrpasol ac mae'r broses cyn cyflwyno cais cynllunio'n mynd rhagddi yn awr. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd swm o £0.300m yn cael ei hawlio yn 2023/24, gyda chais i'r swm sy'n weddill gael ei ddwyn ymlaen er mwyn cwblhau'r gweithgareddau uchod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2023/24 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Rhag-2023 £'000 | Rhagolwg hyd at 31-Mawrth-2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 584 | 524 | 524 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 480 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,064** | **524** | **524** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 yw £0.524m,ac roedd £0.524m wedi'i dderbyn hyd at 31 Rhagfyr 2023 (100%). Mae asedau a gafodd eu cynnwys o fewn y gyllideb i'w gwerthu'r flwyddyn ariannol hon a fydd yn cael eu cario drosodd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 oherwydd amseriad yr arwerthiant a'r posibilrwydd o werthu.

**3.2.3** Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £0.524m, mae £2.428m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £1.904m o dderbyniadau cyfalaf wedi eu cario drosodd o 2022/23 yng nghronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y swm cyfan hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllideb gyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn glustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau hamdden, a chyllid clustnodedig ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn ddiwethaf.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2023/24

**4.1** Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | Tan / Gorwariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol Tai | 1,877 | 1,170 | (707) | (38) |
| Tai - CRT | 19,988 | 20,529 | 541 | 3 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,556 | 11,597 | (959) | (8) |
| Economaidd ac Adfywio | 14,405 | 7,780 | (6,625) | (46) |
| Priffyrdd | 8,404 | 7,468 | (936) | (11) |
| Rheoli Gwastraff | 366 | 111 | (255) | (70) |
| Eiddo | 3,861 | 3,586 | (275) | (7) |
| Trawsnewid | 391 | 371 | (20) | (5) |
| Gwasanaethau Oedolion | 247 | 247 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **62,095** | **52,859** | **(9,236)** | **(15)** |
| **Cyllidir gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 37,301 | 30,169 | (7,132) | (19) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 | 157 | (286) | (65) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 8,500 | 7,492 | (1,008) | (12) |
| Benthyca Di gefnogaeth | 38 | 38 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 11,635 | 11,665 | 30 | 0 |
| Cronfeydd wrth gefn | 4,101 | 3,261 | (840) | (20) |
| Benthyciad | 77 | 77 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **62,095** | **52,859** | **(9,236)** | **(15)** |

**4.2** Fel y gwelir o Dabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £9.236m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25, a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

Rhagwelir gorwariant o £0.541m yn y CRT, ac mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro'r gyllideb CRT chwarter 3, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

**Tai**
Mae'r cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl bellach yn rhagweld tanwariant o £0.215m yn y flwyddyn, fodd bynnag, bydd y cyllid yn cael ei ymrwymo yn y flwyddyn ariannol hon a gofynnir iddo gael ei gario drosodd i sicrhau'r gwariant ymroddedig.

Mae'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen gydag unrhyw ddatblygiad pellach o'r safle sipsiwn a theithwyr yn Star ar hyn o bryd, yn caniatáu i'r cyllid sy'n weddill o £0.490m gael ei ddad-ymrwymo ac mae ar gael i sicrhau'r gwariant cyfalaf newydd.

**Dysgu Gydol Oes**
Rhagwelir tanwariant ar addasu adeiladau addysg ar gyfer rhai anabl. Mae'r ffaith bod y Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gael yn golygu bod llawer o'r gwaith a fyddai wedi ei gyllido o'r gyllideb hon yn arferol yn cael ei gyllido bellach gan gyllid grant. Gofynnwyd am gael trosglwyddo'r gyllideb hon i 2024/25, gan fod arolygon yn cael eu cynnal ar adeiladau ysgol ac maent yn debygol o ddatgelu gwaith angenrheidiol sydd angen ei wneud, ac nid oes sicrwydd y bydd grantiau ADY ar gael yn y dyfodol.

Rhagwelir tanwariant hefyd mewn perthynas â'r Cynllun Diogelwch Ysgolion. Oherwydd sgôp y gwaith ar gyfer y gyllideb sy'n weddill a'r broses gynllunio y mae'n rhaid ei dilyn, rhagwelir na fydd modd gwneud y gwaith tan Haf 2024 ac, felly, gofynnir am gael trosglwyddo unrhyw danwariant yn y gyllideb hon i 2024/25 er mwyn gwneud y gwaith angenrheidiol.

Rhagwelir bellach y bydd y gyllideb ar waith cyfalaf mewn adeiladau ysgol yn cael ei gwario'n llawn. Mae hyn o ganlyniad i'r dyfarniad Grantiau Gwres Carbon Isel sydd wedi darparu swm sylweddol o 90% a defnyddio'r gyllideb hon i gyllido'r swm cyfatebol o 10% gan y Cyngor.

Rhagwelwyd tanwariant yn y grant Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae'r tanwariant a ragwelir ar gyfer Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'i egluro yn 3.1.1 uchod.

**Priffyrdd**
Mae'r tanwariant a ragwelir yn y cynlluniau Priffyrdd yn gysylltiedig â chynlluniau llifogydd amrywiol, yn bennaf am eu bod yn pontio dwy flwyddyn ariannol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Bydd y cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd, fel y disgrifir uchod, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

Rhagwelir tanwariant yn y gyllideb mewn perthynas â'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi estyniad o ran dyfarnu'r grant, fel yr eglurir yn 3.1.1 uchod, ac, felly, bydd y gyllideb sy'n weddill yn cael ei chario drosodd i flwyddyn ariannol 2024/25 yn seiliedig ar y gyllideb yn cael ei hymrwymo'n llawn.

Ni fydd y gyllideb ar gyfer peiriannau graeanu yn cael ei gwario yn y flwyddyn ariannol hon a gofynnir i'r gyllideb gael ei chario drosodd i flwyddyn ariannol 2024/25. Mae hyn oherwydd yr argaeledd i brynu cerbydau addas.

**Eiddo**
Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn, ac amcangyfrifir mai ychydig iawn o'r gyllideb hon a gaiff ei gwario yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus, a bydd hynny'n rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn y blynyddoedd ariannol nesaf. Rhagwelir hefyd y gallai cyllid grant pellach fod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus, a byddai modd defnyddio rhan o'r gyllideb hon, eto, fel cyllid cyfatebol os bydd y cyfle'n codi.

**Rheoli Gwastraff**

Ni fydd y gyllideb ar gyfer Offer Ailgylchu'n cael ei gwario'n llawn, a rhagwelir tanwariant. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu a blaenoriaethu eu gwariant cyfalaf, yn unol â'u strategaeth a'r cynllun ariannol 5 mlynedd, ac maent yn prynu pedair eitem o beiriannau a pheirianwaith. Er hynny, mae'r cyfnod arweiniol posibl yn dilyn dyfarnu'r tendrau llwyddiannus yn golygu nad yw'r peiriannau a'r peirianwaith yn debygol o gael eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cyllid wedi'i ymrwymo'n llawn er hynny.

**Economaidd ac Adfywio**

Mae Cynllun Adfywio Caergybi (Cam II THI) yn dal i ragweld tanwariant yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd chwarter 3. Mae'r gwariant wedi arafu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a rhagwelir y bydd mwy o wariant yn ystod chwarter 4 wrth i waith ar y prosiectau llai gychwyn ar y safleoedd, tra bydd y prosiectau mwy yn parhau i gael eu datblygu oherwydd eu maint a'u cymhlethdod. Bydd y mwyafrif o'r gwariant, felly'n digwydd yn 2024/25.

Mae'r cynllun Isadeiledd Morwrol yn rhagweld tanwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a hynny oherwydd y trafodaethau diweddar gyda RWE ynghylch y defnydd posibl, gan olygu fod rhaid newid y dyluniad unwaith eto. Mae'r cynllun yn cael ei ail-ddylunio ar hyn o bryd ac, oherwydd yr amseru, mae cais i ddwyn y gyllideb ymlaen i 2024/25 er mwyn cwblhau'r cynllun.

O ran cyllideb Isadeiledd Ymwelwyr, bellach rhagwelir tanwariant o £0.140m - mae hyn oherwydd bod angen cyllid cyfatebol ar gyfer grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac am ei bod o fudd i'r rhanbarth i wneud y mwyaf o wariant grant eleni a darparu ein cyllid cyfatebol y flwyddyn ariannol nesaf. Felly, gofynnir am gael ei drosglwyddo i flwyddyn ariannol 2024/25.

Ni fydd y gyllideb ar gyfer camerâu gorfodaeth ar lithrfa Porth y Wrach yn cael ei gwario'n llawn y flwyddyn ariannol hon gan fod disgwyl i'r system sy'n cael ei phrynu fod yn sylweddol llai na'r gyllideb a ddyrannwyd. Disgwylir y bydd tua £0.020m o danwariant ac mae'r gwasanaeth wedi wneud cais i'r gyllideb sy'n weddill gael ei defnyddio ar gyfer offer tebyg ar safle morwrol arall.

Eglurwyd y tanwariant o £5.776m ar y Gronfa Ffyniant Bro yn 3.1.1 uchod, gyda chais ffurfiol am estyniad o 6 mis yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2024 oherwydd oedi amrywiol o fewn y rhaglen.

**4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 yw £150.180m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae benthyca allanol yn £123.413m, gan olygu, yn ei hanfod, bod angen i'r Awdurdod fenthyg £26.767m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff y cyllid hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2023/24 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Disgwylir y bydd rhaglen gyfalaf 2024/25 yn dilyn yr un egwyddor, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido'r broses o ddisodli cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 2028, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

Bydd y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo ar 7 Mawrth 2024. Bydd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25 hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn a'r Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar y trywydd iawn i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai cynlluniau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi bod y cyllidebau wedi'u hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2024/25 i gael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.524m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2023/24 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant i'r Proffil (£) | Cyllideb a Broffilwyd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol wedi ei wario (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Gor / Tanwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,215,948 | 800,000 | 822,520 | 0 | 822,520 | 22,520 | 103 | 68 | 1,000,000 | (215,948) | (18) |
| Grant Galluogi | 139,786 | 20,000 | 17,393 | 0 | 17,393 | (2,607) | 87 | 12 | 139,786 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (490,841) | (100) |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,877,225** | **820,000** | **839,914** | **0** | **839,914** | **19,913** | **102** | **45** | **1,170,436** | **(706,789)** | **(38)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 1,250,000 | 805,000 | 692,909 | 0 | 692,909 | (112,091) | 86 | 55 | 1,100,000 | (150,000) | (12) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,450,000 | 2,635,000 | 2,634,238 | 0 | 2,634,238 | (762) | 100 | 59 | 4,450,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 450,000 | (0) | 0 | (0) | (450,000) | (0) | (0) | 0 | (600,000) | (100) |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 400,000 | 174,654 | 0 | 174,654 | (225,346) | 44 | 25 | 400,000 | (300,000) | (43) |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 10,288,000 | 8,421,000 | 7,862,307 | 0 | 7,862,307 | (558,693) | 93 | 76 | 11,879,424 | 1,591,424 | 15 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 273,000 | 347,498 | 0 | 347,498 | 74,498 | 127 | 87 | 500,000 | 100,000 | 25 |
| Risg Tan | 400,000 | 191,000 | 115,557 | 0 | 115,557 | (75,444) | 61 | 29 | 300,000 | (100,000) | (25) |
| SATC | 1,900,000 | 1,535,000 | 1,534,695 | 0 | 1,534,695 | (305) | 100 | 81 | 1,900,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **19,988,000** | **14,710,000** | **13,361,858** | **0** | **13,361,858** | **(1,348,142)** | **91** | **67** | **20,529,424** | **521,424** | **3** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 144,512 | 21,500 | 20,076 | 0 | 20,076 | (1,424) | 93 | 14 | 20,076 | (124,436) | (86) |
| Adnewyddu Adeiladau Addysg | 1,944,133 | 1,350,000 | 1,349,537 | 1,361 | 1,350,898 | 898 | 100 | 69 | 1,944,133 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 107,648 | 40,000 | 38,595 | 0 | 38,595 | (1,405) | 96 | 36 | 40,000 | (67,648) | (63) |
| Grant Cinio Ysgol am Ddim | 600,205 | 400,000 | 358,552 | 782 | 359,334 | (40,666) | 90 | 60 | 600,205 | 0 | 0 |
| Canopíau Allanol | 22,420 | 22,420 | 19,343 | 0 | 19,343 | (3,077) | 86 | 86 | 22,420 | 0 | 0 |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol | 435,677 | 435,677 | 150,142 | 0 | 150,142 | (285,535) | 34 | 34 | 220,677 | (215,000) | (49) |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 478,225 | 5,000 | 460 | 4,866 | 5,326 | 326 | 107 | 1 | 339,000 | (139,225) | (29) |
| Ysgolion Bro | 450,993 | 400,000 | 417,955 | 0 | 417,955 | 17,955 | 104 | 93 | 450,993 | 0 | 0 |
| Ysgolion Bro 2023/24 | 30,000 | 1,000 | 920 | 0 | 920 | (80) | 92 | 3 | 30,000 | 0 | 0 |
| Ysgol Uwchradd Bodedern – caeau chwarae | 300,000 | 294,000 | 276,050 | 950 | 277,000 | (17,000) | 94 | 92 | 294,000 | (6,000) | (2) |
| Grant Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant (cynllun grant) | 123,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 123,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant) | 380,000 | 100,000 | 102,867 | 0 | 102,867 | 2,867 | 103 | 27 | 380,000 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant y Fali | 49,481 | 52,000 | 52,659 | 0 | 52,659 | 659 | 101 | 106 | 52,659 | 3,178 | 6 |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 850,000 | 450,000 | 22,116 | 448,333 | 470,449 | 20,449 | 105 | 55 | 850,000 | 0 | 0 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 370,000 | 250,000 | 225,564 | 13,963 | 239,526 | (10,474) | 96 | 65 | 379,526 | 9,526 | 3 |
| **CYFANSWM** | 6,269,995 | 2,500,000 | 4,612,148 | 38,341 | 4,650,489 | 2,150,489 | 186 | 74 | 5,850,489 | (419,506) | (7) |
| | **12,556,289** | **6,321,597** | **7,646,984** | **508,596** | **8,155,580** | **1,833,983** | **129** | **65** | **11,597,180** | **(959,110)** | **(8)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant i Broffil (£) | Cyllideb a Broffiliwyd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol wedi ei wario (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tros / Tan a Ragamcenir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Ystafell Fitrwydd Amlwch | 1,468 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 1,468 | 0 | 0 |
| Canolfan Hamdden Amlwch - Llawr | 75,635 | 75,635 | 75,635 | 0 | 75,635 | (0) | 100 | 100 | 75,635 | (0) | (0) |
| Plas Arthur 3G Llif Oleuadau | 74,514 | 74,514 | 74,514 | 0 | 74,514 | (0) | 100 | 100 | 74,514 | (0) | (0) |
| Canolfan Hamdden Caergybi - Llawr | 149,000 | 0 | 0 | 148,378 | 148,378 | 148,378 | 148,378,000 | 100 | 149,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (50,000) | (100) |
| Partneriaeth Tirlun Caergybi | 106,000 | 40,000 | 78,830 | 0 | 78,830 | 38,830 | 197 | 74 | 106,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 762,000 | 150,000 | 51,270 | 137,127 | 188,397 | 38,397 | 126 | 25 | 320,000 | (442,000) | (58) |
| Parc y Morglawdd | 110,000 | 80,000 | 55,923 | 0 | 55,923 | (24,077) | 70 | 51 | 55,923 | (54,077) | (49) |
| Penrhos Cam 2 | 23,345 | 23,345 | 23,345 | 0 | 23,345 | 0 | 100 | 100 | 23,345 | 0 | 0 |
| Penrhos Cam 3 | 2,820,804 | 2,750,000 | 2,757,456 | 390 | 2,757,846 | 7,846 | 100 | 98 | 2,820,804 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 122,543 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 122,543 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach – Camerâu Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,000 | (20,000) | (67) |
| Canolfan Gymunedol Newry | 52,289 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 52,289 | 0 | 0 |
| Safle Porth JV | 21,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 21,514 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morwrol | 177,514 | 30,000 | 0 | 28,573 | 28,573 | (1,427) | 95 | 16 | 30,000 | (147,514) | (83) |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 198,930 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 58,930 | (140,000) | (70) |
| Melin Llynnon | 70,397 | 70,000 | 67,849 | 3,925 | 71,774 | 1,774 | 103 | 102 | 75,000 | 4,603 | 7 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| Porth Arfordir Môn | 313,000 | 5,000 | 5,395 | 0 | 5,395 | 395 | 108 | 2 | 313,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyniant Bro | 9,236,000 | 2,000,000 | 1,859,514 | 0 | 1,859,514 | (140,486) | 93 | 20 | 3,459,514 | (5,776,486) | (63) |
| **CYFANSWM** | **14,405,017** | **5,298,495** | **5,049,732** | **318,393** | **5,368,125** | **69,630** | **101** | **37** | **7,779,543** | **(6,625,474)** | **(46)** |
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio peiriannau talu ac arddangos mewn meysydd parcio | 4,533 | 4,533 | 0 | 5,469 | 5,469 | 936 | 121 | 121 | 5,469 | 936 | 21 |
| Cerbydau | 800,408 | 350,000 | 190,350 | 163,678 | 354,028 | 4,028 | 101 | 44 | 800,408 | 0 | 0 |
| Peiriannau Graeanu | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (250,000) | (100) |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,500,000 | 2,000,000 | 1,960,234 | 0 | 1,960,234 | (39,766) | 98 | 78 | 2,500,000 | 0 | 0 |
| Cynllun Llifogydd Llanfair | 391,646 | 30,000 | 29,489 | 0 | 29,489 | (511) | 98 | 8 | 30,000 | (361,646) | (92) |
| Cynllun Llifogydd Menai – Cynllun Busnes Llawn | 150,771 | 60,000 | 55,833 | 0 | 55,833 | (4,167) | 93 | 37 | 60,000 | (90,771) | (60) |
| Adeiladu – Y Fali | 13,248 | 1,000 | 630 | 13,476 | 14,106 | 13,106 | 1,411 | 106 | 13,476 | 228 | 2 |
| Cynlluniau Cymorth Llifogydd (Cyllid Cyfateb) | 346,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 346,800 | 0 | 0 |
| Mill Lane – NFM | 30,888 | 30,000 | 40,898 | 0 | 40,898 | 10,898 | 136 | 132 | 40,898 | 10,010 | 32 |
| Buddsoddi i Arbed – Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith grantiau ar raddfa isel | 601,024 | 40,000 | 100,027 | 0 | 100,027 | 60,027 | 250 | 17 | 601,024 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 275,000 | 103,844 | 166,716 | 270,560 | (4,440) | 98 | 12 | 2,130,250 | (122,853) | (5) |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwella Isadeiledd Bysiau 2021/22 | 28,014 | 28,014 | 28,014 | 0 | 28,014 | 0 | 100 | 100 | 28,014 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwella Isadeiledd Bysiau 2022/23 | 387,265 | 387,265 | 387,265 | 0 | 387,265 | 0 | 100 | 100 | 387,265 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 57,334 | 57,334 | 56,958 | 0 | 56,958 | (376) | 99 | 99 | 56,958 | (376) | (1) |
| Strydoedd Mwy Diogel | 18,000 | 17,100 | 17,100 | 0 | 17,100 | (0) | 100 | 95 | 17,100 | (900) | (5) |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan 2023/24 | 376,550 | 80,000 | 49,317 | 31,690 | 81,007 | 1,007 | 101 | 22 | 256,550 | (120,000) | (32) |
| Isadeiledd Gwefru Codi Tâl Cerbydau Trydan | 189,152 | 10,000 | 8,617 | 0 | 8,617 | (1,383) | 86 | 5 | 189,152 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **8,403,803** | **3,370,246** | **3,028,575** | **381,029** | **3,409,604** | **39,358** | **101** | **41** | **7,468,431** | **(935,373)** | **(11)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Variance to profile (£) | Cyllideb a Broffiliwyd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol wedi ei wario (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tros / Tan a Ragamcenir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith IVC | 13,595 | 6,000 | 0 | 5,804 | 5,804 | (196) | 97 | 43 | 13,595 | 0 | 0 |
| Offer Ailgylchu | 289,315 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 34,000 | (255,315) | (88) |
| To Gwalchmai | 63,000 | 60,000 | 57,950 | 0 | 57,950 | (2,050) | 97 | 92 | 63,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **365,910** | **66,000** | **57,950** | **5,804** | **63,754** | **(2,246)** | **97** | **17** | **110,595** | **(255,315)** | **(70)** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 1,040,546 | 400,000 | 405,112 | 0 | 405,112 | 5,112 | 101 | 39 | 1,040,546 | 0 | 0 |
| Eiddo Buddsoddi i Arbed | 77,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 77,068 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 23,900 | 0 | 0 | 0 | (23,900) | 0 | 0 | 23,900 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel – Amrywiol | 2,420,745 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,420,745 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 298,839 | 25,000 | 24,147 | 0 | 24,147 | (853) | 97 | 8 | 24,147 | (274,692) | (92) |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **3,861,098** | **448,900** | **429,259** | **0** | **429,259** | **(19,641)** | **96** | **11** | **3,586,406** | **(274,692)** | **(7)** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh – Isadeiledd Craidd | 135,278 | 67,639 | 15,734 | 32,374 | 48,108 | (19,531) | 71 | 36 | 135,278 | 0 | 0 |
| TGCh – Adnewyddu Cyfrifiaduron | 99,456 | 50,000 | 0 | 54,733 | 54,733 | 4,733 | 109 | 55 | 99,456 | 0 | 0 |
| TGCh – Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 43,088 | 20,000 | 18,493 | 22,502 | 40,995 | 20,995 | 205 | 95 | 22,502 | (20,586) | (48) |
| Hwb TG | 113,471 | 113,471 | 112,471 | 0 | 112,471 | (1,000) | 99 | 99 | 113,471 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **391,293** | **251,110** | **146,698** | **109,610** | **256,308** | **5,198** | **102** | **66** | **370,707** | **(20,586)** | **(5)** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac ail-gydwbyso (IRCF) | 47,353 | 45,000 | 44,153 | 0 | 44,153 | (847) | 98 | 93 | 47,353 | 0 | 0 |
| Bryn Hwfa Hwb Cymunedol | 175,066 | 170,000 | 174,440 | 0 | 174,440 | 4,440 | 103 | 100 | 175,066 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 24,104 | 10,000 | 10,584 | 0 | 10,584 | 584 | 106 | 44 | 24,104 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **246,523** | **225,000** | **229,177** | **0** | **229,177** | **4,177** | **102** | **93** | **246,523** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM** | **62,095,159** | **31,511,348** | **30,790,147** | **1,323,432** | **32,113,579** | **602,231** | **102** | **52** | **52,859,245** | **(9,235,914)** | **(15)** |

**ATODIAD C**

## Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu ers gosod  y Gyllideb

| Cynllun | Cyllideb £ | FUNDING Grant £ | Cyfraniad Refeniw £ | Derbynebau Cyfalaf Wrth Gefn £ | Arian Wrth Gefn Cyfalaf £ | Benthyca a Chefnogaeth £ | Benthyca Digefnogaeth £ | Arian Wrth Gefn Arall £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailwynebu Priffyrdd * | 0 | (1,701,000) | | | | 591,000 | | 1,110,000 |
| Ysgolion Bro | 30,000 | 30,000 | | | | | | |
| Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | | |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 2,253,103 | | | | | | |
| Mill Lane NFM | (241,640) | (241,640) | | | | | | |
| CerbydauAllyriadau Isel Iawn ULEV | 376,550 | 376,550 | | | | | | |
| Y Pethau Pwysig | 250,400 | 250,400 | | | | | | |
| Grantiau Bychain Gwarchod Plant | 380,000 | 380,000 | | | | | | |
| Llifoleuadau Plas Arthur | 51,305 | 51,305 | | | | | | |
| Caeau Chwarae Bodedern | 300,000 | 300,000 | | | | | | |
| LLifoleuadau Bodedern | 123,000 | 100,000 | | | | | | 23,000 |
| Parc Morglawdd | 110,000 | 110,000 | | | | | | |
| Strydoedd mwy Diogel | 18,000 | 18,000 | | | | | | |
| Cam 3 | 22,187 | 22,187 | | | | | | |
| Cam 3 | 398,617 | 398,617 | | | | | | |
| Llangefni JV | 21,514 | 21,514 | | | | | | |
| Grantiau Graddfa Bychain | 478,636 | 478,636 | | | | | | |
| Grantiau Graddfa Bychain | 47,388 | | | | | | | 47,388 |
| CRT*** | 821,000 | 1,229,000 | (875,945) | | | 467,945 | | |
| ICF | (693,966) | | (226,021) | | | (467,945) | | |
| Corn Hir | 370,000 | 107,328 | | | | 262,672 | | |
| Cerbydau ** | 0 | 58,000 | | (58,000) | | | | |
| Cerbydau Graeanu** | 0 | 150,000 | | (150,000) | | | | |
| Cyllideb TG** | 0 | 292,000 | | (292,000) | | | | |
| Strwythur Mill Lane | 30,888 | 26,255 | | | 4,633 | | | |
| Ailgylchu Gwastraff | 70,634 | 70,634 | | | | | | |
| Aghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 478,225 | 478,225 | | | | | | |
| Uned Gwarchod Plant y Fali | 850,000 | 850,000 | | | | | | |
| To Gwalchmai | 63,000 | | | | | | | 63,000 |
| Canolfan Hamdden Caergybi | 149,000 | 100,000 | | | 36,949 | | | 12,051 |
| Pot Cyfalaf Hamdden | (36,949) | | | | (36,949) | | | |
| Hwb TG | (39,221) | (39,221) | | | | | | |
| Band B | 305,995 | 1,827,497 | | | | 1,275,498 | (2,797,000) | |
| Isadeiledd Bysiau 2022/23 | (587) | (61,589) | | | 61,002 | | | |
| Disgresiwn Rhaglen Gyfalaf | 47,353 | 47,353 | | | | | | |
| Grant isel Gwres Carbon | 2,178,671 | 2,178,671 | | | | | | |
| Partneriaeth Tirwedd | 56,000 | 56,000 | | | | | | |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | (13,155) | (13,155) | | | | | | |
| CRT | 0 | 1,680,000 | (1,680,000) | | | | | |
| **CYFANSWM** | **9,395,734** | 12,024,456 | (2,781,966) | (500,000) | 65,635 | 2,129,170 | (2,797,000) | 1,255,439 |

*Yn gynwysedig yng nghyllideb 2023/24 mae £1.701m o gyllid o grant cyffredinol cyfalaf ychwanegol.  Ar ôl  adolygu cyfyngiadau ac amodau'r grant, roedd rhaid ei ddefnyddio yn 2022/23 ac, felly, cafodd y grant ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Caiff y cyllid o'r grant a arbedwyd gan yr Awdurdod yma ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2023/24.

** Ail-ddyranu cyllid o'r hyn oedd wedi ei gyllido'n wreiddiol gan dderbyniadau cyfalaf yn rhaglen 2023/24, i gael ei gyllido gan grant cyfalaf cyffredinol.

*** Yn gynwysedig yng nghyllideb CRT 2023/24, roedd tanamcangyfrif o gyllid grant ac, ynghyd â'r cynnydd angenrheidiol yn y gyllideb, mae'r cyllid nawr wedi cael ei ddiwygio.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **29 CHWEFROR 2024** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 3 2023/24** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CARWYN EDWARDS<br>01248 752699<br>CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amh.** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2023/24.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/24.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8,044k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae'r gyllideb grantiau a chyllid arall o £6,898k yn gostwng y gyllideb net i £13.090k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid o'r cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw'r CRT ar ddiwedd chwarter 3 yn dangos tanwariant o £509k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £708k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant cyfalaf £404k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Mae'r gwariant a ragwelir £541k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr eglurir yn Atodiad B isod. Mae'r gorwariant o £541k a ragwelir ar wariant cyfalaf a'r tangyflawniad o £113k ar gyfraniadau eraill yn cael ei wrthbwyso gan £2,191k yn fwy o gyllid grant. Mae'r tanwariant net, yn cynnwys gwariant cyfalaf, grantiau cyfalaf derbyniadwy a chyfraniadau eraill, yn danwariant o £1,536k.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) ar hyn o bryd yn £2,802k, £2,244k yn is na'r gyllideb.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd yr incwm a dderbyniwyd £110k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhenti £50k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Mae'r diffyg oherwydd bod llai o eiddo rhentadwy wedi cael ei ychwanegu i'r stoc rhentadwy yn ystod y flwyddyn, ond ni ragwelir cynnydd pellach yn y diffyg hwn.

**5.3** Amcangyfrifir mai'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer dyledion drwg yw 1.5% o'r incwm rhent. Ar ôl ystyried y balans sy'n weddill ar hyn o bryd a'r dyledion a gafodd eu dileu yn ystod y flwyddyn hyd yma, disgwylir y bydd rhaid codi tâl o oddeutu £100k ar y cyfrif refeniw fel bod digon o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ar ddiwedd y flwyddyn, ac, felly, bydd tanwariant o £216k ar y gyllideb hon.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £149k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.

**6.2** Mae gwariant refeniw arall yn dangos tanwariant o £37k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd ond mae disgwyl iddo gynyddu i £165k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd gwariant annisgwyl o £185k i newid y system Teleofal o wasanaeth analog i ddigidol, a gwaith diweddaru caledwedd yn gysylltiedig â hynny.

**6.3** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £27k ar ddiwedd chwarter 3. Rydym yn rhagweld tanwariant o £28k ar ddiwedd y flwyddyn.

**6.4** Mae'r pennawd Gweinyddu Rhenti yn dangos tanwariant o £7k ar ddiwedd chwarter 3. Rydym yn rhagweld tanwariant o £6k ar ddiwedd y flwyddyn.

**6.5** Mae'r pennawd Rheoli Ystadau yn dangos tanwariant o £77k ar ddiwedd chwarter 3. Rydym yn rhagweld tanwariant o £76k ar ddiwedd y flwyddyn.

## 7. Trwsio a Chynnal a Chadw

**7.1** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) yn dangos tanwariant o £432k ar ddiwedd chwarter 3. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gwblhau i adolygu'r gofynion cyllidebol ac mae cyllideb fwy realistig wedi cael ei gosod ar gyfer 2023/24. Mae deddfwriaeth newydd wedi dod i rym, sy'n disgwyl i Landlordiaid Tai Cymdeithasol ddarparu gorchuddion llawr addas pan fydd tenantiaethau'n newid, ac mae £85k wedi cael ei gynnwys yn y rhagolwg yn sgil y gofyniad hwn. Er hyn, rydym yn dal i ragweld tanwariant o £73k ar ddiwedd y flwyddyn.

**7.2** Mae gwariant ar staff Cynnal a Chadw adeiladau (dim UCChT) £47k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Rhagwelir tanwariant o £55k yn y maes gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn.

**7.3** Roedd gwaith trwsio a chynnal a chadw arall £10k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd yn chwarter 3. Rydym yn rhagweld tanwariant o £32k ar ddiwedd y flwyddyn.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £138k ar Gostau Cyllido Cyfalaf ac y bydd £330k yn fwy o log yn cael ei dderbyn. Ar y cyfan, mae balansau arian parod dros ben y Cyngor a'r llog y mae wedi'i dderbyn wedi bod yn uwch na'r disgwyl ac mae'r CRT wedi elwa o hynny.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Mae'r gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yn £19,988k, mae'r gyllideb cyllid grant ar gyfer 2023/24 yn £6,205k, ac mae'r gyllideb cyfraniadau eraill yn £693k. Rydym yn rhagweld gorwariant o £542k ar wariant cyfalaf (ceir dadansoddiad manwl yn Atodiad B) ac rydym yn rhagweld y bydd incwm drwy gyfraniadau eraill £113k yn is oherwydd llai o wariant na'r disgwyl ar y prosiect Gofal Ychwanegol. Mae'r gorwariant ar wariant cyfalaf a'r incwm is drwy gyfraniadau eraill yn cael ei wrthbwyso gan incwm grant uwch o £2,191k. Rhagwelir tanwariant net o £1,536k ar gyfalaf. Bydd yr un faint yn cael ei dynnu o'r swm sy'n cael ei gyllido drwy gyfrif refeniw'r CRT. Yna, bydd y balans yma ar gael i gyllido prosiectau sydd wedi'u gohirio tân y flwyddyn nesaf.

Isod, ceir crynodeb o'r cyllid grant gwerth £8,396k yr ydym yn ei ragweld:-

| Ffynhonnell | Rhagolwg Chwarter 3 £ |
|---|---:|
| Y Gronfa Tai â Gofal (HCF) | 300,000 |
| CADW | 121,000 |
| Creu Lleoedd | 250,000 |
| Y Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro | 650,000 |
| Grant Tai Cymdeithasol (SHG) | 2,872,433 |
| Lwfans gwaith Trwsio Mawr (MRA) | 2,690,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2023/24 | 873,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2022/23 a ddygwyd ymlaen | 371,000 |
| Grant Diogelwch Tân | 269,000 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **8,396,433** |

Prif ffynhonnell y cyllid grant ychwanegol yn chwarter 3 yw ein cais llwyddiannus am Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol. Mae'r tabl isod yn nodi faint o Grant Tai Cymdeithasol yr oeddem yn ei ddisgwyl yn chwarter 2 a'r symiau diwygiedig yr ydym yn eu rhagweld ar gyfer y flwyddyn ar hyn o bryd yn chwarter 3:-

| Cynllun | Swm yn Chwarter 2 | Swm yn Chwarter 3 | Gwahaniaeth ers Chwarter 2 |
|---|---:|---:|---:|
| Safle hen Ysgol Niwbwrch | £277,500 | £277,500 | £0 |
| Lôn Lwyd, Pentraeth | £701,536 | £1,500,000 | £798,464 |
| Plas Alltran, Caergybi | £267,651 | £292,500 | £24,849 |
| Cae Braenar, Caergybi | £501,400 | £397,433 | (£103,967) |
| Ffordd Garreglwyd, Caergybi | £155,870 | £405,000 | £249,130 |
| Stad Y Bryn, Llanfaethlu | £207,100 | £0 | (£207,100) |
| **Cyfanswm** | **£2,111,057** | **2,872,433** | **£761,376** |

**9.2** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £1,900k yn cael ei rannu rhwng y gwaith i amnewid ceginau mewn 80 eiddo a gwaith cyfalaf sy'n seiliad ar alw pan fydd tenantiaethau'n newid. Dyrannwyd contract gwerth £484k ar gyfer y gwaith cynlluniedig yn ystod chwarter 4 2022/23. Mae £1,400k wedi cael ei glustnodi ar gyfer y gwaith cyfalaf sy'n cael ei gwblhau gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn bennaf pan fydd tenantiaeth yn newid. Mae'r gwaith SATC yn mynd rhagddo'n dda, ac roedd £1,535k wedi'i wario hyd at chwarter 3.

**9.3** Gwariant Risg Tân – Roedd y gyllideb gwerth £400k i fod i gael ei gwario ar waith ôl-weithredol i osod systemau llethu tân ym Maes y Coed, Porthaethwy, a Glan Cefni, Llangefni, yn ogystal â gwelliannau adrannu rhag tân yn y pedwar bloc o fflatiau codiad canolig sy'n rhan o'r stoc dai. Hefyd, mae'r gwaith cyfalaf yn cynnwys diweddaru'r systemau larwm tân a gosod drysau tân newydd. Mae'r gwariant hyd yma'n is na'r disgwyl, fodd bynnag, cwblhawyd y gwaith adrannu rhag tân yn ystod chwarter 3, ac mae disgwyl i'r ddau system llethu tân gael eu gosod yn ystod chwarter 4. Mae'r Gwasanaeth Tai wedi cadarnhau, er bod y gyllideb wedi'i hymrwymo, bod cyfanswm y gwariant yn ystod 2023/24 yn debygol o fod oddeutu £300k, sy'n golygu tanwariant o £100k yn 2023/24. Mae'r contractwr arbenigol sy'n gwneud y gwaith wedi derbyn cyfarwyddyd i gwblhau'r systemau llethu tân cyn dechrau diweddaru'r larymau tân.

**9.4** Gwariant Addasiadau Sector Cyhoeddus – Yn ystod chwarter 3, roedd y galw am addasiadau canolig neu fawr yn dal i fod yn uchel ac mae'r gwariant ar ddiwedd chwarter 3 yn awgrymu na fydd y gyllideb o £400k yn ddigonol. Rydym yn rhagweld gorwariant o £100k oherwydd y galw. Mae gwariant ar Addasiadau yn ddibynnol ar y galw ac mae'r gwaith hwn fel arfer yn golygu gosod lifftiau grisiau, cawodydd mynediad gwastad ac addasiadau i fynedfeydd.

**9.5** Gwariant Perfformiad Ynni – Rydym mewn ymgynghoriad ar hyn o bryd â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) cyn gosod paneli Solar PV i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'r gyllideb Perfformiad Ynni wedi gostwng o £1,000k i £600k oherwydd oedi. Yn anffodus, mae wedi bod, ac mae'n dal i fod, yn anodd cael cymeradwyaeth gan y DNO ar gyfer gwaith Solar PV mawr gan fod rhaid cryfhau'r rhwydwaith cyn dechrau ar y gwaith. Mae'r DNO wedi dechrau'r broses o drefnu diweddaru'r rhwydwaith mewn rhai ardaloedd, ond, yn anffodus, ni wyddys pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau. Rhagwelir na fydd unrhyw wariant yn ystod 2023/24, ac y bydd tanwariant o £600k ar y prosiect hwn yn ystod 2023/24. O ganlyniad i'r canlyniadau positif yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r DNO yn ystod chwarter 2 a 3, mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld y byddant wedi cwblhau'r gwaith o baratoi'r dogfennau tendr ar gyfer gosod y systemau Solar PV mewn nifer o ystadau yn ystod chwarter 4. Mae unrhyw gontract a ddyrennir yn annhebygol o gael ei gwblhau cyn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2023/24, fydd yn cael effaith negyddol ar wariant yn ystod y flwyddyn ariannol yma.

**9.6** Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw – Yn dilyn dyrannu contract ar gyfer ail gam y gwaith ym Mae Cemaes yn ystod chwarter 1, mae'r gyllideb cynnal a chadw cynlluniedig wedi'i hymrwymo'n llawn. Cychwynnodd y gwaith ar y safle ddiwedd mis Mehefin. Mae'r contract hwn, ynghyd ag ymrwymiadau gwariant a ddygwyd ymlaen o 2022/23, yn debygol o ddefnyddio'r gyllideb o £4,450k yn llawn. Mae'r Gwasanaethau Tai, yn amodol ar effaith unrhyw dywydd garw, yn disgwyl i'r gwariant gynyddu yn ystod chwarter 4 wrth i gynlluniau a chyfrifon terfynol nesáu at gael eu cwblhau.

**9.7** Gwariant Gwaith Amgylcheddol – Mae'r gyllideb o £700k yn cael ei rhannu rhwng dau brosiect. Cwblhawyd y cynllun i ddymchwel 30 garej ym Mro Tudur, Llangefni yn ystod chwarter 3. Mae'r ail brosiect yn ymwneud â gwella'r system gwaredu carthffosiaeth yng Ngharreglefn i gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'r gwaith hwn wedi datblygu cystal â'r disgwyl. Mae contractwr y Gwasanaethau priffyrdd wrthi'n gweithio ar y dyluniadau manwl i ddod o hyd i drefniadau carthffosiaeth eraill. Mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle tuag at ddiwedd chwarter 4, a rhagwelir tanwariant o £300k.

**9.8** Gwariant Contract Gwres Canolog – Yn ystod 2023/24 mae'r Gwasanaethau Tai yn gobeithio am newid tua 500 o fwyleri. Dyrannwyd contract ar gyfer y rhaglen newid bwyleri ar gyfer eleni yn ystod chwarter 1. Mae gwariant wedi cynyddu yn ystod chwarter 3 ac mae disgwyl i'r cynnydd hwn barhau yn chwarter 4. Mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld y bydd £1,100k yn cael ei wario yn ystod 2023/24. Mae'r £150k o danwariant a ragwelir yn bennaf oherwydd problemau yn ymwneud â chael mynediad at eiddo er mwyn cwblhau'r gwaith.

**9.9** Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd – Mae'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon ar gyfer chwarter 2 a chwarter 3 wedi'u rhestru isod ac mae Atodiad C yn cynnwys mwy o fanylion:-

Yn ystod chwarter 2, roedd disgwyl i'r £1,400k a ddyrannwyd ar gyfer ail gam cynllun Parc y Coed, Llangefni gael ei defnyddio'n llawn. Fodd bynnag, roedd gyda phryniant y safle ac felly rhagwelir tanwariant o £532k ar gyfer y flwyddyn.

Unwaith eto, yn ystod chwarter 2, roedd disgwyl i'r £1,200k a ddyrannwyd ar gyfer cynllun Plas Alltran, Caergybi gael ei ddefnyddio'n llawn, fodd bynnag cafwyd oedi oherwydd gwaith hanfodol nad oedd modd ei ragweld. Mae disgwyl i'r cynllun hwn lithro i ran gyntaf 2024/25, ac, felly, rhagwelir tanwariant o £356k yn 2023/24.

Cafwyd oedi gyda cychwyn y gwaith ar safle'r hen ysgol yn Niwbwrch o ganlyniad i orfod rhyddhau amod cynllunio. Mae'r tanwariant a ragwelwyd wedi cynyddu o £250k yn chwarter 2 i £388k yn chwarter 3 oherwydd yr oedi.

Nid oedd cynllun Stad Y Bryn, Llanfaethlu wedi'i gynnwys yn y gyllideb wreiddiol, fodd bynnag, penderfynwyd prynu'r tir ar y farchnad agored yn ystod 2023/24. Rhagwelwyd ar y dechrau y byddai'r safle wedi cael ei brynu ac y byddai'r gwaith wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol yma, ond nid yw'r pryniant wedi'i gwblhau'n ffurfiol eto. Disgwylir i'r pryniant o'r tirgael ei gwblhau'r ffurfiol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ond mae'r gwaith datblygu'n debygol o lithro i 2024/25. Rhagwelir gorwariant o £200k erbyn hyn, o gymharu â gorwariant o £400k yn chwarter 2 o ganlyniad i'r oedi gyda phryniant y tir.

Mae'r gwaith yn Ffordd Garreglwyd, Caergybi yn mynd rhagddo'n well na'r disgwyl. Rhagwelir gorwariant o £651k erbyn hyn ar ddiwedd chwarter 3, o gymharu â gorwariant tebygol o £401k yn chwarter 2.

Mae'r gwariant a ragwelir ar brynu hen dai Cyngor yn ôl ac adnewyddiadau wedi cynyddu £349k o gymharu â'r rhagolygon ar gyfer chwarter 3. Prynwyd un eiddo yn ychwanegol ac mae'r gost ar waith adnewyddu'n uwch na'r disgwyl. Felly, rhagwelir gorwariant o £1,749k, o gymharu â gorwariant o £1,400k yn chwarter 2.

Disgwylir £133k o orwariant ar y cynlluniau sydd yn y cyfnod cyn cynllunio ar hyn o bryd, sef Plas Penlan, Llangefni a Maes Mona, Llannerchymedd yn bennaf. Mae disgwyl i'r ceisiadau cynllunio ar gyfer y ddau gynllun yma gael eu cyflwyno yn 2024/25.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,107k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5,046k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £2,802k yn unig. Mae hyn yn rhoi balans o £9,305k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae’r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2024. Ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae’r Swyddog Monitro’n aelod o’r Tîm Arweinyddiaeth ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried yn y cyfarfod ar 13 Chwefror 2024. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae canlyniadau adroddiad monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i’r Panel Sgiwtini Cyllid. |
| **9** | Aelodau lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 3 2023/24
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 3 2023/24.
- Atodiad C – Cynlluniau Cyfalaf Adeiladu o’r Newydd a’r rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 3 2023/24

**Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2023/53 (fel y’i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2023).

**Atodiad A**

| *CYFRIF REFENIW TAI 2023/24* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2023/24** | **Cyllideb a broffilwyd hyd at Mis 9** | **Gwirioneddol hyd at Mis 9** | **Amrywiant hyd at Mis 9** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **Amrywiant a ragwelir ym Mis 6** | **Newid o Ragolwg Ch2** |
| **CYFRIF REFENIW** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Incwm** | | | | | | | | |
| Anneddau | (20,693,000) | (15,418,314) | (15,368,061) | 50,253 | (20,642,747) | 50,253 | (22,525) | 72,778 |
| Modurdai | (247,000) | (184,039) | (183,762) | 277 | (246,723) | 277 | (919) | 1,196 |
| Taliadau Gwasanaeth | (213,070) | (158,842) | (145,112) | 13,730 | (198,379) | 14,691 | (4,581) | 19,272 |
| Arall | (262,100) | (225,550) | (208,791) | 16,759 | (245,341) | 16,759 | 27,130 | (10,371) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 316,000 | 0 | 29,000 | 29,000 | 100,000 | (216,000) | 0 | (216,000) |
| **CYFANSWM INCWM** | **(21,099,170)** | **(15,986,745)** | **(15,876,727)** | **110,018** | **(21,233,190)** | **(134,020)** | **(895)** | **(133,125)** |
| **Gwariant heblaw am Waith Trwsio ar Chynnal a Chadw** | | | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 241,070 | 180,831 | 153,785 | (27,046) | 213,006 | (28,064) | (31,475) | 3,411 |
| Gweinyddu Rhenti | 543,340 | 407,518 | 400,192 | (7,326) | 537,534 | (5,806) | (4,820) | (986) |
| Rheoli Stadau | 644,500 | 483,394 | 405,937 | (77,457) | 568,343 | (76,157) | (93,445) | 17,288 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,763,630 | 1,251,024 | 1,213,857 | (37,167) | 1,928,630 | 165,000 | (53,454) | 218,454 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **3,192,540** | **2,322,767** | **2,173,771** | **(148,996)** | **3,247,513** | **54,973** | **(183,194)** | **238,167** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 5,470,600 | 4,103,008 | 3,670,684 | (432,324) | 5,397,293 | (73,307) | (64,756) | (8,551) |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 1,211,860 | 908,906 | 861,732 | (47,174) | 1,156,556 | (55,304) | (53,489) | (1,815) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 752,320 | 574,757 | 584,721 | 9,964 | 720,032 | (32,288) | 4,042 | (36,330) |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **7,434,780** | **5,586,671** | **5,117,137** | **(469,534)** | **7,273,881** | **(160,899)** | **(114,202)** | **(46,697)** |

| | Cyllideb Flynyddol 2023/24 | Cyllideb a broffilwyd hyd at Mis 9 | Gwirioneddol hyd at Mis 9 | Amrywiant hyd at Mis 9 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn | Amrywiant a ragwelir ym Mis 6 | Newid o Ragolwg Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 1,742,430 | 1,597,170 | 1,597,170 | 0 | 1,604,600 | (137,830) | (130,830) | (7,000) |
| Elw a Dderbynnir | (200,000) | (529,956) | (529,956) | 0 | (529,956) | (329,956) | (124,000) | (205,956) |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai | 100,090 | 0 | 0 | 0 | 100,090 | 0 | 0 | 0 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog | 785,550 | 0 | 0 | 0 | 785,550 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **2,428,070** | **1,067,214** | **1,067,214** | **0** | **1,960,284** | **(467,786)** | **(254,830)** | **(212,956)** |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,055,390** | **8,976,652** | **8,358,122** | **(618,530)** | **12,481,678** | **(573,712)** | **(552,226)** | **(21,486)** |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,043,780)** | **(7,010,093)** | **(7,518,605)** | **(508,511)** | **(8,751,512)** | **(707,732)** | **(553,121)** | **(154,611)** |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | | | |
| Gwariant 2023/24 | 19,988,000 | 12,957,740 | 13,361,858 | 404,118 | 20,529,424 | 541,424 | 1,889,802 | (1,348,378) |
| Cyllid grant | (6,205,000) | 0 | 0 | 0 | (8,396,000) | (2,191,000) | (1,680,000) | (511,000) |
| Cyfraniadau eraill | (693,460) | 0 | 0 | 0 | (580,381) | 113,079 | 0 | 113,079 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | 13,089,540 | 12,957,740 | 13,361,858 | 404,118 | 11,553,043 | (1,536,497) | 209,802 | (1,746,299) |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **5,045,760** | **5,947,647** | **5,843,253** | **(104,393)** | **2,801,531** | **(2,244,229)** | **(343,319)** | **(1,900,910)** |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (12,107,000) | | | | (12,107,000) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 5,045,760 | | | | 2,801,531 | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(7,061,240)** | **0** | **0** | **0** | **(9,305,469)** | **0** | **0** | **0** |

**CYLLIDEB CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI 2023/24**

**Atodiad B**

| | Cyllideb Flynyddol 2023/24 £ | Cyllideb a Broffilwyd i Mis 9 £ | Gwirioneddol i Mis 9 £ | Amrywiant i Mis 9 £ | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiant Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiant a ragwelir ym Mis 6 £ | Newid o Ragolwg Ch2 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Gwresogi Canolog | 1,250,000 | 805,000 | 692,909 | (112,091) | 1,100,000 | (150,000) | 0 | (150,000) |
| Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 4,450,000 | 2,635,000 | 2,634,238 | (762) | 4,450,000 | 0 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 450,000 | 0 | (450,000) | 0 | (600,000) | (500,000) | (100,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 400,000 | 174,654 | (225,346) | 400,000 | (300,000) | (100,000) | (200,000) |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd | 10,288,000 | 6,668,740 | 7,862,307 | 1,193,567 | 11,879,424 | 1,591,424 | 2,389,802 | (798,378) |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 273,000 | 347,498 | 74,498 | 500,000 | 100,000 | 100,000 | 0 |
| Risg Tân | 400,000 | 191,000 | 115,557 | (75,443) | 300,000 | (100,000) | 0 | (100,000) |
| SATC | 1,900,000 | 1,535,000 | 1,534,695 | (305) | 1,900,000 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **19,988,000** | **12,957,740** | **13,361,858** | **404,118** | **20,529,424** | **541,424** | **1,889,802** | **(1,348,378)** |

**CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2023/24**

**Atodiad C**

| Cynllun | Nifer yr Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2023/24 £ | Gwariant hyd C9 £ | Rhagolwg Gwariant C10 - 12 £ | Cyfanswm Gwariant a Ragwelir 2023/24 £ | Amrywiant a Ragwelir ym Mis 9 £ | Amrywiant a ragwelir ym Mis 6 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lôn Lwyd, Pentraeth | 10 | 2,250,000 | 0 | 2,250,000 | 2,250,000 | 0 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 55 | 250,000 | 78,517 | 30,000 | 108,517 | -141,483 | 0 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 1,200,000 | 644,367 | 200,000 | 844,367 | -355,633 | 0 |
| Ysgol Llaingoch, Caergybi | 26 | 4,000 | 0 | 0 | 0 | -4,000 | 0 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 500,000 | 818,460 | 100,000 | 918,460 | 418,460 | 501,500 |
| Parc y Coed, Llangefni Cam 1 | 12 | 990,000 | 961,583 | 0 | 961,583 | -28,417 | 0 |
| Clwb Cymdeithasol Biwmares | 6 | 408,000 | 320,883 | 87,117 | 408,000 | 0 | 29,000 |
| Adnewyddu 16 Uned | 0 | 750,000 | 1,182,315 | 300,000 | 1,482,315 | 732,315 | 500,000 |
| Prynu 16 Uned yn ól | 16 | 1,100,000 | 1,916,413 | 200,000 | 2,116,413 | 1,016,413 | 900,000 |
| Hen Safle Ysgol Niwbwrch | 14 | 500,000 | 11,961 | 100,000 | 111,961 | -388,039 | -250,000 |
| Hen Safle Ysgol Thomas Ellis | 43 | 50,000 | 23,405 | 0 | 23,405 | -26,595 | -27,193 |
| Parc y Coed, Llangefni Cam 2 | 10 | 1,400,000 | 668,057 | 200,000 | 868,057 | -531,943 | 0 |
| Adnewyddu Haulfryn a Cham 2 | 1 | 365,000 | 251,323 | 0 | 251,323 | -113,677 | -65,000 |
| Pen y Coed, Rhostrehwfa | 1 | 482,000 | 511,538 | 0 | 511,538 | 29,538 | 0 |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 9 | 0 | 0 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 400,000 |
| Ffordd Garreg Lwyd, Caergybi | 8 | 0 | 301,469 | 350,000 | 651,469 | 651,469 | 401,495 |
| Cynlluniau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio | | 39,000 | 172,017 | 0 | 172,017 | 133,017 | 0 |
| **Cyfanswm** | **238** | **10,288,000** | **7,862,307** | **4,017,117** | **11,879,424** | **1,591,424** | **2,389,802** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **29 CHWEFROR 2024** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2024/25** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

## 1. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB REFENIW 2024/25

### 1.1 Pwrpas

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2024/25. Bydd modd wedyn i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024. Dyma'r materion y mae angen cytuno arnynt:-

- Cyllideb Refeniw y Cyngor ac, yn sgil hynny, y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a ddiweddarwyd;
- Defnyddio unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

### 1.2 Crynodeb

Dengys y papur hwn gynigion manwl y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 y mae angen eu hystyried yn derfynol a chytuno arnynt, a'r effaith ddilynol ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Materion i'r Cyngor gytuno arnynt yw'r rhain a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac mae'n gosod y cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Serch hynny, dylid nodi y caiff adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac efallai, bryd hynny, bydd gwybodaeth am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy eglur.

## 2. ARGYMHELLION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2024/25

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Gytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y'i dangosir yn Adran 4 o Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £9.2m o falansau cyffredinol;
- Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1;
- Argymell i'r Cyngor llawn gyllideb net o £184.165m ar gyfer y Cyngor Sir ac, yn sgil hynny, cynnydd o 9.50% yn y Dreth Gyngor (8.6% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.9% ar gyfer yr Ardoll Tan) (£136.44 – Band D), gan nodi y caiff cynnig ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor ar 7 Mawrth 2024;

- Bod addasiad yn cael ei wneud ar gyfer unrhyw fân wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, gan ddefnyddio'r gyllideb wrth gefn gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2024/25, neu trwy wneud cyfraniad i neu o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn codi i 100% ac yn aros ar 100% ar gyfer tai gwag.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol. Mae'r gyllideb arfaethedig derfynol yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn i'r Cyngor ei ystyried.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2024/25 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Wrth lunio y gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut:- | Mae manylion unrhyw gynigion am arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd ar y gyllideb arfaethedig ac mae'r manylion i'w gweld yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y gyllideb arfaethedig derfynol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb derfynol 2024/25 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. | Yn sgil y gyllideb, bydd trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Bydd y rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ac ni ddylai'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol weld unrhyw / fawr ddim effaith ariannol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn ategu'r gyllideb arfaethedig derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (**gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA ac, fel y cyfryw, ystyriwyd sylwadau'r Swyddog. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| **5** | **Eiddo** | - |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | - |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 27 Chwefror 2024. Rhoddir canlyniad y cyfarfod ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses o osod y gyllideb. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Gweler Adran 2 yn yr adroddiad. |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Gyllideb Arfaethedig
- Atodiad 2 – Crynodeb o Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2024/25 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 23 Ionawr 2024
- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2024/25 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 16 Ionawr 2024
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 – 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 26 Medi 2023

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynigion ar gyfer cyllideb refeniw arfaethedig 2024/25 a dyma un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n sicrhau fod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.

**1.2.** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i nodi arbedion refeniw yn cael eu llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023, a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2025/26**

| | 2024/25 £'m | 2025/26 £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 174.569 | 177.710 |
| Pwysau Cyllidebol a Chwyddiant | 13.072 | 5.368 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **187.641** | **183.078** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan ragdybio cynnydd o 3.0% yn 2024/25 a 1.0% yn 2025/26) | 127.375 | 128.649 |
| Y Dreth Gyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2024/25 a 2025/26) | 50.335 | 52.852 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **177.710** | **181.501** |
| | | |
| **Gofynion Cyllido Ychwanegol / Y Gofyn am Arbedion** | **9.931** | **1.577** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog – Staff nad ydynt yn Athrawon | 3.5% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog – Athrawon | 5.6% | 2.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 4.9% | 1.6% |
| Noder – Mae'r ffigyrau ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyllid i gywiro'r gyllideb sail gan nad oedd y ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau yng nghyllideb 2023/24 yn ddigonol. | | |

**1.3.** Roedd y ffigyrau a nodwyd yn y CATC yn seiliedig ar ragdybiaethau a gwybodaeth a oedd ar gael pan luniwyd y CATC. Yn hytrach na darparu asesiad cywir o'r gofyn cyllidebol, pwrpas y CATC yw darparu asesiad lefel uchel o'r bwlch posib yn y gyllideb.

**1.4.** Pan luniwyd y gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd dyfarniad cyflog 2023/24 wedi cael ei gytuno, roedd chwyddiant wedi dechrau gostwng yn gyflym ac roedd y rhagdybiaethau ar gyfer chwyddiant yn llai tebygol o fod yn anghywir, ac roedd y prisiau ynni newydd ar gyfer y flwyddyn o Hydref 2023 i Fedi 2024 wedi cael eu derbyn. Roedd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn â'r gyllideb sail.

**1.5.** Roedd ffigyrau cyffredinol y setliad drafft a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r rhagolwg yn y CATC, er bod y ffigwr ar gyfer Ynys Môn ychydig yn is, a hynny oherwydd y ffordd mae'r fformiwla cyllido yn gweithio. Derbyniodd y Cyngor gynnydd o 2.5%, o gymharu â chynnydd o 3.0% a oedd wedi'i gynnwys yn y CATC.

**1.6.** Serch hynny, er gwaetha'r newidiadau hyn a'r ffaith fod y bwlch cyllido'n is nag a ragwelwyd yn y CATC, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau'n heriol yn 2024/25 a 2025/26, ac mae disgwyl i gostau barhau i gynyddu, oherwydd chwyddiant a chynnydd yn y galw, ond nid oes fawr o obaith y bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n ddigon i gwrdd â'r cynnydd mewn costau yn llawn.

## 2. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL

**2.1.** Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2024, trafododd y Pwyllgor Gwaith y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r setliad dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023.

**2.2.** Roedd y setliad dros dro ychydig yn is na'r disgwyl, gyda'r Cyngor yn derbyn £126.973m, sef cynnydd o £3.308m (2.67%) mewn termau ariannol ond, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n cael eu trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid i sylfaen y dreth, roedd y cynnydd wedi'i addasu yn £3.107m (2.51%).

**2.3.** Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £184.219m ar gyfer 2024/25 ac, ar sail yr AEF dros dro o £126.973m, byddai angen cynnydd o 10.9% yn y Dreth Gyngor yn ogystal â defnyddio £4.425m o falansau cyffredinol y Cyngor, i gydbwyso'r gyllideb.

**2.4.** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod angen gwarchod gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau Oedolion a Phlant.

**2.5.** Roedd y gyllideb arfaethedig yn cynnwys cyfyngu'r cynnydd chwyddiant ar gyfer cyllideb datganoledig ysgolion, gan olygu gostyngiad o £1.25m yn y gyllideb, ac roedd yn cynnwys targed arbedion o £1m a fyddai'n cael ei gyflawni trwy leihau'r gweithlu, peidio â defnyddio premiwm y Dreth Gyngor i gyllido prosiectau tai am un flwyddyn, gan arbed £1.2m, yn ogystal ag arbedion eraill yn y gyllideb a phrosiectau cynhyrchu incwm gwerth £1.327m.

**2.6.** Er nad yw'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) wedi'i fwriadu fel mesur o lefel ddisgwyliedig cyllideb refeniw net y Cyngor, mae'n rhoi rhyw syniad p'un a yw lefel cyllideb y Cyngor yn rhesymol i'r Cyngor. Mae'r AGS ar gyfer 2024/25 yn £175.877m ac mae'r gyllideb arfaethedig, felly, yn 104.7% o'r AGS.

## 3. PWYLLGOR SGRIWTINI

**3.1.** Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliad dros dro a'r setliad terfynol, bu'n rhaid cwtogi amserlen y gyllideb ar gyfer 2024/25 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid hefyd archwilio cynigion buddsoddi gwasanaethau yn fanwl yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2024, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Ionawr 2024.

**3.2.** Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y gyllideb arfaethedig gychwynnol 2024/25 yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2024. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cyllideb arfaethedig gychwynnol y Pwyllgor Gwaith..

**3.3.** Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2024, rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyriaeth bellach i'r gyllideb arfaethedig derfynol, a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

## 4. Y BROSES YMGYNGHORI

**4.1.** Er bod yr amserlen rhwng cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r dyddiad terfynol ar gyfer gosod y Dreth Gyngor yn un fer, cynhaliwyd ymgynghoriad byr, a gofynnwyd i breswylwyr ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â'u blaenoriaethau gwariant a chyllido. Oherwydd yr amserlen fer, cyfyngwyd ar y nifer a'r math o gwestiynau a ofynnwyd er mwyn cael digon o amser i ddadansoddi'r ymatebion.

**4.2.** Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'w weld yn Atodiad 2. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi o'r ymgynghoriad:-

- O'r holl ymatebion a dderbyniwyd, roedd addysg ac ysgolion yn un o'r pum prif flaenoriaeth i 77%, wedi'i ddilyn gan oedolion a phlant bregus, 68%, a chasglu gwastraff ac ailgylchu, 66%.

- Roedd 61% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad:-

  **"Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer y gyllideb yn ceisio diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adennill costau gwasanaeth drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, parhau i fuddsoddi, a lle bo'n bosib, moderneiddio a thrawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau"**

- Roedd 49.3% o ymatebwyr yn fodlon talu mwy mewn ffioedd a thaliadau er mwyn gwarchod gwasanaethau, ond ni fyddai 50.7% yn fodlon gwneud hynny.
- Roedd 79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig i ddefnyddio cyllid ychwanegol o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a thai gwag i gyfrannu at gyllido gwasanaethau yn 2024/25.
- Ymateb amrywiol a gafwyd i'r cwestiwn yn gofyn a oedd preswylwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i wneud arbedion, ac roedd llai o gefnogaeth i gynigion a fyddai'n effeithio ar Ysgolion neu'r Gwasanaethau Oedolion.
- Dim ond 29% oedd o blaid y cynnydd arfaethedig o 10.9% yn y Dreth Gyngor, ac nid oedd 36% yn dymuno gweld unrhyw gynnydd, tra bod 88% yn cefnogi cynnydd o 5% neu lai.
- Er mwyn cydbwyso'r gyllideb, roedd 36% yn dymuno i'r diffyg yn y gyllideb gael ei gyllido'n gyfan gwbl o'r cronfeydd wrth gefn, gyda 84% yn dymuno i o leiaf 50% o'r diffyg gael ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn.
- O ran y gwasanaethau y byddai'r rheiny a ymatebodd yn fodlon iddynt gael eu cwtogi, roedd y gwasanaethau mwy dewisol eu natur (Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Twristiaeth a Llyfrgelloedd) ar ben y rhestr, ac roedd ymatebwyr yn dymuno gweld gwasanaethau mwy hanfodol (gofal cymdeithasol, ysgolion, tân, a chasglu gwastraff) yn cael eu gwarchod.

## 5. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

**5.1.** Pan luniwyd y gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd y Cyngor yn disgwyl penderfyniad terfynol ynglŷn â chyllidebau cyrff sy'n codi ardoll a sefydliadau eraill sy'n derbyn cyfraniad gan y Cyngor. Mae Tabl 2 isod yn dangos yr effaith ar gyllideb y Cyngor ar ôl gwneud addasiadau i adlewyrchu penderfyniadau terfynol y cyrff dan sylw.

**5.2.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi y bydd cynghorau yn Lloegr yn derbyn £600m o gyllid ychwanegol yn 2024/25, a chaiff hynny ei gadarnhau'n ffurfiol yng nghyllideb y Canghellor ar 6 Mawrth 2024. Bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn £25m o gyllid canlyniadol yn sgil y cyllid ychwanegol hwn, ac maent wedi cadarnhau y caiff £10.6m o'r cyllid ychwanegol ei ddefnyddio i adfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i lefel 2023/24. Mae'r £14.4m sy'n weddill wedi cael ei ddyrannu gan ddefnyddio fformiwla'r setliad Llywodraeth Leol. Effaith y cyllid ychwanegol hwn yw cynnydd o £332k yn y Cyllid Allanol Cyfun.

**5.3.** Mae un pwynt yn weddill nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol, ac mae'n ymwneud â'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniad y cyflogwr tuag at bensiynau athrawon a phensiynau'r gwasanaeth tân. Y disgwyl o hyd yw y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gyllido'r costau ychwanegol yn llawn ac y bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn cyllid ychwanegol i'w drosglwyddo i'r Cynghorau. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y ddwy lywodraeth a gallai olygu bod y Cyngor yn derbyn cyllid ychwanegol yn 2024/25.

**5.4.** Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo 3 grant refeniw i'r setliad terfynol :-

- Gweithredu Fframwaith Perfformiad a Gwelliant - £40,000;
- Darparu Atal Llifogydd - £225,000;
- Claddedigaethau Plant - £16,240.

O ystyried pa mor hwyr derbyniwyd yr hysbysiad, fe ymgorfforir y grantiau yma i gyllideb y gwasanaeth perthnasol yn 2024/25 ac fe adolygir y gyllideb yn ystod 2024/25 a'i addasu'n unol a hynny yn 2025/26, petai'r swm a drosglwyddir i mewn i'r gyllideb ddim ei angen yn ei gyfanrwydd.

**5.5.** Adolygwyd nifer o gyllidebau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig derfynol ac mae hyn wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r gyllideb arfaethedig derfynol. Dyma'r newidiadau:-

- Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi adolygu ei gyllideb arfaethedig derfynol ac mae ardoll y Cyngor wedi gostwng gan £87k yn sgil hynny.

- Derbyniwyd y prisiau ynni ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2023 a Medi 2024 ac mae'r prisiau wedi gostwng. Adolygwyd lefel chwyddiant ar gyfer 2024/25, ac aseswyd y gellir gostwng y cyllidebau ynni gan £220k.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cap ar y lluosydd Trethi Annomestig ac mae hyn, ynghyd â'r cynllun rhyddhad trosiannol, yn golygu gostyngiad o £84k yn y gyllideb.

- Pan benderfynwyd ar y gyllideb i gyllido cost Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, roedd disgwyl i nifer yr hawlwyr gynyddu ar ddiwedd cyfnod yr haf 2023. Mae'r adolygiad ar ddiwedd chwarter 3 blwyddyn ariannol 2023/24 yn dangos na welwyd y cynnydd disgwyliedig yn nifer yr hawlwyr. Mae hyn yn golygu y gellir gostwng y gyllideb gan £150k.

- Roedd y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn cynnwys £2.88m i gwrdd â chost galw ychwanegol yn y Gwasanaethau Oedolion, i fynd i'r afael â bwriad Llywodraeth Cymru i dorri Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac am fod disgwyl cynnydd uwch na chwyddiant mewn costau. Dengys y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 ostyngiad sylweddol yn y gorwariant a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth. Eitemau unwaith ac am byth, gan gynnwys swyddi gweigion ac incwm cronnus o flynyddoedd blaenorol, sydd i gyfrif yn bennaf am y newid ac nid ydynt yn effeithio ar gyllideb 2024/25, ond mae rhai newidiadau'n golygu bod angen llai o gyllideb ar gyfer 2024/25. Mae adfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i lefelau 2023/24 (gweler paragraff 5.2 uchod), ynghyd â newidiadau eraill, yn golygu bod angen £500k yn llai o gyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion.

**5.6** Mae effaith y newidiadau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig y Cyngor**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol 2024/25** | | **184.219** |
| **Addasiadau** | | |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | (0.087) | |
| Chwyddiant yn gysylltiedig ag Ynni | (0.220) | |
| Lluosydd Trethi Annomestig | (0.084) | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | (0.150) | |
| Pwysau ar Gyllideb y Gwasanaethau Oedolion | (0.500) | |
| Grantiau sy'n trosglwyddo i'r Setliad | 0.281 | |
| | | (0.760) |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig 2024/25** | | **183.459** |
| **Cyllidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun – dros dro | 126.973 | |
| Cyllid Allanol Cyfun Ychwanegol | 0.332 | |
| Grantiau sy'n trosglwyddo i'r Setliad | 0.281 | |
| | | 127.586 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm ar ail gartrefi a thai gwag) | | 52.821 |
| Cronfeydd wrth Gefn | | 4.425 |
| **Cyllid Diwygiedig 2024/25** | | **184.832** |
| **Cyllid sy'n weddill o gymharu â'r Gyllideb Refeniw Net** | | **1.373** |

**5.7** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried nifer o opsiynau i sicrhau fod y cyllid diwygiedig yn cyfateb i'r gyllideb refeniw net:-

- Gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 8.02%, bydd hyn yn defnyddio'r holl gyllid sy'n weddill o gymharu â'r gyllideb refeniw net;
- Gostwng yr arbedion arfaethedig yn y gyllideb gan £1.373m. Byddai hyn yn cynyddu'r gyllideb refeniw net i £184.832m cyfateb i'r cyllid diwygiedig;
- Gostwng y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb, o £4.425m i £3.052m;
- Cyfuniad o'r 3 opsiwn a nodir uchod.

**5.8** Er bod y Pwyllgor Gwaith yn deall y pwysau sy'n wynebu teuluoedd oherwydd yr argyfwng costau byw, maent yn cydnabod hefyd bod rhaid iddynt ystyried yr effaith ar gyllideb 2025/26, yn ogystal â sicrhau bod lefel y cynnydd yn cydbwyso cyllideb 2024/25. Mae gosod Treth Gyngor is yn effeithio ar y man cychwyn ar gyfer 2025/26, a bydd gosod lefel y Dreth Gyngor yn rhy isel yn cynyddu'r diffyg yng nghyllideb 2025/26, gan wanhau sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor.

**5.9** Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion arfaethedig yn gyraeddadwy ac mae'r effaith ar y Cyngor wedi cael ei asesu cyn cytuno ar y cynigion. Cyfyngu ar y cynnydd i gwrdd â chwyddiant mewn ysgolion yw'r cynnig sy'n effeithio fwyaf ar ddarparu gwasanaethau. Mae sefyllfa ariannol pob ysgol yn amrywio ac mae'n ddibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys newid yn niferoedd y disgyblion, cyllid grant ychwanegol tu allan i'r gyllideb graidd a lefel balansau ysgolion. Mae'r broses sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i osod y gyllid wedi nodi fod nifer fechan o ysgolion yn cael cryn drafferth gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 ac, er na fyddai gostwng y cyfyngiad arfaethedig yn datrys problemau yn gysylltiedig â'r gyllideb ym mhob ysgol yn 2024/25, byddai unrhyw ostyngiad yn cynorthwyo i liniaru problemau ariannol ysgolion.

**5.10** Bydd lefel sylweddol o arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso cyllideb 2024/25 a dyma'r lefel arfaethedig uchaf ers nifer o flynyddoedd. Ar sail y rhagamcanion presennol, ni fydd yn bosib defnyddio arian wrth gefn eto yn 2025/26 i gyfrannu at y cyllid cyffredinol. Gallai gostwng y cyfraniad yn 2024/25 olygu y byddai modd defnyddio arian wrth gefn eto yn 2025/26, ond nid i'r un graddau. Bydd hyn, unwaith eto, yn lleihau'r diffyg cyllidebol fydd yn wynebu'r Cyngor yn 2025/26, gan ganiatáu i wasanaethau gael eu cwtogi'n fwy graddol yn hytrach na gorfod torri amrywiaeth eang o wasanaethau mewn blwyddyn. Serch hynny, dylid nodi nad yw defnyddio arian wrth gefn ond yn gohirio'r angen i ostwng cyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor, ac nid yw defnyddio'r cronfeydd yn ateb parhaol i'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

**5.11** Ar ôl ystyried yr holl ffactorau uchod, mae cyllideb arfaethedig terfynol y Pwyllgor Gwaith yn addasu'r gyllideb arfaethedig cychwynnol fel a ganlyn:-

- Bod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn cael ei ostwng i 9.5%, ac mae 0.9% yn gysylltiedig â'r cynnydd yn ardoll yr Awdurdod Tân, a 8.6% yn gysylltiedig â gofyn cyllidebol y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o £136.44 yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, a chyfanswm y gost i eiddo Band D fydd £1,572.30. Mae hyn yn gostwng cyfanswm incwm y Dreth Gyngor gan £667k.

- Mae'r cyfyngiad ar y cynnydd i ysgolion yn cael ei ostwng o 2.5% i 1.5%. Mae hyn yn cynyddu cyllideb gyffredinol ysgolion gan £498k o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol.

- Nad yw'r cynigion arbedion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (£100k) yn cael eu gweithredu yn 2024/25.

- Bod £50k o'r arbedion arfaethedig ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth gofal cymdeithasol anstatudol yn cael eu cadw er mwyn cyllido'r' costau trosiannol yr eir iddynt wrth ail-fodelu'r gwasanaeth.

- Ychwanegu £46k i'r gyllideb glanhau toiledau cyhoeddus i gwrdd a'r costau ychwanegol yn dilyn ail-dendro'r gwasanaeth.

- Bod y cynnig i leihau oriau agor y Canolfannau Hamdden yn cael ei addasu i ganiatáu i Ganolfan Hamdden Amlwch barhau i aros ar agor tan 3y.p., yn hytrach na cau am 1y.p. fel nodwyd yn y gyllideb arfaethedig cychwynnol, ar gost ychwanegol o £12k.

**5.12** Mae Tabl 3 isod yn dangos cynnig y gyllideb derfynol, ar ôl gwneud yr addasiadau uchod:-

**Tabl 3**

**Y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2024/25**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig Arfaethedig 2024/25 yn unol â Thabl 2** | | **183.459** |
| **Addasiadau Terfynol** | | |
| Gostwng y Cyfyngiad ar Chwyddiant i Ysgolion i 1.5% | | 0.498 |
| Addasiad i Gynigion Arbedion | | 0.150 |
| Cyllideb ychwanegol ar gyfer glanhau toiledau cyhoeddus | | 0.046 |
| Addasu oriau agor Canolfan Hamdden | | 0.012 |
| Balans cyllid i Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol | | (0.001) |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig ar gyfer 2024/25** | | **184.164** |
| **Cyllidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 127.586 | |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiwm ar Ail Gartrefi a Thai Gwag) | 52.153 | |
| Arian wrth Gefn | 4.425 | |
| **Cyllid Diwygiedig ar gyfer 2024/25** | | **184.164** |

## 6. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**6.1.** O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol arfaethedig.

**6.2.** Mae amcangyfrifon yn y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'r rhagdybiaethau'n cynnwys elfen o risg. Gellir lliniaru effaith y risg hwn drwy lunio cynlluniau a chyllidebau wrth gefn a chreu cronfeydd wrth gefn ariannol.

**6.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon yn y gyllideb yn cyfeirio'n unig at p'un a ydynt wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai bod elfen o risg ynghylch p'un a fydd cynlluniau'n cael eu cyflawni neu dargedau'n cael eu cyrraedd. Mae gwahanol risgiau i'r gyllideb yn cael eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant Tâl** – Mae risg chwyddiant yn isel pan fydd lefelau chwyddiant yn isel a'r newid cyffredinol yn y raddfa chwyddiant yn fychan, a dyna fu'r achos am nifer o flynyddoedd. Ni wnaed cynnig tâl ar gyfer staff NJC ar gyfer 2024/25 ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi dweud eto beth fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer Athrawon o Fedi 2024, felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â chwyddiant tâl a, chan fod y bil cyflogau yn fwy na £100m, gallai camgymeriad o 1% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant tâl arwain at ddiffyg o £1m yn 2024/25. Mae'r risg yn cael ei liniaru gan fod y Cyngor wedi creu cronfa wrth gefn glustnodedig i gyllido unrhyw bwysau oherwydd chwyddiant. Byddai'r cyllid yn cael ei ryddhau i gyllido unrhyw anghenion ychwanegol yn y gyllideb cyflogau, a byddai'r gyllideb hirdymor yn cael ei chywiro yn 2025/26.

- **Risg Chwyddiant Prisiau –** Roedd y mesur chwyddiant cyffredinol (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)) ar ei uchaf ym mis Rhagfyr 2022, a dechreuodd ostwng yn sylweddol yn ystod 2023, a rhagwelir y bydd chwyddiant yn neu o gwmpas 2% erbyn canol neu ddiwedd yr haf. Nid oedd disgwyl i'r CPI ddisgyn i 2% mor gyflym pan osodwyd y gyllideb gychwynnol ac, felly, os yw chwyddiant yn gostwng yn arafach na'r disgwyl, mae darpariaeth ddigonol yn y gyllideb i gwrdd â'r risg hwn. Serch hynny, nodir y gallai chwyddiant ar gyfer rhai mathau o wariant fod yn uwch (bwyd, ynni, deunyddiau adeiladu) a gallai'r Cyngor wynebu chwyddiant gwirioneddol sy'n wahanol iawn i ffigwr y CPI. Mae'r Cyngor yn cael ei warchod rhag y risg i ryw raddau gan fod y rhan fwyaf o'n contractau mwyaf (prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd, casglu gwastraff ac ati) yn defnyddio mynegeion chwyddiant o fis Medi, Hydref neu Dachwedd 2023 i benderfynu ar chwyddiant yn 2024/25. Gan fod y ffigyrau hyn yn hysbys, maent wedi'u hymgorffori yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25.
- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw blwyddyn unigol yn sgil y llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn nodi bod rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad yn y lle cyntaf, ac nid yw enillion ar fuddsoddiadau'n gymaint o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly, yn ddibynnol ar enillion uchel ar fuddsoddiadau. Mae cyfraddau llog wedi aros yn uchel, ac mae'r Cyngor wedi derbyn enillion o dros 5% ar fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog derbyniadwy wedi'i ymgorffori yn y gyllideb, ond mae risg na fydd y gyllideb yn cael ei gwireddu os yw cyfraddau llog yn dechrau gostwng yn gyflym, neu os yw'r cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi'n is na'r disgwyl. Mae'r mwyafrif o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfradd sefydlog ac ni fyddant yn newid os bydd cyfraddau llog yn codi. Ystyrir, felly, bod y risg cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y gorffennol mae'n risg ddigolledol ar gyfer risg chwyddiant, oherwydd os yw un yn cynyddu, mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.
- **Risg Grantiau –** Dyma risgiau sy'n gysylltiedig â'r nifer fawr o grantiau penodol a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru (LlC), neu gyrff eraill, ac maent yn darparu dros £25m o gyllid ychwanegol. Dengys y setliad terfynol y bydd y rhan fwyaf o'r grantiau gan LlC aros ar lefel 2023/24, neu byddant yn cael eu gostwng ar lefel Cymru gyfan. Nid yw lefel y cyllid grant penodol ar gyfer Ynys Môn yn eglur, ac mae hynny'n wir ar gyfer yr holl grantiau. Yn ôl y rhagolygon cychwynnol, bydd cyllid grant i ysgolion rhwng 8% a 10% yn is nac yn 2023/24. Er mai'r ymateb cyntaf yw dweud bod rhaid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd pan fydd grant yn dod i ben, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd hyn yn bosib pan fydd termau contractau'n golygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r incwm, neu gallai olygu talu costau diswyddo nad ydynt yn cael eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r Cyngor yn penderfynu bod rhaid parhau â'r gwariant gan fod y gweithgaredd a gyllidir yn bwysig iawn i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn meddu ar y wybodaeth orau ar gyfer bob grant, ond ni ellir diystyru newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn gyfan gwbl.
- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 5% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio cynnydd o hyd at 5%. Os yw elastigedd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gallai hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Gallai'r argyfwng costau byw gael effaith ar incwm a gynhyrchir gan wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, oherwydd gallai defnyddwyr ddewis gostwng eu gwariant ar y gwasanaethau hyn nad ydynt yn hanfodol. Bydd angen monitro'r cyllidebau net yn ofalus ac, os bydd rhaid, gwtogi gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm.

- **Risg yn gysylltiedig â'r Galw –** Gall nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagdybio rhai a'u cynnwys wrth osod y gyllideb, e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn anoddach eu darogan a gall cynnydd bychan mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaeth yn unol â lefelau presennol, a bydd y balansau cyffredinol, neu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig mewn rhai achosion, yn cwrdd â chynnydd yn y galw. Mae cyllideb 2024/25 yn seiliedig ar y galw presennol am wasanaeth ym maes gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd, er bod risg y gallai'r galw barhau i gynyddu, tu hwnt i'r gyllideb, yn 2024/25. Byddai hyn yn golygu fod y gwasanaethau hynny sy'n cael eu heffeithio yn gorwario a byddai'n rhaid cyllido'r gorwariant o arian wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.
- **Risg Optimistiaeth –** Yn y gorffennol, y risg mwyaf o dan yr amgylchiadau presennol, mae'n debyg, yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion yn rhy optimistaidd ynglŷn â'r arbedion a wneir, neu na fydd y galw am wasanaethau, a gofal cymdeithasol yn benodol, yn cynyddu'n sylweddol. Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys dros £2.3m o arbedion y bydd rhaid eu cyflawni, ac mae'n cynnwys targed o arbed £1m trwy gwtogi staff, gyda'r arbedion hynny'n cael eu canfod pan ddaw swyddi'n wag. Os na fydd y targed arbedion yn cael ei gyflawni, bydd yn arwain at orwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 a byddai'r gorwariant hwnnw'n cael ei gyllido o arian wrth gefn y Cyngor.
- **Y risg o fod yn rhy ofalus –** Mae'r risg hwn yn cyferbynnu â'r risg optimistiaeth: y perygl ein bod yn rhy ofalus wrth lunio ein cyllidebau a'u bod, felly'n uwch na'r gofyn, a byddai hynny'n arwain at osod y Dreth Gyngor sy'n uwch na'r gofyn, rhywbeth y mae Aelodau'n awyddus i'w osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses ar gyfer gosod y gyllideb a bod y gyllideb yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob gwasanaeth, yn seiliedig ar sefyllfa gyfredol y ffactorau perthnasol.
- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Pan osodir sylfaen y dreth, cydnabyddir y gall nifer y tai gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, fel y cyfrwy, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sy'n cael eu cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor petai'r niferoedd yn gostwng yn sylweddol. Er hynny, dylid nodi bod nifer y tai gwag a ddefnyddiwyd i gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 417 eiddo ym mis Hydref 2022 i 431 eiddo ym mis Hydref 2023, ac roedd nifer yr ail gartrefi wedi gostwng o 2,724 i 2,443. Mae sawl ffactor yn effeithio ar nifer yr ail gartrefi, ond efallai bod cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 50% i 75% ym mis Ebrill 2023 wedi cyfrannu at y newid ac, oherwydd hynny, mae codi'r premiwm ar ail gartrefi o 75% i 100% yn creu risg sylweddol yn 2024/25. Gallai'r cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo, h.y. un o ddibenion cynyddu'r premiwm, ond, gall olygu bod mwy o berchnogion yn peidio â thalu neu'n osgoi talu trwy drosglwyddo i drethi busnes, neu ddefnyddio dulliau eraill i osgoi talu. I linau'r risg, cyflogir staff ychwanegol i adnabod achosion o osgoi talu trethi ac, yn sgil hynny, sicrhau fod llai o bremiwm yn cael ei golli. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfan o'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol yn yr incwm yn arwain at gwtogi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y mentrau hyn yn y dyfodol.

  **Incwm y Dreth Gyngor –** Mae incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sail y dreth ym mis Tachwedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sail y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth i eithriadau a disgowntiau person sengl gael eu caniatáu. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn, ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y swm gwirioneddol a gesglir a'r gyllideb.

  Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar raddfa gasglu'r Cyngor hefyd, wrth i fwy o deuluoedd wynebu problemau ariannol oherwydd bod prisiau'n codi. Gallai hyn arwain at golled ariannol yn 2024/25, neu yn y dyfodol, pan fydd rhaid, yn y pendraw, ddileu dyledion nad oes modd eu casglu.

**6.4.** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod, a'r camau lliniaru, barn y Swyddog Adran 151 yw bod y cyllidebau'n gadarn ac yn gyraeddadwy, ac mae lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig presennol y Cyngor yn ddigon i liniaru'r risgiau a nodwyd.

## 7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

**7.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn ymgorffori nifer o ragdybiaethau ynglŷn â lefelau incwm a gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ddieithriad, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o risgiau ariannol, a chyfeirir atynt ym mharagraff 5 uchod.

**7.2.** Mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 adolygu unrhyw gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn yn eu cyfanrwydd, ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y tymor canolig, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen i ddefnyddio adnoddau unwaith ac am byth.

**7.3.** Cymerir safbwynt cadarn ar reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cronfeydd unwaith ac am byth yn ddigonol i gyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol.

**7.4.** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiad uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosib. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor canolig a hir y Cyngor, ac i arbedion gael eu gweithredu mewn ffordd raddol a strwythuredig dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser y ceir gwariant neu orwariant annisgwyl, oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i ymdopi â'r pwysau hwn.

**7.5.** Ar 31 Mawrth 2023, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £14.039m, ac mae hyn yn cyfateb i 8.04% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2023/24, neu 11.29% o beidio â chynnwys y gyllideb ddatganoledig ysgolion. Yn ystod y flwyddyn, dyranwyd £3.78m i gyllido cyllideb 2023/24 ac, ar ôl ystyried y sefyllfa ariannol ar gyfer 2023/24 a chaniatáu ar gyfer trosglwyddo gwerth £2.825m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol, rhagwelir balans o £15.219m. Ar ôl caniatáu ar gyfer defnyddio £4.425m fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25, byddai'r balans diwygiedig yn disgyn i £10.79m, neu 5.88% o gyllideb refeniw net 2024/25.

**7.6.** Mae trosglwyddo'r arian wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol, a defnyddio'r cronfeydd hyn yn ystod y flwyddyn wedi gostwng y balans o £19.637m ar ddechrau 2023/24 i £14.038m, sef y lefel a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7.7.** Roedd gan ysgolion falansau gwerth £6.751m ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023/24, ond mae disgwyl iddynt ostwng i £3.799m erbyn diwedd 2023/24. Mae disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r balansau hyn i gyllido cyllideb 2024/25.

**7.8.** Mae lefel y balansau cyffredinol yn fater i'r Cyngor benderfynu arno, yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor. Serch hynny, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mae barn yn amrywio ynglŷn â p'un a ddylai'r gyllideb refeniw net eithrio'r gyllideb ddatganoledig ysgolion, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i gwrdd â chostau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25.

**7.9.** Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2024/25 os na fydd digon o gyllid yn y gyllideb refeniw arfaethedig i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn 2024/25.

## 8. Y DRETH GYNGOR

**8.1.** Yn 2023/24, roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn £1,435.86, y 18fed o'r 22 Awdurdod yng Nghymru, ac mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,541. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Cymhariaeth o Daliadau Dreth Gyngor Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D 2023/24 £ | Y swm uwch na / o dan Ynys Môn £ | Canran uwch na / o dan Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,435 | | |
| Gwynedd | 1,603 | + 168 | 11.65 |
| Conwy | 1,580 | + 145 | 10.10 |
| Sir Ddinbych | 1,535 | + 100 | 6.96 |
| Sir y Fflint | 1,522 | + 87 | 6.02 |
| Wrecsam | 1,454 | + 19 | 1.32 |

**8.2.** Cyllideb y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth a'r premiwm) yw £47.63m. Felly, mae bob 1% o gynnydd yn creu swm ychwanegol o £476k.

**8.3.** Ar ôl ystyried ffigwr disgwyliedig y setliad terfynol, sef £127.305m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £183.551m (gweler Atodiad 2) a defnyddio £4.093m o gronfeydd wrth gefn, byddai angen £52.153m o gyllid Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai angen cynnydd o 9.50% yn y Dreth Gyngor, gan olygu fod y tâl ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,572.30, sef cynnydd o £136.44, neu £2.62 yr wythnos.

## 9. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**9.1.** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

**9.2.** Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 10. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**10.1.** Fel y nodwyd ym mharagraff 1, mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ym mis Medi 2023.

**10.2.** Y prif faes sy'n creu ansicrwydd o ran y SATC wrth symud ymlaen yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn ffactor sylweddol hefyd.

**10.3.** Mae'r SATC a ddiweddarwyd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 i'w weld yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**

**Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 a 2026/27**

| | **2025/26 £'m** | **2026/27 £'m** |
|---|---:|---:|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen<br>Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 184.164<br>6,820 | 183.619<br>5.500 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **190.984** | **189.119** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan dybio cynnydd o 1.0% yn 2025/26 a 2.0% yn 2026/27)<br>Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2025/26 a 4% 2026/27) | (128.862)<br>(54.757) | (131.439)<br>(56.947) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(183.619)** | **188.386** |
| | | |
| **Cyllid Ychwanegol Gofynnol / Arbedion Gofynnol** | **7.365** | **0.733** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog – Staff nad ydynt yn Athrawon | 2.0% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog - Athrawon | 2.4% | 2.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 1.7% | 2.0% |

**10.4.** Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a all newid wrth i ni symud tuag at 2025/26, ond dengys y cynllun y bydd angen torri gwariant y gyllideb refeniw net yn sylweddol yn 2025/26, swm o thua £7m. Unwaith eto, gellir gwrthbwyso hyn yn rhannol trwy ddefnyddio mwy o gyllid o'r arian wrth gefn ond, unwaith eto, nid yw hyn ond yn gohirio'r angen i dorri'r gyllideb tan 2026/27.

**10.5.** Mae sefyllfa cyllid cyfalaf hefyd yn cael effaith ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol, gan nad yw lefel bresennol y cyllid yn ddigon i gynnal adeiladau a ffyrdd y Cyngor i'r safon bresennol a buddsoddi mewn cerbydau a chaledwedd TG newydd. Bydd diffyg cyllid cyfalaf yn golygu bod costau trwsio a chynnal a chadw holl asedau'r Cyngor yn cynyddu wrth i'w hoes ddefnyddiol gael ei ymestyn. Bydd rhaid ystyried buddsoddi a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal, wrth leihau'r costau ychwanegol a fydd yn disgyn ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol.

**10.6.** Mae'r sefyllfa'n gwella yn 2026/27, gyda'r disgwyliad y bydd chwyddiant wedi gostwng yn ôl i darged Banc Lloegr o 2% ac y bydd y cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â chwyddiant. Y newid anhysbys fydd galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd, a all roi pwysau sylweddol ar gyllidebau pe baent yn cynyddu. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw yn effeithio ar y ffigyrau a ragwelir yn Nhabl 5 uchod.

**10.7.** Cyflwynir SATC a ddiweddarwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy a'i bod yn adlewyrchu'r galwadau a wynebir gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai parhad yr argyfwng costau byw yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Nid yw'r sefyllfa ariannol a wynebir gan y Cyngor yn unigryw i Fôn, mae'r 22 gyngor arall yng Nghymru'n wynebu'r un sefyllfa, yn ogystal â mwyafrif helaeth o gynghorau yn Lloegr.

**11.2.** Mae'r setliad i lywodraeth leol yn unol â'r rhagolygon ac nid yw'n ddigon i gwrdd â chostau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant uchel, dyfarniadau cyflog a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Fel y rhagwelwyd, er mwyn gosod cyllideb gytbwys tra'n cynnal gwasanaethau a darparu ar gyfer cynnydd yn y galw, yr unig ddewis sydd gan y Cyngor yw torri'r gyllideb, yn ogystal â chynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.

**11.3.** Mae sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn dal yn gymharol gryf, er bod lefel y balansau a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi lleihau yn ystod 2023/24 ac, er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2024/25 yn strategaeth cymharol ddiogel, nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir. Byddai'n bosib defnyddio cronfeydd wrth gefn, i raddau llai, i gydbwyso cyllideb 2025/26, ond gallai'r sefyllfa newid yn ystod 2024/25.

**11.4.** Mae'r sefyllfa yn 2025/26 yn ymddangos yn anos. Dim ond ychydig o gynnydd a ddisgwylir yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn is na lefel chwyddiant, dyfarniadau cyflog ac ati. Ni fydd y Cyngor yn gallu dibynnu ar yr arian wrth gefn i ddarparu'r un lefel o gyllid ac felly bydd rhaid cwtogi gwasanaethau a / neu gynnydd sy'n fwy na chwyddiant i alluogi'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys yn 2025/26.

**11.5.** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a chyflawni'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu;
- Defnyddio cyfuniad o dorri'r gyllideb, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chynyddu'r Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys;

.

- Gosod lefel Dreth Gyngor sy'n cymharu ag asesiad Llywodraeth Cymru o lefel Dreth Gyngor Ynys Môn, ac sy'n unol â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran maint a math.

## 12. ARGYMHELLION

**12.1.** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo i gyfarfod y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024, y gyllideb arfaethedig derfynol, fel y nodir ym Mharagraff 4.

## CYNNIG Y GYLLIDEB DERFYNOL AR GYFER 2024/25 FESUL GWASANAETH

| | Cyllideb Derfynol Arfaethedig 2024/25 £ |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 67.919 |
| Gwasanaethau Oedolion | 39.212 |
| Gwasanaethau Plant | 14.437 |
| Gwasanaethau Tai | 1.661 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 20.357 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 6.137 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 7.626 |
| Adnoddau | 4.021 |
| Busnes y Cyngor | 2.128 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.802 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **164.300** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2.143 |
| Ail godi tâl ar y CRT | (0.800) |
| Cymorth ar gyfer Cynlluniau Cymorth i Brynu Tai Lleol | 0.000 |
| Ardollau | 4.931 |
| Cyllid Cyfalaf | 5.753 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 0.109 |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol | 0.105 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 7.283 |
| Arbedion Staffio heb eu neilltuo | (1.000) |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Neilltuwyd** | **182.824** |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1.340 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2024/25** | **184.164** |
| **Cyllidir Gan** | |
| Grant Cymorth Refeniw | 102.245 |
| Trethi Annomestig | 25.341 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | 52.153 |
| Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor | 4.425 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **184.164** |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gyllideb a'r Cyllid** | **0.000** |

**ATODIAD 3**

# Cyllideb y Cyngor 2024 / 2025

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

**12 Chwefror 2024**

## 1. Cyflwyniad

Agorwyd yr ymgynghoriad o 24 Ionawr 2024 tan 8 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor, a chafodd ei hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd hefyd gopïau caled o'r arolwg mewn adeiladau cyhoeddus ledled Môn.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu adborth gan drigolion Ynys Môn ar y gyllideb drafft ar gyfer 2024/25.


Derbyniwyd cyfanswm o 864 ymateb wedi'u cwblhau'n llawn, gan gynnwys;

- 734 arolwg wedi'u cwblhau ar-lein
- 120 arolwg wedi'u cwblhau ar gopi caled
- 10 ymateb trwy ebost
- Derbynom wyth ymateb ysgrifenedig pellach ar ffurf llythyr.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganlyniadau arolwg yr ymgynghoriad, a'r prif themâu sydd wedi'u hadnabod o'r adborth. Mae adran 2 yn seiliedig ar y 854 arolwg a gwblhawyd yn llawn. Mae crynodeb o'r 10 ebost a wyth ymateb a dderbyniwyd ar ffurf llythyr wedi'i gynnwys yn adran 3 isod.

## 2. Crynodeb o'r Canlyniadau

2.1.1. **Roedd cwestiwn 1 yn gofyn - Hoffem glywed safbwyntiau pobl am y cymunedau maen nhw'n byw ynddynt. Nodwch a ydych yn llenwi'r holiadur hwn:**





2.1.2. **Roedd cwestiwn 3 yn gofyn - Pa wasanaethau sydd fwyaf pwysig i chi?** Mae'r canlyniadau'n dangos mai'r pum brif flaenoriaeth yw (gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 5):

| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Addysg ac Ysgolion: £61.2m | 77% | 651 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus: £47.3m | 68% | 572 |
| Casglu Gwastraff, Gwaredu ac Ailgylchu: £10.3m | 66% | 555 |
| Ffyrdd a Rhwydweithiau: £7.9m | 56% | 474 |
| Canolfannau Hamdden: £1.2m | 42% | 352 |


2.1.3. **Roedd cwestiwn 4 yn gofyn - Mae strategaeth y gyllideb y Cyngor yn ceisio, diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adfer costau gwasanaethau drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, a pharhau i fuddsoddi, lle bo'n bosibl, er mwyn moderneiddio a thrawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau.**

**Ydych chi'n cytuno gyda'r nodau hyn?**
Roedd 61% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.




2.1.4. **Roedd cwestiwn 5 yn gofyn - Mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2024/25 yn caniatáu buddsoddiad parhaus sylweddol yn y cyllidebau gofal cymdeithasol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau?**

**Ydych chi'n cytuno â hyn?**
Roedd 67% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.



2.1.5. **Roedd cwestiwn 6 yn gofyn - Mae cynnig y gyllideb yn caniatáu cynnydd cyffredinol o 5% mewn ffioedd disgresiwn. Mae'r ffioedd hyn ar gyfer gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, megis: canolfannau hamdden, prydau bwyd, ffioedd lansio cerbydau dŵr personol, rheoli plâu, mynediad i amgueddfeydd, gwasanaethau casglu gwastraff (gan gynnwys gwastraff gardd gwyrdd).**

**A fyddech chi'n barod i dalu mwy i ddiogelu gwasanaeth rhag toriadau yn y gyllideb?**
Byddwn 49.3% Na fyddwn 50.7%

2.1.6. **Roedd cwestiwn 7 yn gofyn – Ar gyfer pa wasanaeth fyddech chi'n fodlon talu mwy ar ei gyfer? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**


| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | 54.6% | 358 |
| Ffioedd Lansio Cerbydau Dŵr Personol | 48.8% | 320 |
| Mynediad i Amgueddfeydd | 41.2% | 270 |
| Ffioedd Rheoli Plâu | 39.8% | 261 |
| Gwasanaethau Casglu Gwastraff (gan gynnwys gwastraff gardd gwyrdd) | 37.0% | 243 |
| Prydau Bwyd Ysgol | 35.8% | 235 |

Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn cynnwys adran testun rhydd ac yn gofyn i ymatebwyr nodi pa wasanaethau y bydden nhw'n fodlon talu mwy ar eu cyfer. Darparodd 170 o ymatebwyr argymhellion pellach, gellir rhannu'r rhain sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwn i'r saith categori canlynol:

- Dim (55) – dywedodd ymatebwyr eu "bod nhw'n talu digon o'r dreth gyngor yn barod".
- Meysydd parcio a phriffyrdd (26) – argymhellodd ymatebwyr gynyddu ffioedd parcio a mesurau gorfodi parcio, yn ogystal â gwneud gwelliannau i wasanaethau priffyrdd.
- Addysg(18) – argymhellodd ymatebwyr dalu mwy am ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prydau bwyd, clybiau ysgol a thripiau ysgol.
- Llyfrgelloedd a Diwylliant (10) – ymatebwyr yn fodlon talu i ymweld ag Oriel Môn, a thalu ffioedd dychwelyd llyfrau'n hwyr.
- Gwasanaethau Cymdeithasol (9) – ymatebwyr yn fodlon talu mwy am wasanaethau perthnasol, gan gynnwys bathodynnau glas, addasiadau a ffioedd gofal.
- Cynllunio a'r Amgylchedd (9) – ymatebwyr yn fodlon talu mwy am ffioedd cynllunio, gan gynnwys rheoli adeiladau ac unrhyw wasanaethau sy'n gysylltiedig â gwella'r amgylchedd.
- Gweithgareddau Hamdden (4) – ymatebwyr yn fodlon talu mwy am aelodaeth i ganolfannau hamdden a morwrol.

2.1.7. **Roedd cwestiwn 8 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol a gynhyrchir o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag i gefnogi'r gwaith o ariannu gwasanaethau yn 2024 a 2025?**

Roedd 79% yn cytuno'n gryf neu gytuno.




2.1.8. **Roedd cwestiwn 9 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynigion i wneud arbedion sylweddol?**

| Dewis Ateb | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Cynnydd o £1 y mis yng nghost pecyn Môn Actif: arbediad posibl o £62,000 | 673 | 153 |
| Cynyddu y ffioedd parcio mewn meysydd parcio arfordirol a ffioedd am barcio am 4 + awr, ond rhewi'r gost am barcio am 1 awr a 2 awr yn y meysydd parcio canol trefi: arbediad posibl o £100,000 | 644 | 190 |
| Lle'n bosib, lleihau costau staffio cyffredinol trwy adolygu strwythurau a dyletswyddau staff pan ddaw swyddi yn wag: arbediad posibl o £1,000,000 | 632 | 197 |
| Rhesymoli cymorth gweinyddol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid: arbediad posibl o £50,000 | 531 | 274 |
| Ailfodelu'r ddarpariaeth gofal dydd oedolion a symud i fodel gwasanaeth yn y gymuned: arbediad posibl o £102,000 | 529 | 281 |
| Addasu oriau agor y 4 Canolfan Hamdden, lle mae'r defnydd lleiaf, i adlewyrchu'r defnydd presennol o'r canolfannau: arbediad posibl o £39,500 | 458 | 366 |
| Gostwng y gyllideb diogelwch ffyrdd: arbediad posibl o £10,000 | 409 | 399 |
| Gostyngiad o 5% yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol: arbediad posibl o £87,000 | 181 | 641 |
| Gostwng cyllidebau trwsio a chynnal a chadw ar gyfer cartrefi gofal preswyl y mae'r Cyngor yn berchen arnynt: arbediad posibl o £70,000 | 226 | 596 |
| Cyfyngu'r cynnydd ariannol i ysgolion 2.5% yn is na phwysau chwyddiant: arbediad posibl o £1,246,000 | 289 | 528 |
| Lleihau gwasanaethau cymorth gofal anstatudol y tu allan i oriau: arbediad posibl o £96,500 | 289 | 525 |
| Gostwng y gyllideb i integreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd: arbediad posibl o £100,000 | 303 | 513 |

2.1.9. **Roedd cwestiwn 10 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno gyda'r lefel arfaethedig o 9.78% o gynnydd yn y Dreth Gyngor (ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y Gwasanaeth Tân)?**
**Byddai cynnydd o 9.78% yn cynyddu cyllid y cyngor o £5.2 miliwn.**

| | |
|---|---|
| Nac ydw | 71.2% |
| Ydw | 28.8% |

2.1.10. **Roedd cwestiwn 11 yn gofyn – Faint o gynnydd y dylid ei gyflwyno i'r Dreth Gyngor? (Byddai cynnydd o 9.78% yn cynyddu cyllid y cyngor o £5.2 miliwn)**

| Dewis Ateb | % | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Dim cynnydd – fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth £5.2m | 35.6% | 212 |
| Cynnydd rhwng 3% a 5% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £2.7m a £3.7m | 30.4% | 181 |
| Cynnydd rhwng 0% a 3% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £3.7m a £5.2m | 22.5% | 134 |
| Cynnydd rhwng 5% a 7.5% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £1.6m a £2.7m | 10.1% | 60 |
| Cynnydd rhwng 7.5% a 10% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £0.4m a £1.6m | 1.5% | 9 |

2.1.11. **Roedd cwestiwn 12 yn gofyn – sut fyddech chi'n adfer y diffyg cyllid a nodwyd yn y cwestiwn blaenorol?**

| Dewis Ateb | % | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Opsiwn 5: Dim toriad yng nghyllidebau'r gwasanaethau. Ariannu'r y cyfan gan ddefnyddio'r arian wrth gefn. | 30.9% | 180 |
| Opsiwn 3: Ariannu'r y cyfan gan ddefnyddio'r arian wrth gefn. Ariannu'r 50% trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. | 27.7% | 161 |
| Opsiwn 4: Ariannu'r 50% trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. Mwyafrif trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. | 25.4% | 148 |
| Opsiwn 2: Mwyafrif trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. Defnyddio ychydig o'r arian wrth gefn. | 12.0% | 70 |
| Opsiwn 1: Defnyddio ychydig o'r arian wrth gefn. Dim defnydd o'r arian wrth gefn. | 4.0% | 23 |

2.1.12. **Roedd cwestiwn 13 yn gofyn - Cyllidebau pa wasanaethau fyddech chi'n fodlon eu lleihau? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**

| Dewis Ateb | % | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Archifau ac Amgueddfeydd | 63.9% | 493 |
| Twristiaeth a Morwrol | 63.2% | 488 |
| Llyfrgelloedd | 49.9% | 385 |
| Diogelu'r Cyhoedd, Cynllunio, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd | 40.7% | 314 |
| Rheoli'r Amgylchedd a Chefn Gwlad | 33.4% | 258 |
| Datblygiad Economaidd | 32.3% | 249 |
| Canolfannau Hamdden | 31.2% | 241 |
| Cyngor ar Dai a Chymorth Llesiant | 29.5% | 228 |
| Atal Digartrefedd | 23.7% | 183 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 21.9% | 169 |
| Ffyrdd a Rhwydweithiau | 18.9% | 146 |
| Casglu Gwastraff, Gwaredu ac Ailgylchu | 15.7% | 121 |
| Gwasanaethau Tân | 13.1% | 101 |
| Addysg ac Ysgolion | 12.6% | 97 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus | 8.7% | 67 |

## 3 Ymatebion Ysgrifenedig

Derbyniwyd chwech llythyr yn berthnasol i addysg a oedd yn cynrychioli cyfanswm o 13 ysgol gynradd ac arweinwyr ysgolion (1 llythyr ar ran penaethiaid mewn dalgylch / 2 lythyr gan lywodraethwr ysgol / 2 llythyr gan benaethiaid ysgolion / 1 llythyr gan undeb llafur).

Roedd pob un yn bryderus am y cyllid sydd ar gael i gynnig darpariaeth cyn y 2.4% o ostyngiad, ac maent bellach yn bryderus iawn. Ymhlith rhai o'r prif bwyntiau o'r llythyrau mae:

- Ail edrych ar y fformiwla ariannu bresennol ar gyfer ysgolion ar yr ynys.
- Argymell i ysgolion uwchradd gymryd rhaniad 60%/40% gydag ysgolion cynradd ar gyfer y gostyngiad yng nghyllideb ysgolion.
- Mae ysgolion yn gorfod rhoi'r gorau i ddarparu gwersi nofio, llyfrgelloedd, ymweliadau diwylliannol, gwersi cerdd a gweithgareddau chwaraeon.
- Mae nifer o ysgolion yn gorfod cynyddu maint dosbarthiadau yn uwch na'r 30 disgybl a argymhellir.
- Mae rhai ysgolion yn gweld niferoedd yn disgyn yn sylweddol, ac yn pryderu am ddyfodol yr ysgol.
- Nid yw'r gyllideb bresennol yn adlewyrchu gofyniad yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae ysgolion yn poeni na fyddant yn gallu bodloni gofynion y cwricwlwm.
- Mae nifer o ysgolion methu fforddio papur, llyfrau ac adnoddau ysgol

- Mae nifer o benaethiaid a staff yn gweithio oriau ychwanegol yn wirfoddol, ac mae pryderon gwirioneddol yn bodoli ynghylch llesiant staff.
- Ni does digon o gyllideb i gyflogi cymhorthyddion dosbarth / un i un.
- Nid yw'r gyllideb ADY a dderbyniwyd gan y Cyngor yn bodloni costau cymhorthyddion un i un.
- Nid yw'r toriad o 2.5% i'r gyllideb yn ystyried y cynnydd yng nghyflogau athrawon sydd eisoes wedi'i gymryd gan ysgolion - Dim ond 24% o'r aelodau a gynrychiolwyd gan undebau llafur a ddywedodd y gallent fforddio codiad cyflog 2023/24 o'r cyllidebau presennol ac y byddai'n rhaid iddynt wneud toriadau.
- Mae pryderon ynghylch iechyd a diogelwch ar rai safleoedd.
- Mae llawer yn ansicr ynghylch rhai o'r cytundebau partneriaeth, ac a ydynt yn cael gwerth am arian ar gyfer y ddarpariaeth.
- Caniatáu i ysgolion osod diffyg trwyddedig ac annog y rhai sydd heb i ailfeddwl am y sefyllfa.
- Yn syml, nid oes gan ysgolion yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ar hyn o bryd, bydd toriadau pellach yn ddinistriol i ysgolion a'u dysgwyr, gyda goblygiadau i'r cymunedau ehangach am genedlaethau i ddod.

Roedd y ddau lythyr olaf a dderbyniwyd yn cynrychioli Cyngor Tref a Chymuned a nodir eu prif sylwadau isod:

- Anfodlonrwydd gyda'r cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor oherwydd bod adroddiadau cychwynnol o gyllideb 2023 yn nodi disgwyliad o tua 6% o gynnydd
- Mae angen buddsoddiad pellach ar y rhwydwaith ffyrdd oherwydd bod llawer o ffyrdd wedi cau am gyfnod yn ystod y flwyddyn
- Mae llawer o ymgynghoriadau wedi bod gan y cyngor dros y flwyddyn ond dim byd i ddweud beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r ymgynghoriadau
- Pryderon am fodolaeth yr adran dwristiaeth sydd wir ei angen

Darparwyd sylwadau pellach yn ymwneud ag arbedion posibl eraill hefyd yn yr ymatebion penagored i gwestiwn 7 (2.1.6 uchod) ynghyd â 10 ymateb e-bost. Rhestrir rhai o'r awgrymiadau isod:

- Lleihau nifer y cynghorwyr
- Ailstrwythuro staff
- Gweithio gyda chynghorau eraill / uno gyda chynghorau eraill
- Newid cyflenwyr adeiladau
- Lleihau nifer y casgliadau bin gwyrdd yn ystod y gaeaf
- Cau'r ysgolion hanner gwag
- Sicrhau bod staff yn gweithio ac yn effeithlon
- Cyflwyno Trwyddedau Parcio i ardaloedd poblog
- Cyflwyno treth gwyliau
- Gweithio gyda mwy o fudiadau gwirfoddol

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 FEBRUARY 2024** |
| **Pwnc:** | **STRATEGAETH GYFALAF 2024 – 2029** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Robin Williams – Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio – Cyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:** | **Marc Jones**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Marc Jones**<br><br>**rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhellion a Rhesymau

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) yn gofyn i bob awdurdod baratoi strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid iddi osod y cyd-destun tymor hir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Mae'r strategaeth gyfalaf wedi'i chysylltu â nifer o gynlluniau a strategaethau eraill. Maent yn cynnwys:-

- Cynllun y Cyngor;
- Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol;
- Y Strategaeth TG, gan gynnwys Strategaeth Digidoleiddio Ysgolion;
- Strategaeth Sero Net Lleihau Carbon;
- Strategaeth Gwelliannau Hamdden;
- Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg;
- Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu;
- Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai;
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai;
- Strategaeth Rheoli Trysorlys.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y Strategaeth Gyfalaf i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

## B – Pa opsiynau eraill y gwnaethoch chi eu ystyried a pham y gwnaethoch eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod mabwysiadu'r strategaeth gyfalaf yn ofyniad yng Nghôd Darbodus Ariannol CIPFA.

## C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â gofynion y Côd a Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y strategaeth ac argymell ei gymeradwyo i'r Cyngor llawn.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn cyd-fynd â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn? | | |
|---|---|---|
| Bydd y Cyngor llawn yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth. | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor?** | | |
| Bydd y strategaeth gyfalaf yn ffurfio'r sail ar gyfer cyllideb cyfalaf 2024/25, fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024. | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r strategaeth gyfalaf yn crynhoi'r buddsoddiad cyfalaf tymor hir sydd ei angen gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion tymor hir fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn gynllun 5 mlynedd sy'n nodi amcanion strategol y Cyngor sydd wedi cael eu dylunio i fynd i'r afael ag anghenion tymor hir yr Ynys. |
| **2** | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaeth bellach ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r strategaeth gyfalaf yn nodi gofyniad buddsoddi cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ac er mwyn osgoi costau sylweddol yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch bwy os gwelwch yn dda. | Er mwyn darparu'r rhaglen fuddsoddi gyfalaf, mae'n rhaid cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r DU, awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, cyrff cyllid grant arall a phartneriaid cyflenwi. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi bod yn rhan o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch os gwelwch yn dda. | Ymgynghorwyd â dinasyddion cyn drafftio'r Cynllun y Cyngor terfynol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau hynny sydd wedi'u diogelu dan Deddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd buddsoddiad cyfalaf yn helpu nifer o grwpiau gwarchodedig, drwy fuddsoddi mewn adeiladau, darparu grantiau cyfleusterau'r anabl, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden ac ati. |
| **6** | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd buddsoddiad cyfalaf yn bwydo arian sylweddol i mewn i'r economi leol ac yn helpu i ddarparu swyddi lleol. Bydd y buddsoddiad mewn tai yn darparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol. |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. | Gwneir buddsoddiad cyfalaf o fewn cymunedau lleol drwy fuddsoddi mewn ysgolion, mân-ddaliadau, eiddo masnachol ac ati. Bydd y buddsoddiad yn helpu i gynnal cymunedau lleol, fydd yn cael effaith fuddiol ar yr iaith Gymraeg. |
| **E -** | **Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae sylwadau gan y TA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – cafodd y strategaeth ei ddrafftio gan y Swyddog Adran 151. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA, ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim effaith uniongyrchol ar staff. |
| **5** | **Eiddo** | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried strategaeth TG a Ddigidol y Cyngor. |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol. |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2024 - 2029 | | |
| **FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Cynllun y Cyngor 2023 – 2028<br>Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 – yn cael ei diweddaru ym mis Mawrth 2024<br>Cynllun Ariannol Tymor Canol – Pwyllgor Gwaith, 26 Medi 2023<br>Cyllideb Refeniw 2024/25 – Cynigion Cychwynnol – Pwyllgor Gwaith, 23 Ionawr 2024 | | |

Tudalen 80



Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Strategaeth Gyfalaf
# 2024-2029

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English.

# Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Mae buddsoddi Cyfalaf yn angenrheidiol ar gyfer Ynys Môn o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau tymor hir yn seiliedig ar wybodaeth ddeallus glir, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'u bod yn fforddiadwy yn y tymor hir.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod y gofynion buddsoddi tymor hir sy'n deillio o Gynllun y Cyngor a strategaethau cysylltiedig eraill, mae'n asesu fforddiadwyedd y cynlluniau hynny ac yn adnabod yr adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau hynny.



Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ddogfen allweddol sy'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu gwneud mewn ffordd drefnus, sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei brif amcanion tra'n sicrhau nad yw hyfywedd tymor hir y Cyngor mewn perygl.



Cynghorydd Llinos Medi,
Arweinydd y Cyngor



Dylan J. Williams,
Prif Weithredwr

# Pam Rydym Angen Strategaeth Gyfalaf?

- Mae Côd Darbodus CIPFA yn gosod allan gofyniad bod pob awdurdod lleol yn gorfod paratoi strategaeth gyfalaf.
- Yn ddelfrydol, dylai'r Strategaeth gwmpasu 10 i 15 mlynedd, ond nid yw'r ansicrwydd presennol ynglŷn â chyllid yn caniatáu ar gyfer datblygu cynllun mor hir-dymor.
- Mae'n sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi sy'n rhoi ystyriaeth lawn i:-
    - Stiwardiaeth;
    - Gwerth am Arian;
    - Pwyll;
    - Cynaliadwyedd;
    - Fforddiadwyedd.
- Cyfrannu at gydymffurfiaeth gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf?

- Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau tymor hir, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hynny'n gallu dibynnu ar wybodaeth glir a chywir. Mae hyn yn cynnwys:-
  - Edych ar gynlluniau gwariant cyfalaf tymor hir ac unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor;
  - Ystyried y goblygiadau cyllido tymor hir o ran fforddiadwyedd a risgiau posib;
  - Bod â throsolwg clir o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor ac unrhyw ofynion cynnal a chadw sydd â goblygiadau o ran adnoddau a chynllunio busnes.
- Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn edrych ar yr asedau newydd neu'r gwelliannau sydd eu hangen i asedau, megis adeiladu'r Cyngor, ysgolion, tai, cyfleusterau gofal cymdeithasol a chyfleusterau hamdden, er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol ynghyd â'i oblygiadau statudol niferus.
- Drwy'r cynllun hwn, rydym yn bwriadu gwario a buddsoddi lefel briodol o gyfalaf i ddiwallu'r blaenoriaethau ac amcanion hyn, tra'n sicrhau bod ein cynlluniau yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

# Gwariant Cyfalaf 2019/20 – 2023/24

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m | 2023/24 (Rhagolwg) £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal Asedau Presennol | 5.419 | 6.934 | 6.865 | 9.139 | 8.173 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 0.316 | 0.951 | 4.507 | 6.317 | 7.080 |
| Gwella Cyfleusterau Hamdden | 0.119 | 0.123 | 0.211 | 0.336 | 0.718 |
| Rheoli Gwastraff | 0.180 | 3.213 | 2.270 | 0.213 | 0.110 |
| Cyflawni Sero Net | 0.000 | 0.052 | 1.742 | 1.372 | 2.947 |
| Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd | 3.140 | 1.481 | 1.194 | 2.491 | 1.092 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau'r UE | 2.224 | 2.563 | 1.361 | 4.511 | 3.270 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau Llywodraeth Cymru / y DU | 3.490 | 3.419 | 3.590 | 2.119 | 8.825 |
| Isadeiledd / Offer TG Ysgolion | 1.088 | 0.596 | 0.603 | 0.341 | 0.113 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.115 | 0.091 | 0.253 | 0.242 | 0.000 |
| Prosiectau Eraill wedi'u Cyllido gan Grantiau | 2.114 | 1.084 | 1.140 | 2.429 | 0.000 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 11.812 | 12.623 | 9.723 | 11.180 | 20.529 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **30.013** | **33.129** | **33.457** | **40.690** | **52.857** |

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen allweddol sydd yn ganolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod, mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid i sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:-**



'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

## Ein chwech amcan strategol

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Cynllun y Cyngor 2023-28

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

## Gwerthoedd

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


Cynllun y Cyngor 2023-2028

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.


Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.






Cynllun y Cyngor 2023-2028

# Y berthynas rhwng Cynlluniau a Strategaethau'r Cyngor




Tudalen 88

# Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol Allweddol

- **Mae’r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn cydberthyn er mwyn helpu i adnabod y lefel fforddiadwy o refeniw ac adnoddau cyfalaf sydd ei angen er mwyn cyflawni prif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Yn ogystal, mae’r rhain yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau’r Cyngor.**

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

Caiff ei adolygu’n rheolaidd er mwyn helpu gosod allan y gofyniad tebygol o ran adnoddau ar gyfer y tair blynedd nesaf, a sut mae’r Cyngor yn bwriadu cydbwyso’r gofyniad hwn. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa’r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae’r Strategaeth Gyfalaf yn gosod allan y prif flaenoriaethau ynghylch sut y dylid gwario cyllid cyfalaf er mwyn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae’n cydnabod fod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw ac mae’n rhaid sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Mae’r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a’r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol, ac mae hefyd yn cael ei dylanwadu ganddynt.

## Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae’n gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a’r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys ar gyfer y flwyddyn. Maent yn darparu’r fframwaith a’r rheolyddion sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu costau refeniw a chyfalaf cyflenwyr, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi’n ddiogel, a’i fod ar gael, a sicrhau nad yw benthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf yn mynd y tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae’r **Gyllideb Refeniw Flynyddol** yn cael ei chefnogi gan CATC, y Strategaeth Gyfalaf a’r SRhT - Bob blwyddyn, mae’r costau cyllido cyfalaf refeniw yn cael eu hadolygu a’u diwygio fel rhan o’r gwaith o osod cyllideb refeniw. Ar brydiau, defnyddir cyfraniadau refeniw i gyllido costau cyfalaf.


**Y Rhaglen Gyfalaf Flynyddol** - Mae’r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.

# Prif feysydd blaenoriaeth

Mae cyflawni'r flaenoriaeth strategol, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am wneud yn siŵr:-

- Bod gennym ddigon o gyllid i fuddsoddi yn y blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf;
- Ein bod ni'n gallu cynnal ein hasedau cyfalaf a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- Bod strategaeth y Cyngor yn ddigon hyblyg i gwrdd ag unrhyw anghenion sy'n ymgodi a  chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd cyllido pan fyddant yn codi.



# Egwyddorion ac Amcanion i Gefnogi'r Gwaith o Gyflawni Prif Amcanion

- Rhaid i brosiectau cyfalaf fod yn gysylltiedig ag asedau a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanon allweddol, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor, ynghyd â'i strategaethau gweithredol allweddol a chyfrifoldebau statudol.
- Pob blwyddyn wrth adolygu'r strategaeth hwn a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf blynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.
- Bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu o fewn y Rhaglen Gyfalaf.
- Bydd Derbyniadau Cyfalaf o Werthiant Ysgolion Dros Ben yn cael eu defnyddio fel cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (fel nodir yn yr Achos Busnes Derfynol) neu fel cyllid cyfalaf cyffredinol.
- Gellir ail-fuddsoddi derbyniadau yn yr ystâd yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau'r Cyngor, os ydi'r blaenoriaethau gwario eraill yn caniatáu hynny.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu i gynnal a chadw neu ddisodli asedau presennol y Cyngor - Adeiladau'r Cyngor, Offer TG, Cerbydau, Rhwydwaith Ffyrdd.
- Bydd y Cyngor yn anelu i ddefnyddio cyllid cyfalaf i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir.
- Bydd unrhyw brosiect newydd sydd angen cyllid cyfatebol i ddenu cyllid grant yn cael ei asesu ar sail achos fesul achos gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Bydd yr asesiad yn ystyried y lefel o gyllid grant, a yw'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, y goblygiadau ar gyfer y gyllideb refeniw a lefel y cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf roi sylw i'r targedau carbon sero net a rhaid defnyddio dewisiadau amgen glân lle, yn draddodiadol, defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau oedd yn cynhyrchu carbon.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio hefo'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd Benthyca Digefnogaeth yn cael ei ystyried os bydd y gofynion cyllid cyfalaf blynyddol yn fforddiadwy ac yn cynnal lefel dderbyniol o gostau cyllid cyfalaf yn erbyn gwariant refeniw net.
- Gweithredir benthyciadau allanol yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor er mwyn cynnal balansau arian parod digonol, ac er mwyn lleihau ffioedd cyllid cyfalaf.

# Ffynonellau Cyllid y Rhaglen Gyfalaf

| Math o Gyllid | Ffynhonnell | Cyfyngiadau Defnydd | Goblygiadau Refeniw | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | Llywodraeth Cymru | Dim | Dim | |
| Benthyca â Chefnogaeth | BBGC | Dim | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Costau refeniw wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad. |
| Benthyca Digefnogaeth | BBGC | Rhaid bodloni gofynion y Côd Darbodus | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Gan fod costau llawn yn disgyn ar y Cyngor, mae'n rhaid i unrhyw brosiect sy'n cael ei cyllido drwy fenthyciad digefnogaeth, fel arfer, greu incwm ychwanegol neu arbedion refeniw i fodloni'r DRI a ffioedd llog. |
| Cymunedau Dysgu (Grantiau a Benthyca) | Llywodraeth Cymru a BBGC | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Mae LIC yn cyllido 65% (67% drwy fenthyca â chefnogaeth a 33% drwy grant). Mae'r Cyngor yn cyllido 35% drwy fenthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf. |
| Cymunedau Dysgu (Model Buddsoddi ar y Cyd) | Llywodraeth Cymru | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | Telir ffi refeniw blynyddol i Gwmni Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) am 25 mlynedd | 92% o'r gost refeniw wedi'i cyllido gan Lywodraeth Cymru, gyda'r 8% sy'n weddill yn disgyn fel cost refeniw'r Cyngor. |
| Cyllid Grant Penodol | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyllidwyr Eraill | Yn unol â'r amodau grant | Dim | Efallai y bydd cyllid grant angen lefel o gyllid cyfatebol. |
| Derbyniadau Cyfalaf | Gwerthiant Asedau'r Cyngor | Dim | Dim | Rhaid defnyddio derbyniadau cyfalaf er mwyn cyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu benthyciadau presennol. |
| Arian Wrth Gefn y Cyngor | Cyngor | Dim | Dim | |
| Cyfraniadau o'r gyllideb refeniw | Cyngor | Dim | Dim | |
| Arian Wrth Gefn y CRT | Cyngor | Gwariant Cyfalaf y CRT yn unig | Dim | |

Tudalen 92

# Asedau Presennol y Cyngor

| Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 39 | Clybiau Ieuenctid | 1 | Ffordd Cerbydau | 1,188 km |
| Ysgolion Uwchradd | 5 | Unedau Busnes | 68 | Troedffordd | 661 km |
| Canolfan Addysg y Bont | 1 | Safleoedd Manwerthu | 20 | Llwybr Beicio | 211 km |
| Swyddfeydd | 2 | Canolfannau Cymunedol | 8 | Strwythurau | 539 |
| Amgueddfeydd ac Archifau | 2 | Sefydliadau Addysgol Eraill | 3 | Goleuadau | 20,014 goleuadau |
| Llyfrgelloedd | 7 | Eiddo Amrywiol | 8 | Draeniad | 28,064 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 5 | Porthladdoedd a Phierau | 7 | Arwyddion heb eu goleuo | 7,629 |
| Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd) | 3 | Angorfeydd | 468 | Asedau Priffyrdd Arall | 9,239 |
| Canolfannau Gofal Dydd | 4 | Stoc Dai | 3,979 uned | | |
| Canolfannau Hamdden | 4 | Tir Meddianedig | Amryw | | |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 22 | Parciau a Mannau Agored | 47 | | |
| Mân-ddaliadau | 75 | Cerbydau | 200 | | |

# Cynnal Asedau Presennol

- Sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod a gofynion addysgol y dyfodol- £230m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor- £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Canolfannau Hamdden - £7m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Adeiladau Gofal Cymdeithasol - £2.4m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Unedau Busnes - £0.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Mân-ddaliadau - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd - £0.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Cyfleusterau Cyhoeddus - £0.1m
- Gofyniad Cynnal a Chadw Ffyrdd Blynyddol - £2m - £2.5m i gynnal cyflyrau presennol ffyrdd
- Offer TG – Disodli caledwedd presennol bob 3 i 10 mlynedd
- Cerbydau – Disodli cerbydau presennol bob 5 – 7 mlynedd – angen symud at ffynhonnell tanwydd sy'n garbon niwtral
- Grant Cyfleusterau Anabl – Gofyniad cyllidebol gwerth £750k bob blwyddyn

# Cynnal Asedau Presennol

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae cynnal a chadw asedau presennol mewn cyflwr sy'n sicrhau eu bod yn weithredol yn allweddol i sicrhau y gellir barhau i ddarparu gwasanaethau.
- Byddai buddsoddi / diweddaru a disodli asedau presennol a dechrau cael gwared ar yr ôl groniad cynnal a chadw angen gwariant cyfalaf sy'n fwy na £10m bob blwyddyn. Mae hyn y tu hwnt i'r lefel bresennol o gyllido a bydd angen blaenoriaethu buddsoddi.
- Mae buddsoddi yn asedau TG yn caniatau'r Cyngor gynnal ei galedwedd TG, sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.

Tudalen 95



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Pob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn ein hasedau presennol er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol.
- Bydd asedau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn cael eu blaenoriaethu wrth ddyrannu cyllid cyfalaf.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw neu ddisodli asedau'r Cyngor – Adeiladau'r Cyngor, Offer TG , Cerbydau.
- Y strategaeth gyfredol yw i ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd rhaid cael benthyca digefnogaeth sylweddol i gyllido'r gweddill, a bydd hyn yn ei dro'n arwain at DRI a thaliadau llog gwerth tua £750k y flwyddyn.
- Yn y tymor hwy, byddwn yn asesu ein hasedau a gadwyd yn unol â'n hanghenion gwasanaeth yn y dyfodol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Anelu i gyllido ar y lefel ganlynol:-
  - Adeiladau Addysg - £1.0m
  - Adeiladau Arall y Cyngor - £0.6m
  - Cynnal a Chadw Priffyrdd - £2.0m
  - Cerbydau - £0.3m
  - Offer TG - £0.3m
  - Grant Cyfleusterau Anabl - £0.75m
- Mae'r lefelau cyllid hyn yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a blaenoriaethau cyllido eraill, ond maent yn nodi'r gofyniad isaf.
- Daw hyn i £4.95m, gyda'r cyllideb ychwanegol yn cael ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau o'r cyllidebau refeniw.
- Bydd y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo modd a phan fo hynny'n fforddiadwy.

# Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'n raglen sylweddol a fydd yn arwain at defnyddio'r cyllid cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella ysgolion neu adeiladu adeiladau newydd yn y tymor hir.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Rhaglen o hyd a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i'r eithaf.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n llunio'r rhaglen amlinellol strategaethol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r yngor am y 9 mlynedd nesaf.
- Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar wella / disodli y 5 ysgol uwchradd y Cyngor.
- Bydd cyllid yn parhau ar ffurf cymysgedd o grantiau gan Lywodraeth Cymru a benthyca â chefnogaeth (65% o'r gost), a benthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf (35% o'r gost).

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf yn dilyn gwerthu ysgolion nad ydym eu hangen mwyach i gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Y gost o adeiladu ysgol uwchradd newydd yw oddeutu £70m, ac mae hyn yn debygol o ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) Llywodraeth Cymru i gyllido'r gost o ddisodli un adeilad ysgol.
- Mae unrhyw gynllun newydd yn annhebygol o ddechrau tan 2026/27.

# Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Canolfannau Hamdden yn darparu gwasanaeth bwysig i drigolion Môn sy'n cyfrannu tuag at eu iechyd a'u lles.
- Mae 3 allan o 4 Canolfan Hamdden y Cyngor oddeutu 50 oed, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal a chadw'r adeiladau a diweddaru cyfleusterau.
- Byddai'r gost amcangyfrifiadol oddeutu £40m i £50m a ni all y Cyngor ei gyllido ar ei ben ei hun.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r adeiladau fel y gallant barhau i weithredu dros y tymor byr i ganolig, gyda'r nod o barhau i weithredu'r 4 ganolfan.
- Bydd y Cyngor yn asesu dyfodol tymor hir y 4 canolfan , a bydd y penderfyniad yn gysylltiedig ag anghenion cymunedau, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r cyllid sydd ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Y strategaeth tymor hir yw gweithio er mwyn cael cyllid grant i wneud gwaith adnewyddu neu ail-adeiladu y Canolfannau.
- Mae gan y Cyngor oddeutu £1.5m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig (a gynhyrchwyd drwy ad-daliad TAW a drwy werthu Cwrs Golff Llangefni) i'w ddefnyddio i gynnal a chadw ac uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur ac i'w ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant allan, pe byddai unrhyw gyfleoedd yn codi.

MÔN ACTIF



# Rheoli Gwastraff

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Rhaid i'r Cyngor ddiogelu gwasanaethau 'busnes fel arfer' a chydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol / cwrdd â thargedau e.e. y targed i ailgylchu 70% o wastraff cartref.



- Mae'r buddsoddiad cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf oddeutu £8.8m, yn cynnwys:-
  - Adnewyddu asedau busnes fel arfer - £2.9m;
  - Newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff i gwrdd â thargedau - £1.1m (gyda buddsoddidad pellach mewn fflyd newydd ar ôl 8 mlynedd o'r cytundeb presennol);
  - Newidiadau isadeiledd i gefnogi newidiadau gwasanaeth i gwrdd â thargedau statudol - £2.0m;
  - Datgarboneiddoi'r fflyd ac offer - £2.8m.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Cynllun Strategol newydd y Cyngor ar gyfer Adnoddau ac Ailgylchu yn nodi pedwar blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod gwasanaethau 'busnes fel arfer' yn cael eu cynnal a'u gwella i gwrdd â gofynion cyfreithiol / targedau'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o chydranddeiliaid i wella ei gyfraddau ailgylchu i gwrdd â thargedau statudol, ond bydd rhaid buddsoddi yn ein canolfannau hailgylchu, offer, peiriannau a cherbydau cyfredol er mwyn cyflawni hyn.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Nid oes gan y Cyngor gyllid wedi ei adnabod ar gyfer y buddsoddiad hwn a byddai'n rhaid ei gyflawni drwy fenthyca digefnogaeth ac unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo.

# Cyflawni Sero Net

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i'r Cyngor fod yn sero net erbyn 2030.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried targedau carbon sero net.






## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Er mwyn cyflawni'r targed o sero net, bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn:-
  - Adeiladau'r Cyngor - er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac i newid i ffynonellau ynni sy'n garbon niwtral;
  - Cerbydau - troi oddi wrth gerbydau petrol a disel;
  - Tai Cyngor – trosi pob eiddo i fod yn garbon niwtral lle bo'n bosibl / hyfyw;
  - Teithio cynaliadwy;
  - Datblygu isadeiledd gwefru cerbydau trydan;
  - Gwella bioamrywiaeth ar dir y Cyngor;
  - Sicrhau bod yr holl adeiladau newydd wedi'u dylunio i fod yn garbon niwtral.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw gyllid craidd ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.
- Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau a gwneud bid am gyllid grant a all ddarparu prosiectau pan dderbynnir y cyllid grant.
- Bydd y Cyfrif Refeniw Tai yn darparu cyllid er mwyn symud tuag at ddarparu stoc dai'r Cyngor yn carbon niwtral.

# Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o ardaloedd lle mae angen gwella amddiffyn rhag llifogydd.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n cyllido 85% o'r gost cyfalaf ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd drwy grantiau. Darperir y 15% sy'n weddill gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi oddeutu £2m bob blwyddyn mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol o £300k bob blwyddyn.
- Oherwydd y cyllid grant sylweddol a ellir ei ddenu drwy ddyrannu cyllid cyfatebol, bydd y strategaeth yn parhau i flaenoriaethu'r broses o ddyrannu cyllid cyfatebol o fewn y rhaglen gyfalaf.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Blaenoriaethu darparu cyllid cyfatebol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru
- Blaenoriaethu gwariant ar gynlluniau sy'n amddiffyn y nifer uchaf o eiddo ar gyfer pob punt sy'n cael ei gwario

# Cyllid Grant gan Lywodraeth y DU

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Sicrhau bod Ynys Môn yn dal i elwa o’r cyllid grant sy’n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru swydd wedi cymryd lle cyllid grant yr UE.
- Sicrhau ein bod ni’n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy’n darparu buddion i drigolion a chymunedau Ynys Môn.

Tudalen 101



## Beth fyddwn ni’n ei wneud?

- Mae Llywodraeth y DU wedi disodli’r cyllid grant blaenorol gan yr UE gyda chyllid grant lleol a rhanbarthol ychwanegol – sef, ar hyn o bryd, y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i wneud bid am gyllid er mwyn cwblhau prosiectau sy’n gwella’r isadeiledd leol a’r economi leol.

## Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

- Asesir y broses o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel cyllid cyfatebol ar sail achos fesul achos, gan ystyried pwysigrwydd y prosiect ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru, y buddion posibl sy’n deillio o gwblhau’r prosiect a’r cydbwysedd rhwng cyllid cyfatebol a chyllid grant.
- Oni bai am yr ymrwymiadau presennol, nid oes unrhyw ymrwymiadau cyllid cyfatebol newydd wedi’u gwneud ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2028.



# Isadeiledd ac Offer TG mewn Ysgolion

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r ffordd y mae ysgolion yn darparu addysg wedi newid ac mae TG yn chwarae mwy o ran yn y ddarpariaeth addysg ac o ran rheoli ysgolion.
- Mae buddsoddi mewn isadeiledd ac offer TG ar gyfer disgyblion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg.

Tudalen 102



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy gynllun Grant HWB. Mae hyn wedi caniatau diweddaru isadeiledd TG mewn ysgolion a phrynu dyfeisiau ar gyfer disgyblion unigol.
- Mae amod y grant HWB yn gofyn fod y Cyngor yn ymrwymo i ddisodli'r offer a brynwyd drwy'r grant pan ddaw i ddiwedd ei oes defnyddiol. Bydd angen oddeutu £1.3m o wariant yn ystod 2027/28 i wneud hyn, a bydd angen buddsoddiad sylweddol pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae'r Cyngor hefo £0.46m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido peth o'r gost, a bwriadwyd gwneud cyfraniad blynyddol o'r gyllideb refeniw bob blwyddyn er mwyn cynyddu lefel y gronfa wrth gefn yma. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau ariannol presennol yn golygu bod y cyfraniad hwn wedi dod i ben yn 2023/24.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gweithredol rhwng chydranddeiliaid i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Edrych ar opsiynau amgen i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol.



# Eiddo Buddsoddi

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae gan y Cyngor nifer o eiddo sy'n cael eu gosod ar sail fasnachol ac sy'n cynhyrchu incwm blynyddol ar gyfer y Cyngor. Maent yn cynnwys unedau diwydiannol, swyddfeydd, unedau manwerthu a mân-ddaliadau.
- Mae'r eiddo yma'n darparu llety gwerthfawr i gefnogi busnesau lleol ac maent yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn yr economi leol.

Tudalen 103



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddatblygu unedau newydd drwy gyllid grant, yn bennaf gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau diweddar o ddatblygiadau yn cynnwys unedau newydd ym Mhenrhos, Caergybi, ac unedau yn Ystâd Ddiwydiannol Bryn Cefni.
- Rhwng 2010 a 2015, cafwyd gwared ar nifer o fân-ddaliadau, ac fe unwyd tir er mwyn creu unedau mwy o ran maint a hyfywedd. Ail-fuddsoddwyd y derbyniadau cyfalaf o werthiant yr eiddo hyn er mwyn diweddaru'r eiddo a oedd yn weddill. Fodd bynnag, nid yw'r ffynhonnell hon o gyllid ar gael bellach.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn nodi'n bwriad ar gyfer ein gwahanol ystadau ac asedau a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r gyllideb gyfalaf.
- Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gyllid cyfalaf craidd er mwyn buddsoddi yn yr eiddo hyn, yn ogystal â chyllid grant daw ar gael neu fenthyca digefnogaeth.



# Tai Cymdeithasol a Fforddiadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor yn darparu tai ar gyfer oddeutu 4,000 o denantiaid ar hyn o bryd, ac mae'n darparu llety fforddiadwy i drigolion mwyaf bregus Ynys Môn.
- Mae'r galw am lety rhent isel, fforddiadwy o safon ar Ynys Môn yn parhau i gynyddu. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn ei stoc dai presennol a chynyddu'r stoc hwnnw er mwyn parhau i gwrdd â'r galw cynyddol.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Parhau i ddatblygu, neu ail-brynu, 45 uned bob blwyddyn ac, yn ogystal, buddsoddi yn y ddarpariaeth gofal ychwanegol newydd, uned 40 gwely a gynllunir  i'w agor yn 2026/27.
- Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc bresennol er mwyn sicrhau bod eiddo'n parhau i gynnal safon SATC, a bod unrhyw waith i ddiweddaru eiddo nad ydynt wedi'u diweddaru hyd yma, yn digwydd pan fydd yr eiddo ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio asedau ariannol y Cyfrif Refeniw Tai i gyllido'r buddsoddiad sydd ei angen.
- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi. Cyllidir gwariant cyfalaf drwy'r warged blynyddol a gyflawnir drwy'r cyfrif refeniw, y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, balansau cronfeydd wrth gefn presennol y CRT a drwy fenthyca digefnogaeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd gwblhau 3 prif brawf ariannol cyn ei roi ar waith. Mae hyn yn sicrhau fod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy, a bod modd ei gyllido drwy incwm rhentu yn y dyfodol.
- Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT yn amcanu y bydd £54m yn cael ei fuddsoddi yn y stoc bresennol, a bydd £75m yn cael ei fuddsoddi yn natblygiad eiddo newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Mae'r Cynllun Busnes wedi gosod cap ar fenthyca, sef 6.5 gwaith swm yr incwm rhent.

# Crynodeb o Wariant Cyfalaf 2024/25 hyd at 2028/29

| | Isafswm £'m | Posibl £'m | Uchafswm £'m |
|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Asedau Presennol | 21.88 | 30.98 | 48.77 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 3.03 | 49.73 | 61.22 |
| Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden | 1.50 | 7.50 | 40.50 |
| Rheoli Gwastraff | 0.00 | 5.88 | 8.80 |
| Cyflawni Sero Net | 0.00 | 7.50 | 7.50 |
| Rhaglen Amddiffyn rhag Llifogydd | 0.00 | 5.00 | 10.00 |
| Isadeiledd / Offer TG mewn Ysgolion | 0.46 | 1.55 | 1.55 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.00 | 1.00 | 4.00 |
| Ffyniant Bro | 7.81 | 7.81 | 7.81 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 64.13 | 129.50 | 129.50 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **98.81** | **246.45** | **319.65** |



- Mae'r isafswm yn defnyddio'r cyllid sydd wedi'i sicrhau y gwyddys amdano. Mae'r uchafswm yn cyfeirio at y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni holl amcanion y Cyngor, a dwyn ynghyd yr holl asedau presennol i gyflwr derbyniol.
- Mae'r swm posibl yn defnyddio lefel o fenthyca digefnogaeth a all fod yn fforddiadwy os, a phryd, fydd sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor yn gwella.
- Gall cyllid grant, pan fydd wedi'i sicrhau, ganiatáu i'r Cyngor ddisodli benthyciadau â grantiau a chaniatáu iddo symud o'r Isafswm i'r Posibl ar gost refeniw is, neu ganiatáu iddo symud o'r Posibl i'r Uchafswm.
- Mae'n bosib y bydd cyllid grant arall hefyd ar gael ar gyfer prosiectau eraill a byddant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf pan fydd y cyllid hwnnw wedi cael ei sicrhau ac, felly, maent wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

# Crynodeb ar Gyllido Gwariant Cyfalaf 2024/25 hyd at 2028/29

| | Isafswm £'m | Posibl £'m | Uchafswm £'m |
|---|---|---|---|
| Benthyca â Chefnogaeth | 10.79 | 10.79 | 10.79 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 11.09 | 11.09 | 11.09 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca â Chefnogaeth | 0.00 | 5.58 | 15.74 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca Digefnogaeth | 2.85 | 7.33 | 10.45 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Grant Llywodraeth Cymru | 0.00 | 2.75 | 6.97 |
| Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) | 0.00 | 27.90 | 27.90 |
| Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru | 0.00 | 9.50 | 13.75 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0.18 | 2.44 | 2.44 |
| Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 1.96 | 2.66 | 2.66 |
| Cyllid Ffyniant Bro | 7.81 | 7.81 | 7.81 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr y CRT | 13.45 | 13.45 | 13.45 |
| Grantiau Eraill y CRT | 8.69 | 8.69 | 8.69 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Gwarged Blynyddol y CRT | 41.99 | 41.99 | 41.99 |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol | 0.00 | 29.11 | 80.12 |
| Benthyca Digefnogaeth – CRT | 0.00 | 65.36 | 65.36 |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **98.81** | **246.45** | **319.21** |

# Effaith Gwariant Cyfalaf ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a Benthyca Allanol

| | Isafswm | | Posibl | | Uchafswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m |
| 2024/25 | 168.846 | 144.338 | 192.739 | 168.556 | 192.930 | 168.653 |
| 2025/26 | 169.728 | 145.859 | 213.849 | 190.934 | 226.245 | 203.099 |
| 2026/27 | 170.532 | 146.041 | 229.615 | 206.978 | 261.488 | 238.524 |
| 2027/28 | 171.252 | 145.438 | 253.443 | 230.945 | 302.795 | 279.706 |
| 2028/29 | 171.885 | 146.734 | 271.596 | 251.575 | 328.996 | 308.085 |

- Mae effaith yr uchod ar derfyn awdurdodedig a ffin weithredol y Cyngor wedi'i nodi yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

# Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cronfa Gyffredinol

| | | Isafswm | | Posibl | | Uchafswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Refeniw Net (GRN) Amcangyfrifedig £'m | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % |
| 2024/25 | 184.219 | 5.921 | 3.21 | 6.462 | 3.51 | 6.542 | 3.55 |
| 2025/26 | 189.746 | 6.068 | 3.20 | 6.979 | 3.68 | 7.437 | 3.92 |
| 2026/27 | 195.438 | 6.164 | 3.15 | 7.433 | 3.80 | 8.576 | 4.39 |
| 2027/28 | 201.301 | 6.212 | 3.09 | 8.289 | 4.12 | 9.869 | 4.90 |
| 2028/29 | 207.340 | 6.308 | 3.04 | 8.792 | 4.24 | 10.536 | 5.08 |

- Tybir y bydd y gwariant refeniw net yn cynyddu 3% bob blwyddyn o 2025/26.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Strategaeth Rheoli Trysorlys
- Ni fyddai'r costau DRI a Llog ychwanegol yn cael eu cyllido drwy Gyllid Allanol Cyfun, a byddai angen cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w gyllido.
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

# Blaenoriaethu Gwariant Cyfalaf a Gosod Cyllidebau Cyfalaf Blynyddol

- Bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu gosod i gynnal asedau presennol a bydd y cyllid yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd y gwasanaethau'n cael eu gwahodd i gyflwyno bid am gyllid ar gyfer prosiectau un tro. Bydd y bidiau'n cael eu hasesu o ran:-
  - Y modd y maent yn cyfrannu at yr amcanion yng Nghynllun y Cyngor;
  - A ydynt yn cyfrannu at liniaru unrhyw un o risgiau corfforaethol y Cyngor;
  - Effaith y prosiect ar fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol;
  - Effaith y prosiect ar gostau refeniw yn y dyfodol h.y. fydd costau refeniw'n cynyddu ta'n gostwng;
  - A fydd y prosiect yn cael ei gyllido'n rhannol drwy gyllid grant ac, os felly, faint.
- Mae'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu llunio y tu allan i'r broses hon.

# Monitro a Rheoli Gwariant a Benthyca Cyfalaf

Mae Gwariant Cyfalaf a'r benthyciadau perthnasol yn cael eu monitro a'u rheoli gan y Cyngor, fel a ganlyn:-

- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Benthyca Darbodus - yn cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau rheoli trysorlys blynyddol a bob hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau Monitro Gwariant Cyfalaf Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwtini Cyllid;
- Cynigir Cyllideb Cyfalaf Blynyddol gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'i cymeradwyir gan y Cyngor llawn.

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer y swyddogaeth Rheoli Trysorlys o fewn y Cyngor yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a gefnogir gan weithwyr cyllid proffesiynol, cymwys a phrofiadol, gan gynnwys y Rheolwr Cyfrifeg, Rheolwr Cyllid a Chyfrifydd Cyfalaf.


Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi Link Asset Services i ddarparu cyngor arbenigol ar reoli trysorlys.

Mae Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar reoli trysorlys sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau.

# Strategaeth buddsoddi Rheoli Trysorlys

- Mae Strategaeth Fuddsoddi’r Cyngor wedi ei nodi yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, ond fe’i crynhoir fel a ganlyn:-
  - Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi gyda sefydliadau ariannol sydd â’r statws credyd uchaf fel y nodir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.
  - Mae buddsoddiadau’n cael eu gwneud drwy sicrhau’r egwyddor diogelwch, hylifedd ac elw, yn y drefn honno. Nid yw buddsoddiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau’r elw mwyaf yn unig. Adroddir ar fuddsoddiadau'n chwarterol drwy’r adroddiadau diweddaru Rheoli Trysorlys.
  - Ni fydd buddsoddiadau ariannol yn cael eu cyllido drwy fenthyca ychwanegol.
  - Bydd y Cyngor yn cadw isafswm balansau arian parod sy’n cyfateb i’r lefel gytunedig o falansau cyffredinol, sydd ar hyn o bryd yn 5% o gyllideb gwariant refeniw net y Cyngor, sy’n £9.5m ar gyfer 2024/25.
  - Mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys ar ffurf eiddo buddsoddi (eiddo manwerthu, swyddfeydd ac unedau masnachol) sy’n cynhyrchu incwm rhent blynyddol, er nad yw’r incwm a gynhyrchir yn sylweddol yn nhermau incwm blynyddol cyffredinol y Cyngor. Nid oes bwriad i werthu’r eiddo hyn yn y dyfodol agos.
  - Bydd y Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo er mwyn datblygu mwy o eiddo buddsoddi, ond ni chymerir unrhyw fenthyca sylweddol ychwanegol mwy er mwyn datblygu rhagor o unedau.

# Risgiau o ran Darparu'r Strategaeth Gyfalaf a'r Gyllideb Cyfalaf




Tudalen 112

# Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Mae gofyniad cyfalaf y Cyngor i foderneiddio a diweddaru asedau presennol ac i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy na £300m dros y 5 mlynedd nesaf, ac mae gallu'r Cyngor i gyflawni wedi'i gyfyngu oherwydd diffyg cyllid sydd heb ei neilltuo gan lywodraeth ganolog.
- Mae gallu'r Cyngor i ymgymryd â benthyca digefnogaeth, yn unol â gofynion y Côd Darbodus, wedi'i gyfyngu ar sail fforddiadwyedd, gan y byddai'n gosod cost annerbyniol ar dreth dalwyr yn y dyfodol.
- Mae'r isafswm cyllid sydd ar gael drwy fenthyca â chefnogaeth a'r grant cyfalaf cyffredinol yn annigonol er mwyn cyllido'r isafswm sydd ei angen i gynnal asedau presennol y Cyngor i lefel sy'n galluogi'r asedau hynny i gael eu gweithredu'n ddiogel ac effeithiol.
- Er mwyn cyflawni ei amcanion corfforaethol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cyllid grant ychwanegol, ond efallai na fydd hyn yn ddigonol er mwyn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen tuag at gyflawni ei amcanion.
- Er mwyn symud o'r isafswm, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried ymgymryd â benthyca digefnogaeth cyfyngedig, ond mae'n rhaid i hyn fod ar lefel fforddiadwy, gan ystyried yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r Cyngor.
- Efallai y bydd ffactorau allanol, megis deddfwriaeth newydd neu addasedig, lefelau perfformiad newydd neu'r angen i osgoi methiannau gwasanaeth, yn dwysau'r angen i symud o'r isafswm yn gynt na'r hyn a ystyrir yn ddymunol neu fforddiadwy.
- Gellir osgoi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol drwy resymoli asedau ac ymestyn bywyd asedau presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i gyllido'r prosiectau hynny sy'n cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor orau e.e. y rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy.
- Darperir cyllid cyfatebol lle mae'r prosiect yn cael ei gyllido'n bennaf gan grantiau allanol ac os yw'r prosiect yn unol ag amcanion corfforaethol y Cyngor.
- Bydd prosiectau'r CRT yn parhau i gael eu hasesu ar wahân i brosiectau Cronfa'r Cyngor.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 CHWEFROR 2024** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB CYFALAF 2024/25** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS – DIPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 762601**<br>**rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb cyfalaf ar gyfer 2024/25, fydd yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

**ARGYMHELLION**

Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol i'r Cyngor llawn ar gyfer 2024/25:-

| | Cyfeirnod | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2023/24 a ddygwyd ymlaen | | 6,102 |
| Atgyweirio / Disodli Asedau | | 4,856 |
| Rhaglen Cymunedau Dysgu | | 2,878 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 30,002 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25** | | **43,838** |
| **Cyllidir gan:-** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,222 |
| Cronfa Gyffredinol Benthyca â Chefnogaeth | | 2,164 |
| Cyllid / Cynllun wedi'i Ddadneilltuo ddygwyd ymlaen o 2023/24 | | 470 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 2,700 |
| Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 178 |
| Arian Wrth Gefn y CRT ac Gwarged yn y Flwyddyn | | 17,315 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 11,751 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 936 |
| Cyllid 2023/24 a ddygwyd Ymlaen | | 6,102 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2024/25** | | 43,838 |

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyrir nifer o gynlluniau ychwanegol yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ffactor o ran cyllid fydd fforddiadwyedd a chynyddu cyllid grant allanol.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mater wedi'i neilltuo i'r Pwyllgor Gwaith yw cynnig y gyllideb cyfalaf.

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
|---|---|---|
| Ydy | | |
| **D –** A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
| Amherthnasol | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| 2 | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau mwy yn y dyfodol. |
| 3 | A ydyn ni wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Mae prosiectau cyfalaf, o ran Cymunedau Dysgu a'r CRT, wedi'u halinio â blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth lunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol? Eglurwch sut. | Fel rhan o broses ymgynghori Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023 – 2028, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ddinasyddion yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith a all y penderfyniad ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion sydd wedi'u gosod yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| 6 | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Heb adnabod unrhyw effaith. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. | Heb adnabod unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae opsiynau wedi cael eu hystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2024. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gofynnol) | Mynychodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor gyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Ionawr 2024. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mynychodd y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid gyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Ionawr 2024. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Mynychodd y Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gyfarfod Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Ionawr 2024. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae sylwadau Pennaeth TGCh wedi cael eu ymgorffori yn yr adroddiad. |
| 7 | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| 9 | **Cyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Cyfalaf 2024/25
Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig Terfynol 2024/25

**FF - Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Cyngor llawn 9 Mawrth 2023
Cyllideb Cyfalaf 2023/24 – Cyngor llawn 9 Mawrth 2023
Adroddiadau Monitro Cyfalaf Chwarterol 2023/24 – Pwyllgor Gwaith 26 Medi 2023, 28 Tachwedd 2023

**ATODIAD 1**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2024/25, sydd wedi'i chynnwys isod, yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cyfalaf, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022. Mae'r Strategaeth Cyfalaf wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gyllideb cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25, ond nid yw egwyddorion y strategaeth wedi newid.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH CYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2023/24 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, a bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu'r lefelau cyllido newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodwyd yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25, fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2024.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Cyfalaf cyfredol yn nodi yr egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth lunio ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn, bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf allanol pryd bynnag y bo'n bosibl a fforddiadwy.
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Raglen Cymunedau Dysgu, a bydd yn parhau i ddefnyddio'n llawn cyllid allanol y rhaglen.

**2.3.** Yna, fe aeth y strategaeth ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu darparu, ac roedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Ystyrir y Rhaglen Cymunedau Dysgu ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol.

- Mae disodli asedau presennol a darfodedig yn fuddiol o ran lleihau costau refeniw, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid er mwyn gwella offer TG presennol, cerbydau ac adeiladu'r Cyngor, neu gael rhai newydd.

- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dosbarthu cyllid yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

- Bydd swm penodol yn cael ei ddosbarthu'n flynyddol er mwyn cyllido gwaith gwella ffyrdd. Bydd y swm yn ddibynnol ar y swm sydd ei angen i gyflawni isafswm gwerthoedd contract, y lefel o gyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad ar gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.

- Bydd prosiectau sydd angen cyllid cyfatebol yn cael eu hasesu ar sail achos fesul achos, a bydd unrhyw benderfyniad i ddyrannu cyllid yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a chymhareb cyllid y Cyngor â chyllid allanol.

- Cwblheir prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyca digefnogaeth dim ond os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw, neu mae'r incwm ychwanegol a gynhyrchir, yn ddigon i fodloni unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Cyfalaf hefyd yn egluro sut y dylid asesu unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- Faint fydd y prosiect yn ei gyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg corfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2024/25

**3.1.** Dangosir y cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi fod y ffigwr ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca a chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau setliad dros dro'r Llywodraeth Lleol. Ni wyddys y ffigyrau terfynol nes bod ffigyrau'r setliad terfynol wedi'u cyhoeddi ar 28 Chwefror 2024. Mae'r lefel o gyllid dan y ddau bennawd wedi aros yn eithaf cyson dros nifer o flynyddoedd, ac ni ddisgwylir y bydd yn newid yn sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**

**Cyllid Cyfalaf y Disgwylir ar gyfer 2024/25**

| **Ffynhonnell Ariannu** | **£'000** | **£'000** |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf Cronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau / cyllid a ddygwyd ymlaen o 2023/24 | 6,102 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol 2024/25 | 2,222 | |
| Cyllid Cynllun wedi'i Ddadneilltuo a ddygwyd ymlaen o 2023/24 | 470 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,164 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **10,958** |
| **Cymunedau Dysgu** | | |
| Benthyca Digefnogaeth | 2,700 | |
| Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 178 | |
| **Cyllid ar gyfer Cymunedau Dysgu** | | **2,878** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian wrth Gefn CRT | 8,160 | |
| CRT - Gwarged mewn Blwyddyn | 9,155 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr LlC a Grantiau Allanol Eraill | 11,751 | |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | 936 | |
| **Cyllid ar gyfer y CRT** | | **30,002** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2024/25** | | **43,838** |

**3.2.** Mae'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 £12k yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2023/24, ac mae'n cyd-fynd â'r lefelau cyllido a welwyd dros y 12 mlynedd diwethaf. Ni welwyd cynnydd sylweddol mewn cyllid, er bod gwerth y cyllid wedi lleihau'n sylweddol oherwydd chwyddiant yn ystod y cyfnod hwn.

**3.3.** Er bod gan y Cyngor ysgolion nad ydynt wedi'u gwerthu, mae'r dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd wedi'i ddyrannu i gyllido'r ysgol sydd wedi cymryd eu lle. Mae gan y Cyngor nifer fach o asedau y mae'n dymuno cael gwared arnynt, ond ni chredir eu bod yn eiddo gwerthadwy, ac ni ddisgwylir unrhyw werthiant yn 2024/25. Os bydd unrhyw werthiant yn digwydd, a'u bod yn cynhyrchu derbyniad cyfalaf, bydd y dderbyniad ar gael fel cyllid ychwanegol yn 2025/26.

**3.4.** Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi darparu cyllid mewn arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido prosiectau unigol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio £3.78m o arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb refeniw 2023/24, ac mae'n bwriadu defnyddio £4.4m pellach yn 2024/25. Mae hyn wedi lleihau arian wrth gefn y Cyngor i'r isafswm, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn fel cyllid cyfalaf yn 2024/25.

**3.5.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau'r cyfrif hwnnw, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Rhagwelir y bydd balans arian wrth gefn y CRT oddeutu £9.3m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Cynllun Busnes y CRT yn gosod targed o 5% o incwm derbyniadwy (oddeutu £1.2m) fel isafswm balans arian wrth gefn y cyfrif hwn, sy'n golygu y gellir defnyddio'r gweddill i gyllido gwariant cyfalaf yn 2024/25.

## 4. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2024/25

### 4.1. Cynlluniau wedi'u Dwyn Ymlaen o 2023/24

Mae'r adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd chwarter 3 2023/24 yn rhagweld y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei thanwario £9.236m, er gall y sefyllfa derfynol newid yn ystod y chwarter olaf. Unwaith fydd y sefyllfa derfynol ar gyfer 2023/24 yn wyddys, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ynghyd a chais i gymeradwyo'r broses o ddwyn cyllid ymlaen o 2023/24 i 2024/25.

Mae cynlluniau ymrwymedig a fydd yn cael eu rhedeg am nifer o flynyddoedd o'r flwyddyn bresennol a thu hwnt wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon gan fod cyllidebau newydd eu hangen**.**

**Tabl 2**

**Cynlluniau Ddygwyd Ymlaen 2023/24**

| Cynlluniau 2023/24 Ddygwyd Ymlaen | 2024/25<br>£'000 |
|---|---|
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 1,207 |
| Y Gronfa Ffyniant Bro (amrywiaeth o brosiectau) | 4,895 |
| **Cyfanswm Cynlluniau Ddygwyd Ymlaen** | **6,102** |

### 4.2. Adnewyddu / Disodli Asedau Presennol

Bob blwyddyn, mae'n rhaid buddsoddi yn asedau'r Cyngor er mwyn ymestyn eu hoes a sicrhau eu bod yn addas at eu diben, neu i ddisodli asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Cynigir y canlynol:-

- **Adnewyddu Ysgolion –** Mae'r gost o glirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ym 46 o ysgolion y Cyngor yn sylweddol, ac ni ellir ei gyllido'n llawn yn y tymor byr a chanolig. Efallai y bydd rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor yn lleihau peth o'r gost hon, ond bydd nifer o'r ysgolion presennol yn parhau i gael eu defnyddio yn y tymor hir. Bydd £1m yn cael ei ddyrannu er mwyn gwneud y gwaith brys mae Tîm Eiddo'r Cyngor wedi'i adnabod a'i flaenoriaethu. Bydd y cyllid hefyd yn gyllid cyfatebol ar gyfer grantiau Gwresogi Carbon Isel mae'r Cyngor wedi ymgeisio ar eu cyfer.

- **Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion –** Eto, mae ôl-groniad o waith wedi'i adnabod yn swyddfeydd, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor, ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn unrhyw un blwyddyn. Mae £600k wedi'i gynnig, a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigon er mwyn talu costau'r rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth sydd angen ei gwblhau.
- **Ailwynebu Priffyrdd** – Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau fod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal amodau Sefydlogrwydd Eiddo (Ataliol) ar ein ffyrdd. Byddai cyllideb dan y swm gofynnol hwn yn arwain at lai o effeithlonrwydd a llai o werth am gyllid oherwydd costau ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o gyllid yn cael ei wario ar waith brys, a'r risg o gynnydd mawn hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Bydd y dyraniad £2m hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer cynlluniau atal llifogydd graddfa fach lle bo'n ofynnol, gan fod y cynlluniau hyn yn helpu i atal llifogydd a diogelu'r rhwydwaith ffyrdd rhag difrod pan fydd llifogydd yn digwydd.
- **Cerbydau –** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel a ddefnyddir. Fodd bynnag, bydd cyflawni hyn o fewn cyfyngiadau cyllido presennol yn heriol, a bydd y Cyngor yn dibynnu ar gyllid grant ychwanegol, neu bydd yn rhaid newid o bryniant uniongyrchol i brydlesu, er mwyn cyflawni'r newid. Mae'r Gwasanaeth wedi nodi i lori graeanu a bysiau mini newydd ar gyfer Trafnidiaeth Cymunedol Môn, fel blaenoriaeth. Mae £206k wedi'i ddyrannu yn y gyllideb arfaethedig i brynu un lori graeanu newydd ac i ddechrau rhaglen disodli bysiau mini Trafnidiaeth Cymunedol Môn.
- **Asedau T.G –** Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn cynnal isadeiledd craidd y Cyngor a disodli dyfeisiadau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd mai £300k sydd ei angen er mwyn cynnal yr isadeiledd craidd ac i ddisodli dyfeisiau bwrdd gwaith.

**4.3. Grantiau Cyfleusterau Anabl**

Mae'r galw am addasiadau mawr i alluogi trigolion anabl i barhau i fyw gartref yn parhau i fod yn uchel. Mae cyllid o £500k ar gyfer addasu tai Cyngor wedi'i gynnwys yng nghyllideb cynnal a chadw arfaethedig y CRT, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido gwaith mewn cartrefi preifat hefyd. Rhagwelir y bydd oddeutu £600k o ymrwymiadau'n bodoli yn 2024/25 yn ychwanegol at unrhyw geisiadau newydd a ddaw i law yn ystod 2024/25. Y cynnig yw cynnal y dyraniad cyllideb blynyddol o £750k ar gyfer 2024/25.

## 5. BIDIAU ERAILL AR GYFER CYLLID YCHWANEGOL UNTRO

**5.1.** Gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf ar gyfer 2024/25 i gyllido cost prosiectau untro. Derbyniwyd cyfanswm o 13 cais, gwerth £1.793m. Ar ôl ystyried y bidiau, ac o ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, ni ystyriwyd bod yr un ohonynt yn angenrheidiol i atal y risg o fethiant gwasanaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall hyn newid yn y blynyddoedd i ddod.

**5.2.** Gellid cylllido nifer fechan o'r bidiau drwy fenthyca digefnogaeth, gan fod posib iddynt gynhyrchu arbedion refeniw digonol neu incwm ychwanegol a fyddai'n ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf blynyddol ychwanegol. Gall gwasanaethau gyflwyno achos busnes i'w ystyried yn 2024/25 a fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith pan fydd yr achosion yn cael eu cyflwyno.

## 6. RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU

**6.1** Mae gwaith y Cyngor i foderneiddio'r ystâd ysgolion, drwy raglen Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru'n parhau, er bod y rhaglen bresennol ond yn cynnwys cwblhau estyniad Ysgol y Graig.

**6.2** Bydd bid am y gyfran nesaf o gyllid yn cael ei gyflwyno maes o law ond ar gyfer 2024/25 dim ond cynllun Ysgol Y Graig sydd wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25. Amcangyfrifir y bydd gweddill y cynllun yn costio £3.030m (2024/25 £2.878m a 2025/26 £0.152m) a bydd hyn yn cael ei gyllido yn 2024/25 drwy fenthyca digefnogaeth gwerth £2.7m a'r defnydd o dderbyniadau cyfalaf o werthiant Ysgol Talwrn, sef £0.178m.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Yn y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2024/25, bydd buddsoddiad yn parhau yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus gyda safonau SATC, gyda £10.185m yn cael ei fuddsoddi. Bydd £12.667m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac ail-brynu hawl i brynu blaenorol.

**7.2** Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£8.160m), gwarged y refeniw a gynhyrchir yn 2024/25 (£9.155m), Benthyca Digefnogaeth (£0.936m) a grantiau Llywodraeth Cymru (£11.751m).

**7.3** Bydd y rhaglen fuddsoddi tymor hir, yn ogystal â'r ffordd y bydd yn cael ei gylllido dros y 30 mlynedd nesaf, yn cael ei nodi yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai, fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn fuan.

## 8. CRYNODEB O RAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2024/25

**8.1** Mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25 wedi'i chrynhoi yn Nhabl 3 isod, ac wedi'i ddadansoddi mewn manylder yn Atodiad 2:-

**Tabl 3**

**Crynodeb o Raglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25**

| | **Cyfeirnod** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau /Dygwyd ymlaen o 2023/24 | Para 4.1 | 6,102 |
| Atgyweirio / Disodli Asedau | Para 4.2 & 4.3 | 4,856 |
| Cymunedau Dysgu | Para 6 | 2,878 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 30,002 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25** | | **43,838** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,222 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Cyffredinol | | 2,164 |
| Cynllun wedi'i Ddadneilltuo ddygwyd ymlaen o 2023/24 | | 470 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 2,700 |
| Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 178 |
| Arian Wrth Gefn CRT a Gwarged yn y Flwyddyn | | 17,315 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 11,751 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 936 |
| Cyllid 2023/24 Dygwyd Ymlaen | | 6,102 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2024/25** | | **43,838** |

**ATODIAD 2**

## CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL 2024/25

| Cynllun | Cyllideb<br>£'000 | Grantiau Allanol<br>£'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>£'000 | Benthyca â Chymorth<br>£'000 | Benthyca Digymorth<br>£'000 | Arian Wrth Gefn y CRT<br>£'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023/24 Cynlluniau ymrwymedig dygwyd ymlaen** | | | | | | | |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 1,207 | 1,207 | | | | | |
| Y Gronfa Ffyniant Bro (amrywiaeth o brosiectau) | 4,895 | 4,895 | | | | | |
| **Cyfanswm Cynlluniau Ymrwymedig 2023/24** | **6,102** | **6,102** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Atgyweirio / Disodli Asedau** | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 750 | | 750 | | | | |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | | | 1,000 | | | |
| Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion | 600 | | | 600 | | | |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,000 | | 1,472 | 528 | | | |
| Cerbydau | 206 | | | 206 | | | |
| Asedau TG | 300 | | | 300 | | | |
| **Cyfanswm Atgyweirio / Disodli Asedau** | **4,856** | | **2,222** | **2,634** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Rhaglen Cymunedau Dysgu** | | | | | | | |
| Ysgol y Graig | 2,878 | | | | 2,700 | | 178 |
| **Cyfanswm Rhaglen Cymunedau Dysgu** | **2,878** | | | | **2,700** | | **178** |
| **CYFANSWM CRONFA GYFFREDINOL** | **13,836** | **6,102** | **2,222** | **2,634** | **2,700** | **0** | **178** |

| Cynllun | Cyllideb<br><br><br><br>£’000 | Grantiau Allanol<br><br><br><br>£’000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br><br><br>£’000 | Benthyca â Chymorth<br><br><br><br>£’000 | Benthyca Digymorth<br><br><br><br>£’000 | Arian Wrth Gefn y CRT<br><br><br><br>£’000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw wedi’i Gynllunio SATC | 13,000 | 3,646 | | | | 9,354 | |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-brynu Eiddo Hawl i Brynu | 17,002 | 8,105 | | | 936 | 7,961 | |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **30,002** | **11,751** | | | **936** | **17,315** | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2024/25** | **43,838** | **17,853** | **2,222** | **2,634** | **3,636** | **17,315** | **178** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **29 Chwefror 2024** |
| Pwnc: | **Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Cynghorwyr Llinos Medi (Datblygu Economaidd) Dafydd Rhys Thomas (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)** |
| Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr: | **Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>**Huw Percy Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur H. Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol I'r holl Aelodau Etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhellion:**
**Y Pwyllgor Gwaith:**

1. Yn cytuno fod y Prif Weithredwr yn anfon llythyr ffurfiol at Lywodraeth Cymru yn eu cymell i newid eu polisi mewn perthynas â chroesfan y Fenai, a'u bod yn cydnabod yr angen i adfer yr annigonolrwydd a diffyg cydnerthedd sy'n bodoli.
2. Yn cytuno fod y Prif Weithredwr yn rhannu ein hadroddiadau gyda aelodau Senedd rhanbarthol, phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol er mwyn dylanwadau, a'u bod nhw'n cefnogi sefyllfa'r Cyngor er budd rhanbarth Gogledd Cymru.

Mae'r adroddiad yn adeiladu ar y papur a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023 (Pwyllgor Gwaith 18072023) lle cytunodd y Pwyllgor Gwaith i:

1) Gymeradwyo'r adroddiad a'i gasgliad na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried mai prosiect ffordd syml yw Croesfan y Fenai, ynghyd â mabwysiadu safbwynt cadarnhaol o ran polisi sy'n cydnabod yr angen hanfodol i wella dibynadwyedd a chydnerthedd croesfannau'r Fenai.
2) Yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr gyflwyno sylfaen dystiolaeth y Cyngor i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru cyn y dyddiad cau ar Orffennaf 28ain.

Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo'r gwaith o adeiladu 3ydd croesfan posibl ar draws y Fenai, gyda'r bwriad o gwblhau ei archwiliad ym mis Gorffennaf 2023. Cafwyd adroddiad ganddynt ym mis Rhagfyr 2023, a gellir darllen mwy am y canfyddiadau yma: https://www.llyw.cymru/NWTC

Mae gan y Cyngor ddau brif bryder gyda chanfyddiadau CTGC:

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
| --- |
| 1) Mae'r cynsail y mae'r adroddiad yn seiliedig arno yn anghywir – nid yw'n ystyried opsiynau ar gyfer gwella cydnerthedd y cysylltiadau ar draws y Fenai yn y cylch ers i'r opsiynau ar gyfer gwella'r isadeiledd ar gyfer cerbydau gael eu diystyru yn y dechrau.<br><br>2) Mae hyn yn arwain at argymhellion sy'n llwyr annigonol ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ynys Môn a'r ardal ehangach. Bydd yr argymhellion un ai yn cael ychydig o effaith o ran gwella cysylltedd ar draws y Fenai, neu'n peri risgiau/ansicrwydd sylweddol o ran darpariaeth (gan gynnwys eu bod eisoes wedi'u diystyru).<br><br>Gellir gweld ymateb manwl a baratowyd gan y Cyngor Sir, mewn ymateb i ganfyddiadau'r CTGC yn Atodiad A.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ystyried yr argymhellion/opsiynau hyn o'r blaen, ac mae o'r farn na fyddant yn mynd i'r afael â'r diffyg cydnerthedd sy'n bodoli'n ddigonol.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi mynegi ei sefyllfa'n glir ynghylch yr angen i wella materion mewn perthynas â chroesfan y Fenai. Mae'r tagfeydd a'r diffyg cydnerthedd yn gyfyngol iawn, neu'n cael effaith negyddol sylweddol ar gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, addysg, iechyd a diwylliannol, gyda gweddill y wlad.<br><br>Yn waeth na hynny, mae'n rhwystro'n ynys rhag denu'r busnesau a'r gweithgarwch economaidd sydd ei angen arni i leihau nifer y bobl sy'n colli gwaith, diffyg gwaith ar yr ynys a lleihau'r ddibyniaeth ar waith oddi ar yr ynys. Bydd hefyd yn gwaethygu'r heriau mae economi'r ynys yn eu hwynebu ac yn atal rhoi polisïau allweddol ar waith sy'n ceisio ailadeiladu ei sylfaen waith, a lleihau'r angen i drigolion adael yr ynys i ddod o hyd i waith.<br><br>Mae Pont y Borth yn destun gwaith brys diweddar ar hyn o bryd oherwydd ei oed, sydd wedi arwain at ddiffyg capasiti, a bydd hyn yn parhau hyd at o leiaf 2025.<br><br>Yn syml, mae'r argymhellion gan CTGC yn ymateb annigonol i'r her rydyn ni'n ei hwynebu.<br><br>Mae cydnerthedd a dibynadwyedd croesfan y Fenai yn mynd y tu hwnt i fuddion sy'n berthnasol i drafnidiaeth yn unig, mae'n fwy na chynllun ffordd syml ac mae'n mynnu sylw o fewn cyd-destun strategol ehangach, tymor hir. |
| |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Mae'n rhaid gwneud rhywbeth - o ystyried y materion hanesyddol ynghylch croesi i'r tir mawr, mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn rymus i annigonolrwydd adroddiad CTGC. |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae sicrhau'r gefnogaeth a'r cadarnhad ffurfiol ar gyfer y Pwyllgor Gwaith yn bwysig o ystyried pwysigrwydd y pwnc wrth law, a diddordeb sylweddol rhanddeiliaid lleol.<br><br>Mae hyn hefyd yn adeiladu ar drafodaethau a gynhaliwyd yn flaenorol, gan gynnwys y Cyngor Llawn a gynhaliwyd 23 Mai, 2023<br>https://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MId=4173&Ver=4&LLL=0<br><br>a hefyd ar 18 Gorffennaf, 2023<br>https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/uuCoverPage.aspx?bcr=1&LLL=1 |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Nac ydy – dim effaith ar y gyllideb. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:- | Na |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Na |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad hwn. Eglurwch – | Amherthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei | Amherthnasol |

| Dd – Asesu’r effaith bosibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli (UDRh)<br>(gorfodol) | Cefnogi |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151<br>(gorfodol) | Cefnogi |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro<br>(gorfodol) | Cefnogi |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Ymateb i Adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: ‘Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai’. |

| Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

f

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Ymateb i Adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: 'Gwella Gwytnwch Cysylltiadau ar Draws Afon Menai'

Ionawr 2024

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynnwys

1 Trosolwg o'n Hymateb ____ 3
2 Gwytnwch ____ 9
4 Darpariaeth Teithio Llesol ____ 18
5 Cynllunio a Rheoli Teithio ____ 22
6 Dewisiadau Rheoli Traffig Pellach ____ 23

# 1 Trosolwg o'n hymateb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) 'Gwella Gwytnwch Cysylltiadau ar Draws Afon Menai'.

1.2 O ran yr adroddiad hwn, mae gan y Cyngor ddau destun pryder ynghyd ag agweddau y mae'n eu herio:

1.2.1 **Mae cynsail yr adroddiad yn anghywir –** nid yw'n ystyried holl agweddau'r opsiynau ar gyfer gwella gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai gan yr ymddengys fod yr opsiwn o ran gwella'r seilwaith ar gyfer cerbydau wedi'i ddiystyru o'r cychwyn cyntaf.

1.2.2 **Mae hyn yn arwain at argymhellion sy'n gwbl annigonol** ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ynys Môn a'r ardal ehangach. Bydd yr argymhellion naill ai'n cael ychydig iawn o effaith ar wella cysylltedd ar draws Afon Menai, neu'n arwain at risgiau / ansicrwydd difrifol o ran eu cyflenwi (gan gynnwys eu bod eisoes wedi'u diystyru).

1.2.3 Yn ogystal â'r effeithiau difrifol o safbwynt lleol, mae hyn yn arwain at effeithiau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan ei fod mewn perygl o danseilio llwyddiant Porthladd Caergybi, cyflenwi Porthladd Rhydd Ynys Môn, effeithiolrwydd y Fargen Twf, ac mae'n gwneud y posibilrwydd o gyflenwi gorsaf bŵer niwclear newydd yn y Wylfa yn anoddach.

1.3 Pwrpas adroddiad CTGC yw gwella gwytnwch ar draws Afon Menai gan hefyd gyflawni nodau Llwybr Newydd o ran hybu Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus. Nid ydym yn ystyried bod argymhellion yr adroddiad yn mynd i'r afael ag unrhyw rai o'r rhain yn ddigonol. Yn yr un modd, mae newidiadau o ran ymddygiad yn anhebygol o leihau tagfeydd yn ddigonol.

### Mae cylch gwaith yr adroddiad yn rhy gyfyng – ac felly mae ei gynsail yn anghywir

1.4 Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod argymhellion y panel yn seiliedig ar benderfyniad a wnaed ymlaen llaw bod trydedd groesfan, neu yn wir unrhyw ddull arall o wella'r seilwaith ffisegol ar gyfer traffig cerbydol, wedi'u diystyru eisoes.

1.5 Mae'r paragraff agoriadol yn nodi:

*'Gofynnwyd i ni ddarparu opsiynau sy'n cyd-fynd â'r dibenion a'r amodau ar gyfer buddsoddi mewn ffyrdd a nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd.'*

1.6 Ac mae Adran 1.1 'Cylch Gwaith y Comisiwn' yn nodi:

*'Argymhellodd yr adroddiad na ddylai Trydedd Bont y Fenai yr A55 fynd yn ei flaen. Roedd y Panel o'r farn nad oedd yr achos dros newid yn cyd-fynd yn dda â nod Llywodraeth Cymru i leihau milltiroedd ceir. Byddai'r cynllun yn arwain at fwy o draffig ac allyriadau carbon deuocsid, a newid modd o drafnidiaeth gyhoeddus i deithio mewn ceir, a hynny'n anghyson â'r targed i gynyddu cyfran modd trafnidiaeth gynaliadwy.'*

1.7 Mae'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â Thrydedd Groesfan yn dangos camddealltwriaeth sylfaenol o rôl y groesfan o fewn y cyd-destun economaidd a chymdeithasol lleol. Ymddengys fod y Drydedd Groesfan wedi'i diystyru oherwydd:

- cynnydd mewn traffig rhwng dwy ardal y mae'r adroddiad yn cydnabod bod cyswllt economaidd a chymdeithasol sylfaenol rhyngddynt;

- cynnydd mewn allyriadau carbon nad yw'n ystyried effaith cyflwyno cerbydau trydan;

- newid o ran dulliau teithio i ffwrdd o drafnidiaeth gyhoeddus y mae'r adroddiad ei hun yn cydnabod sy'n wael er hyn o bryd, ac felly ychydig iawn o newid a all ddigwydd o safbwynt newid dulliau teithio.

1.8 Gan ystyried pob pwynt yn ei dro, ein dealltwriaeth ni o bolisi Llywodraeth Cymru o ran dim ffyrdd newydd yw nad yw'n berthnasol mewn achos lle byddai ffordd newydd yn datgloi modd o gyflenwi gweithgaredd economaidd newydd, fel ystâd ddiwydiannol. Mae'r adroddiad yn cydnabod y cysylltiadau rhwng Ynys Môn a'r tir mawr. Mae adran 1.3 yn nodi:

*Er eu bod wedi'u gwahanu gan y Fenai ac mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, mae'r trefi ar ddwy ochr y Fenai <u>yn ffurfio un ardal economaidd</u>.*

1.9 Fodd bynnag, ymddengys nad yw'n ystyried y ffaith bod natur unigryw economi Ynys Môn, o ran ei bod yn ynys, yn golygu y byddai Trydedd Groesfan dros y Fenai yn datgloi neu'n cyflenwi gweithgaredd economaidd yn yr un modd ag y gallai ffordd ddatgloi safle diwydiannol. Ac nid yw ychwaith yn cydnabod yn llawn pwysigrwydd naill ai Porthladd Rhydd Ynys Môn neu orsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa o safbwynt cyflawni amcanion polisi cenedlaethol a rhanbarthol sydd o bwys strategol. O ystyried yr amserlenni i gynllunio ac adeiladu prosiectau seilwaith, mae angen bwrw ymlaen â Thrydedd Groesfan yn syth, i fanteisio i'r eithaf ar y gwerth o ganlyniad i unrhyw fuddsoddiad posibl – nid yw'n gallu disgwyl am benderfyniadau terfynol ynghylch Wylfa neu am gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y Porthladd Rhydd.

1.10 Rydym yn cydnabod bod gan brosiect blaenorol Wylfa Newydd strategaeth a oedd yn golygu bod modd ei gyflenwi heb bont newydd - ond o ystyried graddfa gyfunol y twf a allai ddigwydd ym Môn o ganlyniad i'r Porthladd Rhydd, Wylfa a phrosiectau Bargen Twf Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, mae'n hanfodol i asesu'r angen am Drydedd Groesfan yn ei gyfanrwydd.

1.11 Fodd bynnag, ymddengys fod yr adroddiad yn diystyru'r effaith y gallai naill ai'r Porthladd Rhydd neu Wylfa ei gael ar y galw o safbwynt traffig trwy ddweud nad yw wedi gallu sicrhau tystiolaeth gadarn o'r effaith bosibl. Er ein bod yn cydnabod nad oes unrhyw dystiolaeth fanwl ar gael hyd yma ar gyfer y naill brosiect na'r llall, o ystyried y graddau cymharol y maent wedi'u datblygu, mae rhywfaint o dystiolaeth yn y parth cyhoeddus, a byddem yn hapus i gynorthwyo'r comisiwn trwy ddarparu gwybodaeth lle bo angen. Mae'n hanfodol i ystyried y galw o ganlyniad i ddatblygu economaidd, gan gynnwys Wylfa a'r Porthladd Rhydd.

1.12 Mae'r adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd y groesfan o ran gallu cymunedau i gael mynediad at wasanaethau:

*Mae'r digwyddiadau a'r achosion hyn o gau yn cael effaith sylweddol ar allu pobl i groesi Afon Menai i gael mynediad at addysg, iechyd, gwaith a gwasanaethau eraill, ac maent yn ei gwneud hi'n anodd i'r gwasanaethau brys a busnesau weithredu.*

1.13 Ond ymddengys nad yw pwysigrwydd y swyddogaeth hon yn cael ei adlewyrchu yn argymhellion yr adroddiad.

1.14 Yr ail reswm y cafodd Trydedd Groesfan ei diystyru yw oherwydd y cynnydd mewn allyriadau carbon. Dengys gwybodaeth flaenorol a gyflwynwyd gan CSYM bod yr effaith o ran carbon dros oes y prosiect yn fach iawn. Amcangyfrifir y byddai'r opsiwn a ffefrir o ran cael y Drydedd Groesfan dros y Fenai yn arwain at gynnydd o 0.01% rhwng 2024 a 2050, y gellid ei wrthbwyso gan 12,380 o geir diesel yn cael eu newid am gerbydau trydan rhwng 2024 a 2050 - sy'n cyfateb i ddim ond 1.7% o'r holl geir a faniau diesel yng Nghymru, neu 0.1% y flwyddyn rhwng 2024 a 2050.

1.15 Ymddengys na chynhaliwyd asesiad sy'n ystyried bob agwedd ar yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac economaidd – ac nid yw ychwaith yn ymddangos bod cyflwyno cerbydau trydan wedi cael ei ystyried yn briodol o fewn y broses benderfynu.

1.16 Y rheswm terfynol dros ddiystyru Trydedd Groesfan yw y byddai'n creu newid o safbwynt dulliau teithio, o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i ddefnyddio cerbydau preifat. Mae'r adroddiad yn nodi'n gywir bod y llwybrau teithio cyhoeddus, ac o ran teithio llesol, sydd ar gael ar draws Afon Menai yn eithriadol o gyfyngedig:

*Rydym hefyd yn cydnabod bod cyfleoedd ar gyfer teithio heb geir rhwng aneddiadau, cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau, yn gyfyngedig gan hygyrchedd, cost, amleddau gwasanaeth, dibynadwyedd, a diffyg seilwaith ar gyfer bysiau a rheilffyrdd a theithio llesol.*

1.17 Mae'r adroddiad yn cydnabod na chaniateir i bobl gerdded ar draws Pont Britannia, ac mai dim ond y beicwyr mwyaf hyderus sy'n beicio drosti. Mae'r rhwydwaith bysiau'n wael ac wedi gwaethygu o ganlyniad i benderfyniad Arriva i leihau gwasanaethau bysiau, a wnaed yn bennaf oherwydd oediadau a achoswyd gan yr achosion o orfod cau Pont Menai.

1.18 Felly, os mai un rheswm dros beidio â gwella mynediad i gerbydau dros y Fenai yw oherwydd pryder y bydd pobl yn symud o ddulliau teithio cyhoeddus neu lesol, mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli camddealltwriaeth lwyr o'r cyd-destun presennol. Dim ond nifer fach iawn o deithiau a allai newid i yrru cerbyd.

## Mae'r argymhellion yn ymateb annigonol i'r her

1.19 Fel y nodwyd uchod, yn ei hanfod, mae'r panel yn ateb y cwestiynau anghywir. Felly, er bod Cyngor Sir Ynys Môn efallai'n cefnogi'r argymhellion mewn egwyddor, nid ydynt yn agos i fynd yn ddigon pell tuag at ddatrys yr heriau a wynebir gan gymuned ac economi Ynys Môn.

1.20 Ymddengys fod y panel yn deall y rhan fwyaf o natur yr heriau hyn o safbwynt yr economi, y rhwydwaith presennol, a gallu pobl i gael mynediad at wasanaethau (gan gynnwys iechyd ac addysg). Ond eto, nid yw'r argymhellion yn adlewyrchu graddfa'r heriau hyn. Mae bob un o'r pwyntiau bwled a ganlyn yn ddyfyniadau uniongyrchol o'r adroddiad, sy'n fodd defnyddiol i grynhoi'r heriau a wynebir:

- *Mae materion gwytnwch gwirioneddol a chanfyddedig gyda'r croesfannau yn cael effaith negyddol ar atyniad Ynys Môn ar gyfer buddsoddiad economaidd.*
- *Mae cau Pont Britannia yn arwain at ganlyniadau mwy sylweddol na chau mannau eraill ar y rhwydwaith ffyrdd strategol.*
- *Mae achosion o gau Pont Britannia yn ddiweddar wedi eu gwaethygu oherwydd gwaith ar Bont Menai.*
- *Mae ganddi [Pont Menai] lonydd cul ac nid yw'n addas iawn i fod yn ffordd ryddhau pan fydd Pont Britannia ar gau, yn enwedig ar gyfer cerbydau ag ochrau uchel. Mae ganddi derfyn cyflymder o 30mya a tua hanner capasiti Pont Britannia.*
- *Mae'r digwyddiadau a'r achosion hyn o gau yn cael effaith sylweddol ar allu pobl i groesi Afon Menai i gael mynediad at addysg, iechyd, gwaith a gwasanaethau eraill, ac maent yn ei gwneud hi'n anodd i'r gwasanaethau brys a busnesau weithredu.*
- *Am ran helaeth o'r dydd, mae'r pontydd yn gweithredu ar lefel sy'n agos at eu capasiti. Gall maint y traffig arwain at oedi a thagfeydd, ac felly amseroedd teithio hir, yn enwedig yn ystod tymor twristiaid yr haf.*
- *Gall oedi effeithio ar amseroedd ymateb cerbydau brys.*
- *Nid yw'r cymunedau ar Ynys Môn yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y rhwydwaith rheilffyrdd.*
- *Ar hyn o bryd, mae amseroedd teithio bws yn anghystadleuol gyda'r car sy'n cyfyngu ar y potensial i gyflawni newid dulliau teithio.*
- *Yn gyffredinol, nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn darparu lefel dda o wasanaeth ar gyfer croesi Afon Menai.*
- *Mae Porthladd Caergybi yn chwarae rhan hanfodol o ran cludo nwyddau a chargo i Iwerddon a dyma'r porthladd rholio ar / oddi ar (Ro-Ro) prysuraf yn y DU ar ôl Dover.*
- *Mae gobaith o hyd am gyfleuster newydd, Wylfa Newydd, a fyddai'n cyfrannu'n sylweddol at seilwaith ynni Cymru ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth.*

1.21 Mae'r adroddiad yn cynnig 16 argymhelliad ar draws pum thema gyffredinol – gwytnwch, trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol, cynllunio llwybrau teithio, dewisiadau rheoli traffig pellach – y byddwn yn eu hystyried yn eu tro.

1.22 Ein pryder trosfwaol yw, er bod yr adroddiad yn cydnabod bod y ddwy bont yn gweithredu mewn modd sy'n agos at eu capasiti llawn am y rhan fwyaf o'r dydd, nid yw nifer helaeth o'r argymhellion yn rhoi sylw i gynyddu capasiti. Eu nod yw naill ai lleihau niferoedd yr achosion o orfod cau'r pontydd (o ganlyniad i naill ai ddamweiniau neu wynt cryf), lliniaru'r effeithiau pan fyddent yn gorfod cael eu cau, neu hybu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus (a gaiff ychydig iawn o effaith o ran capasiti o safbwynt y gallu i deithio ar draws y pontydd).

1.23 Pwyslais amlwg yr argymhellion yw newid dulliau teithio, naill ai i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol, neu trwy newid ymddygiad. I raddau helaeth, mae hyn yn gorbrisio potensial newid dulliau teithio gan mai:

- Dim ond ychydig iawn o deithiau sy'n ddigon byr i fod yn dripiau teithio llesol;
- Ychydig iawn o alw cudd sydd yna am dripiau teithio llesol;

- Mae'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn wael – nid ydynt yn mynd yn ddigon aml, ac nid ydynt yn cysylltu pobl â lle y maent angen mynd;

- Mae'r problemau o ran Afon Menai wedi arwain yn uniongyrchol at leihau'r gwasanaethau bysiau;

- Nid yw'r mathau o dripiau a wneir gan bobl sy'n croesi Afon Menai yn addas iawn fel rhai a fyddai'n hybu teithio llesol neu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus – er enghraifft, pobl sy'n teithio i wneud eu siopa wythnosol ym Mangor.

1.24 Yr unig argymhelliad sydd wirioneddol yn ystyried cynyddu capasiti ar draws y pontydd yw'r opsiwn am lif llanw tair lôn, ond mae'r atodiad i'r adroddiad yn nodi mai casgliad adroddiad Atkins, a oedd wedi ystyried yr opsiwn hwn yn flaenorol, oedd na ellid lliniaru'r risg i lefel dderbyniol, ac na ddylid bwrw ymlaen â'r opsiwn o ran cael llif llanw. **Yn lle hynny, y penderfyniad ar y pryd oedd bwrw ymlaen â gwaith ar yr opsiwn a ffefrir, sef Trydedd Groesfan ar draws Afon Menai**.

1.25 Felly mae'r symudiad tuag at ymagwedd 'lliniaru a chynyddu gwytnwch' yn anghyson â'r casgliad y daethpwyd iddo'n flaenorol bod angen cynyddu capasiti (sy'n gasgliad cywir).

### Mae'r Cyngor yn cefnogi'r angen i wneud rhagor o waith ar yr argymhellion (y mwyafrif ohonynt) yn y tymor byr, ond mae angen brys i ailddechrau gweithio ar yr opsiwn i gael Trydedd Groesfan

1.26 Tra bo'r Cyngor yn cefnogi'r angen i wneud rhagor o waith ar yr argymhellion yn y tymor byr, mae angen brys i ailddechrau gweithio ar yr opsiwn i gael Trydedd Groesfan - mae hyn yn cynnwys gwaith cynllunio, y broses gydsynio a rhoi'r opsiwn ar waith.

1.27 Rydym hefyd yn pryderu y gallai'r argymhellion hyn dynnu'r sylw oddi ar y syniad o gael Trydedd Groesfan, sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau gwytnwch a dibynadwyedd ar draws Afon Menai. Pe bai'r argymhellip hyn yn cael eu rhoi ar waith, yna byddem eisiau sicrwydd na fyddai hyn yn tynnu sylw oddi ar ganolbwyntio ar fwrw ymlaen â chael Trydedd Groesfan neu ariannu gwaith ar gyfer hynny. Byddai angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer rhannau o'r prosiect, ac ar sail tystiolaeth bresennol, ein barn ni yw y byddai'n anhebygol o gynnig yr un gwerth am arian â hynny o ganlyniad i Drydedd Groesfan. Byddai'r Cyngor eisiau sicrwydd y byddai unrhyw fesurau tymor byr yn cael eu monitro a'u gwerthuso, fel y gellir bwydo gwybodaeth i mewn i'r broses ddylunio a'r cynllun busnes ar gyfer Trydedd Groesfan.

1.28 Mae'r adroddiad yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r opsiwn o gael Trydedd Groesfan ar lefel uchel, gan gynnwys y potensial o ran rhannu costau â Wylfa a/neu'r Porthladd Rhydd, ac ymddengys ei fod yn cydnabod y datblygiadau economaidd a allai fod yn ddibynnol ar wella gwytnwch. Mae'n mynd ymlaen wedyn i ddweud y byddai angen i unrhyw bont yn y dyfodol fodloni profion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu ffyrdd. Ar y pwynt hwn yn yr adroddiad (Adran 7.2), ymddengys mai cwestiwn agored ydyw. Fodd bynnag, nid dyma gynsail yr adroddiad, gan yr ymddengys fod yr uchod eisoes wedi dod i gasgliad nad yw Trydedd Groesfan yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru.

1.29 Mae'r adroddiad yn nodi y byddai Trydedd Groesfan yn cymryd 'cryn dipyn o amser i'w chyflawni'. Mae CSYM yn cytuno â'r casgliad hwn, a dyna'r rheswm ein bod yn siomedig ac yn bryderus bod gwaith ar yr opsiwn o gael Trydedd Groesfan wedi'i oedi.

1.30 Fel y nodwyd eisoes, tra bo'r Cyngor yn cefnogi'r mwyafrif o'r argymhellion yn yr adroddiad, maent yn annigonol ar gyfer datrys y broblem dan sylw. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt yng nghyswllt y Drydedd Groesfan, fel y gellir canfod datrysiad cynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, Yn y cyfamser, edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid pwysig eraill i fwrw ymlaen â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

1.31 Yn y gweddill o'r adroddiad hwn, rhoddir ystyriaeth i bob un o'r pum thema a'r 16 argymhelliad yn eu tro.

# 2 Gwytnwch

*Gorddibyniaeth ar rôl Pont Menai at y dyfodol*

2.1 Mae'r adroddiad yn siarad am y 'ddwy bont fel system gyfunol'. Rydym yn cytuno â'r cynsail hwn, ond yn pryderu efallai bod gormod o hyder yn rôl Pont Menai unwaith y bydd y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau.

2.2 Dylai'r gwaith adnewyddu presennol ar Bont Menai greu pont sy'n gydnerth o safbwynt adeileddol, ac nid yw gwynt cryf yn effeithio arni fel arfer. Ond mae Pont Menai'n bron i 200 oed, a bu rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw cyson arni, sydd wedi arwain at lai o gapasiti o ganlyniad i orfod ei chau'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Efallai mai syniad optimistig felly yw tybio na fydd gwytnwch Pont Menai'n broblem yn y dyfodol.

2.3 Mae ganddi rôl fwy cyfyngedig hefyd na Phont Britannia - nid yw ar yr A55, mae hi wedi'i chyfyngu i 20 milltir yr awr, mae ganddi gyfyngiadau o ran maint cerbydau (hyd yn oed pan mae'n gadarn o ran ei hadeiledd) ac mae angen i'r holl draffig yrru trwy dref Porthaethwy, sy'n creu problemau eraill o safbwynt iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

2.4 Ar yr adegau y defnyddir Pont Menai i ryddhau Pont Britannia o gerbydau HGV pan fydd ar gau, mae'r cyfyngiadau uchder a lled (yn enwedig o ran y bwâu) yn arafu cerbydau ac yn achosi tagfeydd, sy'n lleihau capasiti.

2.5 Mae hyn yn creu dwy broblem sylweddol. Yn gyntaf, mae'r bwâu yn fregus, a gallai unrhyw ddamwain sy'n golygu bod cerbyd wedi taro yn eu herbyn olygu bod angen cau'r bont – mae'r risg o ganlyniad i hyn yn uwch pan fo Pont Britannia wedi cau, ac mae'n arwain at ynysu'r ynys gan y byddai'r ddwy bont wedi cau.

2.6 Yn ail, mae angen i yrwyr fynd allan o'u cerbydau i blygu eu drychau ystlys, ac yna fynd allan eto i'w plygu'n ôl, er mwyn osgoi taro bwâu Pont Menai. Mae hyn yn broblem o ran diogelwch ac yn cael effaith sylweddol ar lif a chyflymder traffig.

*Effeithiolrwydd yr ymyriadau a risgiau o ran eu cyflenwi*

2.7 Ar y cyfan, mae CSYM yn gefnogol i'r argymhellion a nodir, yn amodol ar y cafeatau isod. Fodd bynnag, ceir pryder cyffredinol bod yr argymhellion naill ai'n ansicr neu'n gyfyngedig o safbwynt pa mor effeithiol y maent yn debygol o fod.

2.8 Mae'r argymhellion wedi'u rhannu'n opsiynau sydd naill ai'n lleihau'r risg o ddamweiniau, yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen cau Pont Britannia mewn gwynt cryf, neu'n lleihau'r effaith pan fydd rhaid cau'r bont.

2.9 Tra bo CSYM yn cefnogi'r nodau hyn, rydym yn pryderu na fydd yr argymhellion ond yn gwneud ychydig iawn o wahaniaeth, ac na fyddent yn darparu'r gwytnwch neu'r dibynadwyedd y mae eu hangen ar gyfer yr ynys.

2.10 Er enghraifft, dengys yr adroddiad bod y gyfradd wrthdrawiadau ar Bont Britannia'n uwch nag ar ffyrdd eraill. Hyd yn oed pe byddai modd sicrhau bod hanes y bont o ran diogelwch yn

debycach i ffyrdd eraill, neu hyd yn oed cystal â nhw (sy'n annhebygol), byddai damweiniau'n dal i ddigwydd, a fyddai'n golygu bod angen cau'r bont. Am gyn hired ag y bydd damweiniau'n digwydd, bydd yn arwain at ganlyniad uniongyrchol o ran economi'r ynys, oherwydd gorfod cau'r bont, a'r canfyddiad o'r posibilrwydd y byddai gorfod cau'r bont. Ni ellir ond lliniaru hyn trwy fuddsoddi mewn gwella'r seilwaith ar gyfer cerbydau.

2.11 Nodir sylwadau penodol wrth ymyl pob argymhelliad yn y tabl isod. Yr argymhellion hyn yw'r rheiny sydd wedi'u blaenoriaethu (yn ôl yr adroddiad).

Tabl 2.1: Argymhellion yng Nghyswllt Gwytnwch

| | **Argymhellion** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| A1 | Rydym yn argymell bod cynllun yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni i ddarparu strwythur gwyro gwynt ar Bont Britannia gyda'r nod o leihau'r nifer o weithiau y mae angen cau'r bont. | Cefnogir yr opsiwn i archwilio gwytnwch.<br><br>Mae angen i'r strwythur gwyro gwynt fod yn ddigonol i ddiogelu Cerbydau Nwyddau Trwm a chanddynt ochrau uchel.<br><br>**Risg o ran cyflawni hyn:** Ceir pryderon o ran y gallu i gyflawni hyn o ystyried yr ystyriaethau o ran cynllunio ar gyfer pont sydd wedi'i rhestru. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer cynnal llif traffig HGV - oherwydd rhestriad y bont, mae cael barn Cadw'n gynnar yn y broses yn hanfodol, cyn bwrw ymlaen ag unrhyw waith yng nghyswllt hyn.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Rydym yn cydnabod y byddai gosod strwythur gwyro gwynt yn gwella gwytnwch trwy gynorthwyo i gadw Pont Britannia ar agor i draffig cerbydol yn ystod achosion o wynt cryf. Ond efallai mai cyfyngedig yw'r effaith gyffredinol ar wytnwch y ffyrdd ar draws Afon Menai onid oes modd atal (bron) pob achos o orfod cau'r bont yn ystod gwynt cryf. Mae'r Cyngor wedi ystyried y mesur hwn yn y gorffennol, a phenderfynwyd ei fod yn annigonol. |
| A2 | Rydym yn argymell cyflwyno system ar gyfer gostwng y terfyn cyflymder gorfodol dros dro ar Bont Britannia a rheoli'r gostyngiad yng nghyflymder traffig ar ffyrdd dynesu'r bont. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio arwyddion terfyn cyflymder gorfodol amrywiol gyda chamerâu cyflymder cyfartalog, a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd | Cefnogir y syniad o osod arwyddion gwell a chyflwyno terfyn cyflymder amrywiol. Mae angen i'r archwiliadau hyn ystyried y ffactorau sy'n achosi gwrthdrawiadau, gan nad yw pob gwrthdrawiad yn ymwneud â chyflymder.<br><br>Bydd archwilio'r opsiwn hwn yn lleihau'r risg o wrthdrawiad, a gall hefyd gynorthwyo i gael y traffig i lifo'n rhwyddach ynghyd â lleihau allyriadau/gwella ansawdd yr aer. |

| | | |
|---|---|---|
| | o wrthdrawiadau ac yn lliniaru effaith gwynt uchel ar gerbydau sy'n symud. | Dylid asesu'r opsiwn i wneud newidiadau parhaol ochr yn ochr â therfynau cyflymder dros dro/amrywiol ar sail dadansoddiad o ddata ynghylch gwrthdrawiadau.<br><br>Dylid ystyried hefyd darparu rhagor o arwyddion sy'n rhoi rhybudd ymlaen llaw o gyfyngiadau, ciwiau, camau rheoli traffig neu risgiau eraill.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, oni ellir lleihau'r gyfradd ddamweiniau i gyflawni (bron) dim achosion o orfod cau'r bont.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Mae'r adroddiad yn cydnabod bod lefel y gydymffurfiaeth â therfynau cyflymder ymhlith gyrwyr yn isel. Ni ellir ond cyflawni cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfyngiad cyflymder gorfodol trwy fesurau gorfodi effeithiol, a defnyddio camerâu sy'n monitro cyflymder cyfartalog. |
| A3 | Rydym yn argymell astudiaeth i ystyried newidiadau i'r brif lein ar draws Pont Britannia, lleoliad lleihau nifer y lonydd, a'r uno a'r dargyfeiriadau yng Nghyffordd 8, Cyffordd 8A a Chyffordd 9, gyda'r diben o lyfnhau'r llif a lleihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau. | Cefnogir y syniad o gyflwyno marciau llinell canolog ar y ffordd i bwysleisio'r gwaharddiad ar unrhyw oddiweddyd. Dylid ystyried yr effeithiau ar feicwyr.<br><br>Mae angen bod yn ofalus o ran pa farciau a roddir ar y briffordd. Cyflwynwyd llinellau gwyn solet dwbl ar hyd dec y bont i atal cerbydau rhag gadael y bont ar yr ochr anghywir i'r gerbytffordd.<br><br>Mae'r A55 yn rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd E22, mae hi wirioneddol yn eithriad cael cerbytffordd sengl yn rhan o gerbytffordd ddeuol helaeth, a bydd cael dwy lôn yn uno i un lôn ar ffordd ddynesu ar droad, a chanddi ddwy ffordd ymuno, bob amser yn creu risg.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, oni ellir lleihau'r gyfradd ddamweiniau i gyflawni (bron) dim achosion o orfod cau'r bont, sydd ymddangos yn annhebygol o ystyried y rhesymau a nodir uchod. |
| A4 | Rydym yn argymell cynnal astudiaeth i ymchwilio i welliannau i reoli traffig ar y ddwy gylchfan yng Nghyffordd 9 i gynorthwyo yn enwedig pan | Cefnogir hyn ond nodir na fyddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar Ynys Môn. Byddai unrhyw nodweddion i flaenoriaethu bysiau'n cynorthwyo i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| | fydd pont ar gau a chreu blaenoriaeth i fysiau. | **Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, oni ellir lleihau'r gyfradd ddamweiniau i gyflawni (bron) dim achosion o orfod cau'r bont. |
| A5 | Rydym yn argymell cynnal astudiaeth i ymchwilio i welliannau i gynllun a rheolaeth ffyrdd ymadael yr A55 gyda'r A5 yng Nghyffordd 8A. | Cefnogir y syniad o gynnal astudiaeth, fodd bynnag byddai angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffyrdd sy'n ymuno ac yn gadael yr A55. Byddai unrhyw waith peirianyddol yn niweidiol o ran symudiadau cerbydau. Ni fyddai'r problemau a geir o ganlyniad i bedair lôn yn uno i un lôn i groesi Pont Britannia yn cael eu goresgyn. Mae hyd byr cyffordd 8 a 8A i gyfeiriad y dwyrain, ynghyd â cherbytffordd ddwbl yn uno, yn ystyriaethau pwysig.<br><br>Dylid adolygu'r ystadegau ar gyfer damweiniau i ganfod y risg a'r cyfiawnhad dros hynny, a dylid cynnal asesiad o adolygiadau diogelwch ac archwiliadau. Gellid ymestyn y cylch gorchwyl i archwilio cynlluniau ar wahân i rai sy'n ymwneud â rheoli traffig. Os cynigir cynllun, byddai angen cytuno ar faint rhyngwyneb y Gefnffordd/Ffordd Sirol i benderfynu'r cyfrifoldebau cynnal a chadw ar gyfer unrhyw gynlluniau diwygiedig.<br><br>Ni fyddem yn cefnogi unrhyw gynigion i gau unrhyw ffyrdd ymuno/ymadael, oherwydd yr effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Rhaid ystyried y ffactorau sy'n achosi gwrthdrawiadau yn gyntaf i benderfynu pa mor effeithiol yw unrhyw gynnig o ran lleihau damweiniau.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, oni ellir lleihau'r gyfradd ddamweiniau i gyflawni (bron) dim achosion o orfod cau'r bont. |
| A6 | Rydym yn argymell bod y Fframwaith Ymateb Amlasiantaeth sy'n ymwneud ag achosion a chau Pont Britannia a Phont Menai yn cael ei ddiweddaru a'i wella, yn enwedig mewn perthynas ag arweinyddiaeth, cyfathrebu a rheoli traffig. | Cefnogir hyn ond rhaid penderfynu pwy yw'r asiantaeth arweiniol ynghyd â'r meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio, ond o fewn oriau gweithio arferol a'r tu allan i'r oriau hyn.<br><br>Dylid hefyd gynnwys datblygu trefniadau addas ar gyfer cerbydau HGV yn ystod unrhyw achos o gau pont/cyfyngiadau. |

Mae angen blaenoriaethu protocolau ar gyfer stacio cerbydau HGV ynghyd ag o ran gweithdrefnau rheoli traffig.

Rhaid cynnwys cyfleusterau i Gerbydau Nwyddau Trwm barcio o'r neilltu ar deithiau cenedlaethol a rhyngwladol. Ni ellir anwybyddu'r golled o ran cyfleusterau ym Mharc Cybi.

Mae adolygu a gwella'r ymateb amlasiantaethol yn cyd-fynd â barnau a fynegwyd gan Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio CSYM ac a adroddwyd mewn llythyr, dyddiedig 20/12/23, gan y Prif Weithredwr i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod y sylw ar liniaru effeithiau pan fydd achosion o gau yn digwydd, yn hytrach na'u hatal rhag digwydd neu ganfod llwybrau amgen.

# 3 Darparu Trafnidiaeth Gyhoeddus

## Ychydig Iawn o Effaith

3.1 Mae CSYM yn cefnogi'r argymhellion i wella trafnidiaeth gyhoeddus ar yr ynys ac ar draws y Fenai. Fodd bynnag, rydym yn pryderu na fydd unrhyw argymhellion yn effeithiol iawn o ran mynd i'r afael â'r problemau o safbwynt dibynadwyaeth a gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai.

3.2 Mae'r adroddiad yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus ar Ynys Môn. O ran gwasanaethau rheilffyrdd, mae'r adroddiad yn cydnabod:

- *Ychydig iawn o wasanaethau rheilffordd sydd mewn gorsafoedd ar Ynys Môn, ar wahân i hynny a geir yng Nghaergybi, a chaiff nifer o breswylwyr eu gorfodi i groesi'r Fenai i ddal trên o Fangor.*
- *O ran llawer o breswylwyr Ynys Môn, nid ydynt yn byw'n agos i orsaf drenau; o'r bum tref fwyaf poblog ar Ynys Môn, dim ond un (Caergybi) sydd â gorsaf reilffordd.*
- *Ceir heriau yng nghyswllt cynyddu gwasanaethau rheilffordd mewn gorsafoedd presennol, nid yw gwasanaethau Avanti West Coast yn gallu stopio yn Llanfair PG oherwydd hyd y platfform*.

3.3 Ac o ran bysiau:

- *Mae nifer gyfyngedig o wasanaethau bws cyflym, aml a fforddiadwy ar gael yn yr ardal.*

3.4 Rydym yn pryderu bod yr adroddiad yn rhoi amcangyfrif rhy isel o lefel y buddsoddiad y byddai ei angen i sbarduno newid sylfaenol o ran y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus mewn lleoliad o'r math hwn, sy'n wledig ac ar wahân.

3.5 O ran y mathau o dripiau a wneir ar draws y Fenai, nid ydynt fel arfer yn rhai y gellir eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r bobl sy'n byw yn nwyrain yr ynys yn teithio i'r tir mawr i wneud eu siopa. Ychydig iawn o dripiau a fydd yn dechrau ac yn gorffen ger nod trafnidiaeth gyhoeddus. Hyd yn oed o ran y rheiny sy'n byw ger yr orsaf (yn Llanfair PG er enghraifft), maent yn debygol o deithio mewn car i wneud eu siopa wythnosol ym Mangor, gan nad yw'r orsaf yno gerllaw'r ganolfan fanwerthu. Bydd yn anodd cyflawni unrhyw newid arwyddocaol o ran dulliau teithio.

3.6 Mae'r cymorthdaliadau i weithredwr bysiau (a defnyddwyr) eisoes yn fawr (a niferoedd y defnyddwyr yn isel) ac maent yn debygol o ostwng yn y tymor byr. Rydym yn cytuno â'r angen am ddyraniad nawdd amlflwyddyn, ond mae gennym bryderon difrifol o ran p'un a fydd cyllid o'r fath ar gael.

**Mae diffyg gwytnwch y cysylltiadau dros Afon Menai wedi cyfrannu'n uniongyrchol at leihau gwasanaethau bws ar draws y Fenai, ond eto mae'r adroddiad yn dibynnu ar gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i leihau'r galw am drafnidiaeth breifat.**

3.7 Mae'r adroddiad yn cydnabod bod dibynadwyedd yn hanfodol o ran bysiau:

*Er mwyn sicrhau dibynadwyedd gwasanaethau bysiau sy'n croesi'r Fenai, lleihau amseroedd teithio a gwella'r gystadleuaeth gyda'r car preifat, mae'n bwysig nad yw tagfeydd yn oedi bysiau.*

3.8 Ac mae'n cydnabod bod cau Pont Menai wedi effeithio'r gwasanaeth bysiau. Fodd bynnag, nid yw'n cydnabod bod y diffyg gwytnwch o ran y gallu i groesi Afon Menai wedi cyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniad Arriva i dorri gwasanaethau bysiau.

3.9 Mae cyhoeddiad Arriva'n cysylltu'r angen i leihau'r gwasanaeth bysiau â chau Pont Menai, ynghyd â'r gwaith parhaus sy'n arwain at wyriadau hir:

*"Mae cau Pont Menai wedi achosi problemau mawr o ran y gwasanaeth o ran yr adnoddau ychwanegol a fuddsoddir i gynnal yr amserlenni presennol oherwydd y gwyriad hir y mae'n rhaid i ni ei ddilyn rhwng Bangor a Phorthaethwy.*

*O ystyried yr effaith a gaiff hyn, nid ar chwarae bach y gwnaed y newid hwn gennym, ond mae angen diwygio'r gwasanaeth i wella ei ddilysrwydd, i leihau'r cyllid a fynnir i'w weithredu, ac i adlewyrchu'r gwaith hirdymor ar Bont Menai."*

3.10 Cafodd amlder llwybrau bysiau eu lleihau, ac nid ydynt mwyach yn gwasanaethu rhai lleol, gan gynnwys Parc Gwyddoniaeth Menai, sy'n un o gonglfeini craidd adfywiad economaidd yr ynys, yn ogystal â'r cymunedau gwledig mwy anghysbell.

3.11 Ymddengys bod yr adroddiad yn dibynnu'n helaeth ar y syniad y gall trafnidiaeth gyhoeddus ddatrys y problemau o ran dibynadwyedd a gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, ac eto, mewn gwirionedd, mae'r diffyg gwytnwch yn arwain at ostyngiad mewn gwasanaethau bysiau – sy'n mynd yn gwbl groes i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ceisio ei gyflawni.

*Tabl 3.1: Argymhellion o ran Trafnidiaeth Gyhoeddus*

| | **Argymhellion** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| A7 | Rydym yn argymell cynyddu amlder y trenau sy'n galw yng ngorsaf Llanfair PG i gynyddu amlder rhwng Ynys Môn, Bangor, Llandudno a thu hwnt. | Cefnogir y syniad i gynyddu amlder ynghyd ag ystyried mesurau i ymestyn y platfform i ganiatáu i ragor o drenau allu stopio. Nodwyd fod angen cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus gwell a dibynadwy yn ôl ac ymlaen i Ynys Môn, yn ystod amodau arferol ac yn ystod unrhyw gyfnodau pryd y mae'r pontydd wedi cau.<br><br>Nodwn nad yw'r mynediad i gerbydau i'r orsaf reilffordd yn ymarferol yn ystod cyfnodau pryd y mae'r pontydd wedi cau oherwydd tagfeydd trwm. Dylid cynnwys y cyfrifoldeb dros reoli a chadw mynediad lleol yn unig i'r A5 Gaerwen-Llanfairpwll yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae Pont Britannia wedi cau, ynghyd â'r camau ar gyfer gwneud hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Effeithiolrwydd:** Ddim yn effeithiol iawn oni ellir ymestyn y platfform.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai, ac fel y nodwyd uchod, o ran y mathau o dripiau sy'n gwneud y daith. |
| A8 | Rydym yn argymell cyflwyno'r rhwydwaith bysiau gwell a'r amlder ar gyfer Ynys Môn a ddatblygwyd gan TrC gyda chefnogaeth cyllid amlflwyddyn | Cefnogir hyn, yn enwedig yr angen am ymrwymiadau cyllid hirdymor.<br>Byddem hefyd yn cefnogi astudiaeth i wytnwch hirdymor Pont Menai, dyfodol unrhyw gyfyngiad terfyn pwysau 7.5T, ynghyd â'r potensial i flaenoriaethu cerbydau trafnidiaeth gyhoeddus a chynllun gweithredu i addysgu ynghylch unrhyw gyfyngiadau gweddilliol a'u hyrwyddo a'u gorfodi. Nid ydym yn ystyried fod Pont y Borth yn addas i gerbydau 44T, hyd yn oed ar ôl cwblhau'r cynllun crogfachau diweddar, oherwydd cyfyngiadau o ran lled.<br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai. |
| A9 | Rydym yn argymell bod lleoliadau lle gallai fod oedi i fysiau yn cael eu nodi a'u datblygu a gweithredu cynlluniau blaenoriaeth bysiau yn unol â hynny | Cefnogir yr ymchwiliad, a dylid cyfeirio at A8 uchod. Rydym yn nodi bod hyn yn gofyn am ymrwymiad hirdymor, ac mae cyfyngiadau ariannol ynghyd â chyflwyno'r terfynau cyflymder 20 milltir yr awr wedi arwain at leihau gwasanaethau mewn rhai cymunedau ym Môn, yn ogystal â lleihau gwasanaethau yn ôl ac ymlaen i Ynys Môn o drefi cyfagos yn ystod 2023.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai, ac fel y nodwyd uchod, o ran y mathau o dripiau sy'n gwneud y daith. |
| A10 | Rydym yn argymell bod cyfleoedd i ddatblygu safleoedd parcio a theithio newydd neu well yn cael eu harchwilio ar Ynys Môn i ategu'r rhwydwaith bysiau gwell. | Cefnogir hyn ond nodir nad oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r safleoedd presennol. Ar sail y ddarpariaeth a'r lefelau defnydd presennol, mae angen mwy o gymhellion i annog y defnydd o gyfleusterau parcio ar gyfer rhannu cerbydau.<br><br>Dylid ystyried camau i ddarparu cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y safleoedd |

a’r ardaloedd cyflogaeth mawr ym Mangor. Gellid cynnwys camau eraill o ran newid ymddygiad i wneud rhannu ceir/trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol, sy’n gysylltiedig ag A15.

Dylid ystyried cyflwyno safle Parcio a Theithio ychwanegol fel rhan o brosiect amlfoddol ehangach i newid ymddygiad, er mwyn lliniaru’r pwysau ar Bont Britannia.

**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy’n croesi’r Fenai. Noder nad oes fawr o ddefnydd ar safleoedd presennol.

# 4 Darpariaeth Teithio Llesol

4.1 Yn yr un modd ag yn achos yr argymhelliad yng nghyswllt trafnidiaeth gyhoeddus, mae CSYM yn cefnogi'r argymhellion i hybu teithio llesol ar yr ynys ac ar draws Afon Menai, ond rydym yn pryderu y bydd effeithiolrwydd unrhyw argymhellion yn gyfyngedig iawn o ran mynd i'r afael â'r problemau o ran dibynadwyedd a gwytnwch ar draws Afon Menai.

*4.2* Mae'r adroddiad yn cydnabod *'nid oes amheuaeth bod creu llwybrau teithio llesol ar draws Afon Menai yn heriol'.*

4.3 Mae gennym ddau bryder sylfaenol o ran effeithiolrwydd hybu teithio llesol fel modd o gynyddu capasiti ar draws Afon Menai.

- Yn gyntaf, poblogaeth gyfyngedig sy'n byw o fewn pellter cerdded a beicio o'r pontydd. Nodir hyn yn fanylach isod.
- O ystyried graddfa debygol y buddsoddiad cyfalaf a fynnir i gyflenwi mesurau teithio llesol ar Bont Britannia – ni fyddem eisiau i adnoddau gael eu cyfeirio i ffwrdd o'r gwaith ar y Drydedd Groesfan.

*Ceir nifer gyfyngedig o dripiau sy'n addas i'w hystyried o ran p'un a fyddai'n bosibl newid dulliau teithio*

4.4 Poblogaeth gyfyngedig sy'n byw o fewn pellter cerdded a beicio o'r pontydd - a nifer gyfyngedig o lwybrau a fyddai'n addas i'w hystyried o ran p'un a fyddai modd newid dulliau teithio.


4.5 Yn 2019, dim ond 24 o dripiau beic a gofnodwyd ar draws Pont Britannia. Er ein bod yn cydnabod bod rhan o'r rheswm am hyn yn ymwneud â phryderon ynghylch diogelwch, y gellid eu gwella gan yr argymhellion yn yr adroddiad, mae hon yn sylfaen isel iawn i adeiladu arni.

4.6 Y (nifer gyfyngedig o) bobl sydd eisoes yn beicio yw'r rheiny sy'n fwyaf tueddol o deithio (h.y. sy'n fwyaf tebygol o wneud hynny). Bydd rhywfaint o alw cudd o ran pobl nad ydynt yn beicio ar hyn o bryd ond y byddent yn gwneud hynny o ganlyniad i welliannau o ran teithio llesol.

4.7 Mae'r adroddiad yn ystyried bod 5 cilomedr yn bellter rhesymol i feicio, ac yn nodi bod Bangor, Porthaethwy, Llanfair PG, Ysbyty Gwynedd a Pharc Menai yn gyrchfannau cyflogaeth allweddol. Mae'r map isod yn dangos dalgylch 5 cilomedr o Fangor, Llanfair PG a Phorthaethwy. Mae hwn yn dangos mai nifer gymharol fach o dripiau a fyddai'n bosibl eu gwneud â beic, mae'r rhain yn cynnwys:

- Bangor (gan gynnwys Ysbyty Gwynedd) i Borthaethwy ac yn ôl
- Llanfair PG i Fangor ac yn ôl

*Ffigur 4.1: Dalgylch 5 cilomedr*




### *Yr opsiwn o ran cyflenwi teithio llesol*

4.8 Mae CSYM yn cefnogi'r weledigaeth o ran hyrwyddo dulliau teithio llesol ar draws y Fenai.

4.9 Gallai Trydedd Groesfan gynnwys darpariaeth ar gyfer teithio llesol, neu gellir gwneud darpariaeth addas ar gyfer teithio llesol trwy ailneilltuo lle ar y ffyrdd, ynghyd â'r flaenoriaeth a roddir i deithio llesol o fewn capasiti gweddilliol Pontydd Menai a Britannia (pe bai Trydedd Groesfan yn cael ei darparu).

*Tabl 4.1: Argymhellion o ran Teithio Llesol*

| | **Argymhellion** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| A11 | Rydym yn argymell bod llwybr teithio llesol yn cael ei ddarparu ar draws Pont Britannia yn ddelfrydol ar lefel dec y rheilffordd ond o bosibl ar strwythur cantilifrog ar lefel dec y ffordd. | Cefnogir yr ystyriaeth, a dylid cyfeirio at y sylwadau ar gyfer A3. Rydym yn ystyried bod Opsiwn 1 yn fwy dymunol, gan nad yw'n cyfyngu unrhyw gynigion at y dyfodol ar gyfer gwella capasiti ar ffurf cael 2 drac rheilffordd.<br><br>Tra'r ydym yn derbyn bod angen ystyried llwybr teithio llesol dros Bont Britannia, mae gennym bryderon o ran diogelwch y cyhoedd o safbwynt beicwyr a cherddwyr yn teithio ar lefel dec y rheilffordd. O ran symudiadau trenau, sy'n digwydd yn anaml, ynghyd â'r math o amgylchedd sy'n bodoli o dan lefel dec y ffordd, mae'n annhebygol o fod yn ffafriol ar gyfer sicrhau diogelwch personol.<br><br>Gellir ymgorffori cynnig o'r fath o fewn unrhyw fesurau ar gyfer darparu strwythurau gwyro gwynt. Ystyrir na fyddai gwelliannau yng nghyswllt teithio llesol ar Bont Britannia ond yn effeithiol os gwelir mesurau ychwanegol i hybu teithio llesol ar y rhwydwaith priffyrdd ehangach yn yr ardal. Nodwn fod gwaith yn cael ei wneud eisoes i ymchwilio i opsiynau o dan brosesau WELTAG, ond rydym yn amlygu'r angen i gysylltu ag unrhyw fesurau posibl i wella capasiti'r rheilffordd o brif Adroddiad Trafnidiaeth Gogledd Cymru y Comisiwn.<br><br>**Risg o ran cyflawni hyn:** Byddai angen dangos yn gynnar y byddai hyn yn cyflenwi gwerth am arian.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai. |
| A12 | Rydym yn argymell gwahardd goddiweddyd ar hyd Pont Menai i gyd. | Cefnogir y syniad i ailneilltuo'r lle ar y ffordd a rhoi blaenoriaeth i ddefnyddwyr dulliau teithio llesol.<br><br>Dylid ystyried yr opsiwn o gyflwyno marciau llinell canolog a fyddai'n gwahardd goddiweddyd, gan gadw lled bwâu'r bont. Gall hyn hefyd leihau'r risg o ddifrod i'r bwâu a hybu gwytnwch. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae TSRG 2026 Pennod 5 3.1.4 yn nodi na ddylid rhoi llinellau gwyn dwbl canolog ar gerbytffordd sy'n llai na 6.1 metr o led.<br>Mae'r arwyddion presennol sy'n nodi na ddylid goddiweddyd yn creu dryswch, gan eu bod yn cyfeirio at rannau o'r bont, wrth ddynesu ati ym mhob pen i'r bwâu, yn lle mae'n gwbl amhosibl i basio.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai. |
| A13 | Rydym yn argymell ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu gatiau a reolir gan signalau er mwyn caniatáu i draffig beiciau groesi Pont Menai ar wahân i draffig modur. | Cefnogir hyn, ond ar ôl adolygu effeithiolrwydd A12, a chydymffurfiaeth â'r argymhelliad, gyda defnyddwyr dulliau teithio llesol.<br><br>Hoffem weld mesurau'n cael eu hystyried i flaenoriaethu bysiau, fel adolygu'r cyfyngiad pwysau 7.5T ac eithriadau er enghraifft.<br><br>**Risg o ran cyflawni hyn:** Nodir gennym efallai y bydd cyfyngiadau cynllunio o ran gosod mesurau rheoli traffig / seilwaith ar gyfer signalau ar adeiledd rhestredig hanesyddol.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai. |
| A14 | Rydym yn argymell datblygu rhwydwaith teithio llesol cynhwysfawr, cyfforddus, deniadol a diogel sy'n ymestyn o ddau ben y ddwy bont i gysylltu cymunedau a chyrchfannau pwysig yn Ynys Môn a gogledd Gwynedd. | Cefnogir hyn a dylid ei gysylltu â'r mesurau o dan A15.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai. |

# 5 Cynllunio a Rheoli Teithio

5.1 Mae CSYM yn cefnogi argymhellion i wella mesurau ar gyfer cynllunio a rheoli teithio ar yr ynys ac ar draws y Fenai, ond rydym yn pryderu y bydd effeithiolrwydd unrhyw argymhellion yn gyfyngedig yng nghyd-destun y broblem yn gyffredinol.

5.2 Mae llawer o'r newid o ran patrymau gweithio (gweithio gartref, oriau gweithio hyblyg) wedi newid yn barod yn y cyfnod ar ôl Covid, ac felly mae'r graddau y gwneir rhagor o newidiadau arwyddocaol yn gyfyngedig.

*Tabl 5.1 Argymhellion o ran Cynllunio a Rheoli Teithio*

| | **Argymhellion** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| A15 | Rydym yn argymell datblygu gwaith partneriaeth cynhwysfawr rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu a chyflwyno mesurau newid ymddygiad teithio gan gynnwys partneriaethau cynllunio teithio, hybiau gwaith lleol, cynlluniau llogi beiciau ac e-feiciau, cefnogaeth i feiciau e-gargo ar gyfer danfoniadau lleol, a darparu cyllid refeniw amlflwyddyn (5-6 blynedd) pwrpasol. | Cefnogir hyn ond, fel yn achos A6, rhaid sefydlu pwy yw'r asiantaeth arweiniol. Ceir potensial i leihau tagfeydd, os bydd pob asiantaeth berthnasol yn cydweithio ac yn ystyried mesurau i ymestyn y cyfnod brig gydag amseroedd cychwyn gwaith amrywiol, mentrau rhannu ceir, llogi beiciau, neu ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus o safleoedd parcio a rhannu ceir.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Efallai mai ychydig iawn o effaith y byddai hyn yn ei gael yn gyffredinol o ran gwytnwch cysylltiadau ar draws Afon Menai, gan fod unrhyw newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn fach yng nghyd-destun faint o draffig sy'n croesi'r Fenai. |

# 6 Rhagor o Opsiynau o ran Rheoli Traffig

6.1 Mae'r adroddiad yn argymell y dylid ymgymryd ag astudiaeth yn y dyfodol yng nghyswllt y posibilrwydd o system llif llanw tair lôn. Mae'r adroddiad yn cydnabod yr angen i gynyddu capasiti, y mae CSYM yn ei gefnogi.

6.2 Ymddengys bod yr adroddiad ei hun yn llawn amheuon o ran ai hwn yw'r ateb iawn – naill ai yn nhermau diogelwch neu yn nhermau buddion:

- *Byddai cynllun llif llanw yn ddrud i'w weithredu a bydd costau refeniw sylweddol yn parhau.*
- *Byddai ei fanteision i'w gweld yn ystod cyfnodau brig yr wythnos yn unig.*
- *Gall trefniant llif llanw tair lôn ar yr A55 Pont Britannia, ynghyd â therfyn cyflymder addas, leihau tagfeydd.*
- *Gellid cyflawni lled lôn o 3.5m ar gyfer pob un o'r lonydd ochrog a lled lôn ganolog o 3.0m, er y byddai hynny'n gofyn am wyro oddi wrth safonau.*
- *Bydd angen gwaith dylunio sylweddol i sicrhau cynllun ffordd diogel a rheoli cyflymder diogel.*
- *Rydym yn credu nad yw system o'r fath yn debygol o fod yn ddefnyddiol ar Bont Britannia oherwydd lled gul lonydd, costau refeniw, ac amser cyfyngedig yn y dydd pan fydd manteision.*

6.3 Daeth Asesiad Diogelwch 2015 i'r casgliad na fyddai mesurau lliniaru'n lleihau lefelau risg yn ddigonol ac na ddylid "*bwrw ymlaen â threfniant llif llanw*" – nid yw CSYM yn glir o ran sut y daethpwyd i'r casgliad y gellid bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn, neu beth sydd wedi newid i gyfiawnhau hynny, ac mae'n pryderu bod y problemau hyn o ran diogelwch yn parhau. Gallai'r opsiwn hwn gynyddu nifer y gwrthdrawiadau, ac felly leihau dibynadwyedd y dulliau o groesi Afon Menai.

6.4 Ymhlith y camau lliniaru arfaethedig a nodir yn yr Atodiad ar gyfer y problemau diogelwch yng nghyswllt hyn y mae gwahardd beicwyr rhag defnyddio'r bont – mae'n amlwg bod hyn yn gwrthddweud beth mae Llywodraeth Cymru'n ceisio ei gyflawni.

*Tabl 6.1 Argymhellion o ran Cynllunio a Rheoli Teithio*

| | **Argymhellion** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| A16 | Rydym yn argymell cynnal astudiaeth ar gyfer Pont Britannia o system lanw tair lôn gyda a heb rwystr symudol fel y gellid defnyddio system o'r fath yn gyflym os yw'n briodol ar gyfer gwytnwch a rheoli digwyddiadau yn y dyfodol. | Nid ydym yn cefnogi hyn ar hyn o bryd.<br><br>**Effeithiolrwydd:** Mae prif bryderon CSYM yn nhermau croesfannau'r Fenai yn ymwneud â gwytnwch, yn enwedig o ran Pont Britannia. |

Ystyrir mai mesur i liniaru tagfeydd yw unrhyw gynnig o ran cael 3 lôn, yn hytrach na'i fod yn mynd i'r afael â gwytnwch.

**Effeithiolrwydd:** Mae'r opsiwn hwn wedi'i ystyried yn flaenorol - ac am y rhesymau a nodwyd yn yr atodiad i adroddiad CTGC, ni chafodd ei gefnogi ar y pryd.
Nid oes digon o le ar y ffordd ar gyfer cynllun o'r fath. Mae'r rhannau o'r ffordd sy'n mynd trwy'r bwâu yn rhy gul, a cheir risg y byddai hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau. Mae'n debygol na fyddai'r opsiwn hwn yn wydn.

**Effeithiolrwydd:** Rydym yn pryderu y gallai gwelliannau o ran capasiti gynyddu'r risg o wrthdrawiad, ac y gallai felly gael effaith niweidiol ar wytnwch.

**Risg o ran cyflenwi hyn:** Rydym yn ystyried y gallai'r cynnig hwn wrthdaro ag A1 a A3. Mae A1 yn delio â gwytnwch o ran effeithiau'r gwynt, ond byddai cael tair lôn yn golygu y byddai cerbydau'n fwy tebygol o wrthdaro pe baent yn gwyro oddi ar eu lôn o ganlyniad i wyntoedd cryf. Dylid cyfeirio at A3, sy'n anelu at wella gwytnwch trwy amlygu camau i gyflwyno cyfyngiadau i atal goddiweddyd.